Davies, Owen
Esboniad ar Actau yr
Apostolion

BS
2625
.3
D38
1886

Digitized by the Internet Archive
in 2010 with funding from
University of Toronto

http://www.archive.org/details/p1esboniadaracta00davi

RHAN I. PRIS 6CH.

# ESBONIAD

AR

# ACTAU YR APOSTOLION,

MEWN CYFRES O

## Ddarlithoedd Eglurhaol ac Ymarferol.

GAN
Y PARCH. OWEN DAVIES,
CAERYNARFON.

CYNNWYSIAD.

| | | Tudal. |
|---|---|---|
| DARLITH | I.—Y ddau ddyn a'r ddau draethawd.—Act. i. 1, 2 | 1 |
| " | II.—Bywyd y dengain niwrnod.—Act. i. 3 | 8 |
| " | III.—Bedyddio â'r Ysbryd Glân.—Act. i. 4—8 | 16 |
| " | IV.—Esgyniad y Gwaredwr.—Act. i. 9 | 22 |
| " | V.—Ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu.—Act. i. 10, 11 | 26 |
| " | VI.—Y cyfarfod gweddi cyntaf wedi yr esgyniad.—Act. i. 12—24 | 34 |
| " | VII.—Ethol apostol yn lle Judas.—Act. i. 15—26 | 41 |
| " | VIII.—Dyfodiad yr Ysbryd Glân.—Act. ii. 1—13 | 48 |
| " | IX.—Amddiffyniad ac eglurhad.—Act. ii. 14—21 | 55 |
| " | X.—Dyrchafiad y Mab i'w awdurdod gyfryngol.—Act. ii. 22—36 | 61 |

AMMODAU.

Gorphenir y Llyfr mewn oddeutu wyth o Ranau—Rhan i ddyfod allan bob chwech wythnos mor agos ag y gellir. Pawb a dderbynio y rhan gyntaf i dderbyn yr oll, ac i dalu am bob rhan ar ei derbyniad.

Teimlir yn dra diolchgar am bob cynnorthwy i ledaenu y gwaith. Yr Archebion a'r Taliadau i'w hanfon at yr Awdwr.

LLANGOLLEN:
ARGRAFFWYD GAN W. WILLIAMS,
SWYDDFA Y "GREAL" A'R "ATHRAW."

1886.

*Llyfrau Cyhoeddedig ac ar Werth gan H. Humphreys, Caerynarfon.*

Gweithiau Dewi Wyn o Eifion, sef y Blodau Arfon, yn gyflawn fel yr oedd yn yr Argraffiad Cyntaf; gyda chwanegiad o Attodiad helaeth, gan *Cynddelw.* Pris 5/6.

Barddoniaeth *Cynddelw:* yn cynnwys Awdlau, Cywyddau, Englynion, &c. Dan olygiad *Ioan Arfon.* Hefyd, Traethawd ar Fywyd ac Athrylith *Cynddelw;* gan y Parch. J. Spinther James. Gyda Darlun o'r Awdwr. 5/6 mewn llian.

Geiriadur y Bardd, sef Geirlyfr Odlyddol at wasa… …au yn ol eu Hodl… …dan olygiad *Cynd*…

Geiria… …iau Cym-raeg… …*w.* Pris 2/6.

Traeth… …gyfadd-asu i… …llyfni. Ar-graffi…

Yr Ora… …Newydd, wedi… …Drefnewydd. Ail… …Caerynarfon. Pris…

*** Y ma… …H. Humphreys (tua 500 me… …l gyda'r Post, ond anfon g…

*Pris 4s., wed…* …*l gan yr awdwr,*

Y PAR… …GOLLEN, Mewn cy… …yn gyffredin,

…r.

"Y mae… …l y Bedyddwyr dan rwyme… …l gydnabod yn wasanaeth… …*ydd.*

**HOLWY… …BEIBL:**

…DD;

At… …Gan y

PARCH. O. DAVIES, CAERYNARFON.

*Telerau, blaendal; y seithfed i ddosbarthwyr, a'r elw arferol i lyfrwerthwyr. Pob archebion i'w hanfon at yr Awdwr.*

*Ail Argraffiad, pris dwy geiniog, i'w gael gan yr Awdwr,*

PAHAM YR WYF YN FEDYDDIWR?

GAN Y PARCH. O. DAVIES, CAERYNARFON.

Telir y cludiad a rhoddir y seithfed i'r dosbarthwyr.



VELUT ARBOR ÆVO

*Presented to the*

LIBRARY *of the*

UNIVERSITY OF TORONTO

by

Elizabeth Plain

LIBRARY
NOV
1988
UNIVERSITY OF TORONTO

# ACTAU YR APOSTOLION.

## DARLITH I.

ACT. I. 1, 2.

1. Y TRAETHAWD cyntaf[1] a wnaethum,[2] O Theophilus, am yr holl[3] bethau a ddechreuodd[4] yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu,[5]

2. Hyd y dydd y derbyniwyd ef i fyny,[6] wedi iddo trwy[7] yr Ysbryd Glân roddi gorchymynion[8] i'r apostolion a etholasai.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] Blaenorol.—C. D. Cyntaf.—Y. D. Cyntaf o ddau, fel Mat. xxi. 28.

[2] Yr adroddawd cyntaf a gyfansoddais.—J. W. Yr adroddiad blaenorol a wnaethum.—A. B. U.

[3] Dysga fod ei hanes ef o fywyd Iesu yn helaeth a chyflawn, eithr heb hawlio fod pob dygwyddiad yn ddieithriad wedi ei gofnodi; ni roddwyd y cyfryw hanes manwl gan yr efengylwr Ioan (xx. 30.) na chan Luc.—LECHLER.

[4] Yr hyn a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu, ac y parhaodd i'w gwneuthur, &c., hyd y dydd, &c.—WINER'S Gram. of New Test. Greek, p. 775. Am yr oll y darfu i'r Iesu o'r dechreuad eu gwneuthur a'u dysgu, hyd y dydd y cymmerwyd ef i fyny.—GLOAG.

[5] Cymharer "Prophwyd galluog mewn gair a gweithred." (Luc xxiv. 19.)

[6] Esgyniad Iesu oedd gorpheniad ei weinidogaeth ddaearol, a dechreuad ei weinidogaeth nefol; felly y mae yn cael lle yn yr Efengyl ac hefyd yn yr Actau.—LINDSAY.

[7] Mae yr adroddiad yn golygu gweithrediad y gallu hwnw o eiddo yr Ysbryd Glân, â'r hwn y llanwyd yr Iesu ar ol ei fedydd. (Luc iv. 1.)—LUMBY.

[8] Gorchymyn.—C. D. a J. W. Deallaf hyn gyda Meyer ac ereill, fel yn cyfeirio at orchymyn Crist i bregethu yr efengyl i'r holl fyd, fel y cofnodir yn Mat. xxviii. 19; gallasai Luc gymmeryd yn ganiatâol fod y gorchymyn hwn, o herwydd neillduolrwydd ei gynnwysiad, yn gwbl hysbys i'w ddarllenwyr.—HACKETT.

### Y DDAU DDYN A'R DDAU DRAETHAWD.

I. Y ddau ddyn—Luc a Theophilus.

Mae yma un yn ysgrifenu, ac yn cyflwyno yr hyn a ysgrifena i arall.

1. Yr ysgrifenwr—Luc. Mae yn gwbl eglur wrth gymharu y ddwy adnod gyntaf yn yr Actau â'r pedair adnod cyntaf yn Efengyl Luc, mai yr un ydyw awdwr y ddau draethawd, ac y mae digon o le i fod yn sicr mai Luc oedd hwnw, er nad yw ei enw yn y naill na'r llall. Priodolir hwy iddo mewn gweithiau a ysgrifenwyd yn yr ail ganrif

o'r cyfrif Cristionogol, ac nis gellir rhoddi yr un rheswm paham y gwnaed hyny, heblaw mai efe oedd yr awdwr. Ychydig a wyddom am Luc. Bernir gyda llawer o debygolrwydd mai yr un ydoedd ag y sonir am dano yn Col. iv. 14., fel "Luc y physigwr anwyl." Gellir casglu oddiwrth hyn ei fod yn ddyn o beth dysg a diwylliant meddyliol, o'r hyn lleiaf, o fwy na'r rhan fwyaf o ganlynwyr y Gwaredwr yr adeg hòno. Bernir ei fod o darddiad Cenedlig: pa un a oedd yn broselyt i'r grefydd Iuddewig nid yw hysbys. Barna rhai ei fod yn un o'r Cristionogion dienwaededig cyntaf. Yr olwg gyntaf a gawn arno ydyw yn Troas; yr ydym yn ei gael yn myned oddi yno gyda Phaul i Philippi, a chawn ef ar ol hyny yn dyfod i'r golwg yn awr a phryd arall gydag Apostol mawr y Cenedloedd, hyd ddiwedd Llyfr yr Actau, cyfnod hwyrach o ddeg i ddeuddeg mlynedd. Yr olwg ddiweddaf ydym yn ei gael arno ydyw yn 2 Tim. iv. 11., lle y cawn ef yn glynu yn ffyddlawn wrth yr apostol pan oedd llawer ereill wedi ei adael. Mae yn dygwydd yn aml, pa leiaf o wybodaeth wirioneddol fydd am ddyn, mwyaf oll fydd o draddodiadau yn ei gylch. Mae y rhai hyn yn lliosog am Luc, megys ei fod yn un o'r Groegwyr a ewyllysiai weled yr Iesu, ac mai efe oedd gyda Cleopas yn myned tuag Emmaus, ei fod yn arluniwr da, ac mai efe oedd y cyntaf i dynu darlun Crist, ei fam, a'i apostolion, ac iddo gael ei groeshoelio yn ferthyr ar bren olewydd yn bedwar ugain mlwydd oed; ond nid oes dim yn sicr yn ei gylch, ond a geir yn y Testament Newydd.

2. Yr hwn yr ysgrifenwyd ato—Theophilus. Ni wyddom ddim gyda sicrwydd am y dyn hwn, ond a ellir gasglu oddiwrth ysgrifeniadau Luc. Ystyr yr enw ydyw un yn caru Duw. Mae rhai wedi meddwl mai nodwedd oedd gan Luc mewn golwg, ac nid unrhyw berson neillduol; ond nid yw hyn yn debyg, gan fod natur y cyfarchiad yn rhoddi lle i gredu yn wahanol. Yn ei ragarweiniad i'w efengyl, geilw Luc ef yn "Ardderchocaf Theophilus;" a thybir fod y gair "Ardderchocaf" yn fath o deitl, yn arwyddo swydd, megys pan y dywed Paul, "O Ardderchocaf Ffelix." (Act. xxiv. 3.) Mae llawer o dybiau wedi eu cynnyg yn ei gylch; ond yr hyn y teimlir mwyaf o hyder ynddo fel y peth tebycaf i fod yn wir ydyw, ei fod yn ddyn cyfrifol, yn Genedlddyn dychweledig, ac yn byw yn Italy, ac o bossibl yn Rhufain.

II. Y ddau draethawd.

1. "Y Traethawd Cyntaf." Golyga hwn, yn ddiau, yr hyn a elwir genym, "Efengyl Luc." Mae y pryd a'r lle yr ysgrifenwyd y "Traethawd Cyntaf" yn ansicr. Barna rhai mai yn Philippi, yn A.D. 57. yr ysgrifenwyd ef, ac ereill mai yn Rhufain, A.D. 62. neu 63. Rhydd y testyn ddarnodiad byr o'i gynnwysiad. Os cymharwn y testyn â'r pedair adnod blaenaf o Efengyl Luc, ni a gawn y pethau canlynol o barthed i'r Traethawd Cyntaf:—

1. Mai nid Luc oedd y cyntaf i ysgrifenu traethawd ar y pwnc.

2. Mai dysgeidiaeth eneuol y rhai oedd wedi gweled y pethau oedd prif ddefnyddiau ei draethawd.

3. Mai y pethau a wnaeth ac a ddysgodd yr Iesu hyd ei esgyniad i'r nef oedd pwnc ei draethawd.

4. Fod Luc wedi cymmeryd amser a llafur i wneyd y goreu er ysgrifenu yn drefnus a chryno.

Wrth gymharu Efengyl Luc â'r tair Efengyl arall, yr ydym yn cael fod Matthew wedi ysgrifenu i'r Iuddewon, Marc wedi ysgrifenu i'r dychweledigion Rhufeinig, Luc wedi ysgrifenu i bawb, ond yn enwedig i'r Cenedloedd, tra y mae Ioan yn cyfarfod tueddiadau mwy athronyddol meddwl dyn, ac yn ei arwain i ddirgelwch yr efengyl, nes y mae yn teimlo rhyw arswyd santaidd yn mhresennoldeb mawreddog y Duw mewn cnawd. Nid yw Matthew wrth ysgrifenu i'r Iuddewon yn aros dim i egluro pethau yr oedd yr Iuddew eisioes yn eu deall. Mae Marc yn fwy bywiog a nerthol, yn cyfateb i yni y meddwl Rhufeinig, tra y mae Luc wrth ysgrifenu, yn benaf i'r Cenedloedd, yn dal yr Iachawdwr yn y golwg, y goleuni i oleuo y Cenedloedd, a'r iachawdwriaeth ger bron wyneb yr holl bobl. Yn Luc yn unig y ceir dammeg y Samaritan trugarog, a dammeg y mab afradlon; y naill yn darostwng balchder yr Iuddew, a'r llall yn dangos drws gobaith i'r Cenedlddyn. Luc hefyd sydd wedi cofnodi y pethau a "wnaeth" ac a "ddysgodd" yr Iesu gyda mwyaf o drefn; mae y pethau a wnaeth—ei wyrthiau a'i fywyd, a'r pethau a ddysgodd—ei ddammegion a'i bregethau, yn nes i'r drefn amseryddol yn Luc nag un man arall; ond er fod gan bob efengylwr ddosbarth neillduol o bobl mewn golwg, ac amcan pennodol i'w gyrhaedd wrth ysgrifenu, eto mae yn mhob un o'r efengylau bethau anghenrheidiol i bawb; nid yw y naill yn

gyflawn heb y lleill, ond y pedair gyda'u gilydd a wnant i fyny "efengyl Crist," yr hon sydd "abl i'n gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth."

"Fel hyn y saif yr efengyl yn bedrongl, gydag ochr yn wynebu ar bob ochr i'r byd ysbrydol. Matthew, gan gyfarch yr Iuddew, a ddadguddia y Messiah-frenin; Luc, y Groegwr, a ddadguddia y *dyn;* Marc a ddangosa nerth a grym y gwirionedd, a Ioan ei gariad tyniadol a gorchfygol. Matthew a esyd allan yn benaf yr Iuddewig a'r israddol; Ioan yr ysbrydol a'r Dwyfol, yn ein Iachawdwr; Marc ei awdurdod ar natur ac ar gythreuliaid, a Luc ei hanes personol fel dyn. Yn y cyfan yn nghyd, gosodir Iesu allan fel y Messiah, y Dysgawdwr, yr Esiamplydd, y Brawd, a'r Duw."—*Bible Hand-Book.*

2. Yr Ail Draethawd. Mae son am draethawd cyntaf yn ein harwain yn naturiol i edrych am ail draethawd, yr hwn yn ddiau yw "Actau yr Apostolion." Mae yr enw Actau neu Weithredoedd yr Apostolion, yn perthyn i amser diweddarach na chyfansoddiad y llyfr. Nid yw yr enw ychwaith yn gosod allan yn gywir gynnwysiad y llyfr; oblegyd nid oes yma ond gweithredoedd ychydig o'r apostolion, a dim ond ychydig mewn cymhariaeth o weithredoedd y rhai hyny. Mae yr enw a fabwysiada John Williams yn well, "Gweithredoedd Apostolion." Pe buasai Luc ei hun wedi rhoddi enw arno, mae yn debyg mai "Yr Ail Draethawd" a fuasai hwnw, fel y geilw ei Efengyl yn "Draethawd Cyntaf." Bernir i'r Actau gael ei ysgrifenu tua diwedd y ddwy flynedd y bu Paul yn Rhufain, y rhai y sonir am danynt yn y bennod olaf o'r llyfr. Yr oedd hyn O.C. 63; felly mae y cyfnod a gymmerir i mewn yn 33 mlynedd, yr un faint a'r cyfnod yn yr efengyl. Mae adnodau y testyn yn ein harwain i ddysgwyl i'r awdwr ddweyd ei amcan yn ysgrifenu yr Ail Draethawd. Dywed beth oedd wedi wneyd yn y Traethawd Cyntaf; ond yn lle dweyd beth oeddym i ddysgwyl yn yr Ail, â yn mlaen i ddechreu ar ei hanes. Mae llawer wedi meddwl fod yr agoriad i'w gael yn y gair "dechreuodd." Eu syniad hwy yw mai dechreu ei waith yr oedd yr Arglwydd Iesu tra ar y ddaear, a'i fod yn ei gario yn mlaen wedi myned i'r nefoedd, ac felly fod Traethawd Cyntaf Luc yn cynnwys hanes dechreuad y gwaith, a'r Ail Draethawd yn cynnwys hanes y gwaith yn cael ei gario yn mlaen. Mae rhywbeth

yn brydferth iawn yn y syniad hwn: ac y mae yn eithaf gwir na orphenodd yr Arglwydd Iesu iachawdwriaeth ei eglwys pan ar y ddaear, ac mae mor wir a hyny ei fod yn cario gwaith ei hiachawdwriaeth yn mlaen yn y nefoedd; eto mae yn ammheus genym os oedd y cwbl yma yn cael ei olygu gan Luc yn yr ymadrodd "yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu." Mae y pethau canlynol yn ymddangos yn milwrio yn erbyn y dybiaeth:—

1. Pe buasai Luc yn edrych ar bethau yn y goleu yna, mae yn debyg iawn y buasai y peth wedi ei wneyd yn eglurach, ac yn cael ei gario allan yn fwy goleu.

2. Gellir nodi engreifftiau lle y mae geiriad o'r un natur yn rhwym o gael ei ddeall fel pe darllenem y geiriau dan sylw fel hyn, "Yr holl bethau a ddysgodd ac a wnaeth yr Iesu." Gwel Marc vi. 7.

3. Gorphenodd Iesu y pethau a ddechreuodd eu gwneuthur a'u dysgu ar y ddaear, cyn iddo adael y ddaear. Pethau ereill y mae yn eu gwneyd yn y nefoedd. Dywedai wrth ei Dad cyn gadael y ddaear, "Mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur." Yr oedd gan Iesu waith neillduol i'w gyflawni ar y ddaear, yr hwn ni thalasai i'w wneuthur yn un man arall; ac y mae ganddo waith neillduol eto i'w gyflawni yn y nefoedd, yr hwn nis gellid ei wneyd yn un man ond yno. Gorphenodd Iesu waith y ddaear pan ar y ddaear, a gorphena eto waith y nefoedd yn y nefoedd. Perthyn i waith y ddaear yr oedd y pethau a "ddechreuodd eu gwneuthur a'u dysgu," a gorphenodd hwy cyn myned i'r nefoedd; pethau ereill yn perthyn i'r un gwaith mawr sydd yn cael eu dechreu a'u gorphen ganddo eto yn y nefoedd.

Yn y goleu hwn, nid ydym yn meddwl fod dim yn yr agoriad hwn i Lyfr yr Actau sydd yn rhoddi lle i ni wybod amcan neillduol yr awdwr wrth ei ysgrifenu. Rhyw fath o ddalen gydiol ydyw y geiriau, rhwng y ddau draethawd. Gwasanaetha i ddwyn ar gof i ba le yn hanes sefydliad Cristionogaeth yr oedd y Traethawd Cyntaf yn cyrhaedd, ac yna cymmerir yr hanes i fyny yn yr un man, ac eir yn mlaen â'r adroddiad. Rhaid i ni felly farnu oddiwrth yr hyn a ysgrifenodd Luc, beth oedd ei amcan wrth ysgrifenu.

Yr oedd yn gwbl naturiol i Luc weled y priodoldeb o ysgrifenu rhywbeth tebyg i Lyfr yr Actau. Yn ei Efengyl yr oedd wedi rhoddi hanes gosodiad i lawr y sylfaen, yr

oedd hyny yn awgrymu y priodoldeb i ddarlunio yr oruwchadeiladaeth. Yn ei efengyl yr oedd wedi cofnodi hanes gwneuthuriad y peiriant oedd i godi dyn, a rhoddi darluniad o hono, yr oedd yn naturiol ar ol hyny i roddi hanes y peiriant yn ei waith. Nid oedd dim mor effeithiol a hyny i osod gwerth ar y Traethawd Cyntaf, trwy ddangos fod y sylfaen yn safadwy, a'r peiriant yn gyflawn, heblaw fod yr Ail Draethawd yn ddyddorol ynddo ei hunan.

Ond beth oedd cynllun Luc wrth ysgrifenu ei hanes? Mae yn amlwg na ysgrifenodd yr oll a gymmerodd le yn y cyfnod y mae yn ei gymmeryd i mewn, na'r oll a wyddai efe am y cyfnod hwnw; felly rhaid fod rhyw amcan ganddo yn y dewisiad a wnaeth, neu o'r hyn lleiaf, fod rhyw bethau yn cyfrif paham y teithiodd y llwybr a wnaeth yn yr hanes.

Ymddengys fod Luc yn cofnodi pob agwedd newydd oedd Cristionogaeth yn gymmeryd. Rhydd ddarluniad o dywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost, a'r llwyddiant a'i dilynodd yn Jerusalem a'r cylchoedd; cofnoda rai o'r erlidigaethau a'r dyoddefiadau a ddyoddefodd y saint yn Judea; yna darlunia ymledaeniad yr efengyl yn mhlith yr Iuddewon o'r tu allan i Judea. Drachefn mae yn manylu ar fynediad yr efengyl at y Cenedloedd, ac â yn mlaen i ddangos ei llwyddiant yn eu plith, yn benaf trwy weinidogaeth yr Apostol Paul; ac yna wedi olrhain symmudiad yr efengyl o Jerusalem, prif ddinas y byd Iuddewig, hyd i Rufain, prif ddinas y byd Cenedlig, mae ei waith ar ben, a phob agwedd o'r efengyl ag sydd anghenrheidiol er dychwelyd y byd wedi ei rhoddi. Buasai yn hawdd i Luc ddweyd am bob un o'r pethau hyn gymmaint ag a ddywed am y cwbl; ond engreifftiau yn unig o bob agwedd newydd oedd y cwbl oedd anghenrheidiol.

Hefyd yr oedd y dosbarth o bobl oedd gan Luc mewn golwg yn gosod y cyfeiriad yma yn naturiol i'w hanes. Yr un dosbarth oedd ganddo mewn golwg yn ei Ail Draethawd a'r Cyntaf. Yr oedd yn ysgrifenu at Theophilus, a thrwyddo ef at Gristionogion o Iuddewon a Chenedloedd, yn enwedig yr olaf; yr oedd yn gwbl naturiol iddo felly sefyll yn lled helaeth ar fynediad yr efengyl at y Cenedloedd, a'i llwyddiant yn eu plith; tra yr oedd hanes dydd y Pentecost drachefn, a llwyddiant y gair yn Jerusalem a'i chyffiniau, yn dangos cyflawniad y pethau yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi eu haddaw, ac felly fod yr efengyl yn gymhwys i

wynebu ar y byd ar ol cael ei phrofi yn y man yr oedd wedi tarddu.

Yr oedd hanes personol Luc hefyd yn ei arwain yn naturiol i'r cwrs a gymmerodd. Mae yn debyg ei fod yn perthyn i'r Cenedloedd ei hun; yr oedd gyda Phaul mewn llawer o'i deithiau yn mhlith y Cenedloedd, ac yr oedd yn naturiol mewn canlyniad i'r hanes i fyned i'r cyfeiriad hwnw, tra yr oedd hanes y Pentecost a'r pethau cyssylltiedig âg ef yn angheurheidiol ar bob golwg fel rhagarweiniad i fynediad yr efengyl i'r holl fyd. Oni buasai amgylchiadau dydd y Pentecost, a'r pethau a wnaed yn Judea, ni buasai yr efengyl yn meddu y nerth sydd ganddi i wynebu ar y Cenedloedd.

1. Mor ardderchog yw gwaith Rhagluniaeth yn darparu Beibl cyflawn i'r byd. Mor ddiffygiol, mewn cymhariaeth, fuasai y gyfrol santaidd heb Lyfr yr Actau. Y mae o wasanaeth neillduol yn ei berthynas â'r Efengylau, ac hefyd yn ei berthynas â'r Epistolau. Mae yn attodiad cyflawn i'r Efengylau, ac yn arweiniad i mewn i'r Epistolau. Mae yn briodol iawn wedi ei osod rhwng yr Efengylau a'r Epistolau, ac y mae ei oleu yn taflu yn ol ar y naill, ac yn mlaen ar y lleill. Mae pob myfyriwr Beiblaidd wedi sylwi fod mantais mewn myfyrio yr Ysgrythyrau mewn trefn. Clywsom am rai yn dadleu dros adael i'r Beibl agor yn ddamweiniol, a darllen yn y lle yr agorai; ond trosglwyddo gwaith y farn a'r deall i'r papyr a'r lledr yw hyny, a gwerthu gwybodaeth a buddioldeb am ofergoeledd. Mae yn wir fod y Beibl yn hynod yn ei gyfaddasrwydd i roddi gwybodaeth ac addysg mewn ychydig o gwmpas, ac hyd y nod mewn darnau byrion a gymmerir o ganol pennod neu lyfr. Mae llawer adnod yn rhoddi synwyr cyflawn ynddi ei hunan, a llawer pennod yn dweyd yr oll a ddywedir am aml i hanes; eto mae yn wirionedd pwysig i gynnydd gwybodaeth Feiblaidd, fod yn rhaid myfyrio y Beibl mewn trefn, os mynwn ei weled yn ei ogoniant a'i brydferthwch.

2. Mor ragorol yr oedd Luc wedi ei gymhwyso i ysgrifenu Llyfr yr Actau, i ateb holl wledydd a holl oesau y ddaear! Oni buasai fod Luc wedi ei osod yn yr amgylchiadau yr oedd, buasai yn anmhossibl iddo ysgrifenu Llyfr yr Actau fel y gwnaeth; ond gan ei fod yn yr amgylchiadau hyny, yr oedd yn gwbl naturiol iddo ysgrifenu fel y gwnaeth, ac yr oedd hyny drachefn yn hollol fel yr oedd

amgylchiadau teyrnas Crist yn galw am iddo fod. Er nad oes yma gynllun ffurfiol yn y llyfr, ac fod yn anhawdd gwybod beth oedd yr amcan llywodraethol yn meddwl yr ysgrifenydd, eto mae yma bob peth sydd eisieu wedi myned i mewn ryw fodd; ac ar yr un pryd, nid oes yma ddim yn ormod. "O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni."

3. Mor ogoneddus yr ymddengys trefn y cadw yn ngoleuni y ddau draethawd. Yn y cyntaf, gwelwn y Bachgen a anwyd, a'r Mab a roddwyd; yn yr ail, gwelwn y llywodraeth ar ei ysgwydd ef, ac yntau wedi eistedd ar orseddfa Dafydd, ac ar ei freniniaeth ef. Yn y cyntaf, gwelwn y gronyn gwenith wedi syrthio i'r ddaear a marw; yn yr ail, gwelwn ef yn dwyn ffrwyth lawer. Yn y cyntaf, gwelwn Fab y dyn yn cael ei ddyrchafu oddiar y ddaear yn ei groeshoeliad; yn yr ail, gwelwn ef yn tynu pawb ato ei hun. Yn y cyntaf, gwelwn y ffordd newydd a bywiol yn cael ei chyssegru trwy y llen, sef ei gnawd ef; yn yr ail, gwelwn ddynion wrth y miloedd yn myned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu.

Bydded i wirioneddau tragywyddol y Traethawd Cyntaf ein dwyn i feddu sel a ffyddlondeb Cristionogion yr Ail Draethawd. Bydded i farw rhyfedd y Traethawd Cyntaf fod yn sylfaen bywyd tragywyddol i'n henaid, fel y caffom byth fwynhau cymdeithas ffyddloniaid yr Ail Draethawd, yn mhresennoldeb dedwydd gwrthddrych mawr y Traethawd Cyntaf a'r Ail.

---

# DARLITH II.

ACT. I. 3.

3. I'r rhai hefyd yr ymddangosodd[1] efe yn fyw wedi iddo ddyoddef, trwy lawer o arwyddion sicr;[2] gan fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod,[3] a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] I'r rhai hefyd y dangosodd ei hun yn fyw ar ol ei ddyoddefaint trwy lawer o brawfion, gan ymddangos iddynt dros ysbaid deugain niwrnod, &c.—C. D.

[2] Drwy lawer o brofion anffaeledig.—J. W. Nid yw y gair Groeg a gyfieithir yma yn "arwyddion sicr," yn dygwydd yn y Testament Newydd ond yn y fan hon. Defnyddir ef yn fynych gan Plato ac Aristotle, a golyga y prawfion cryfaf sydd ddichonadwy, prawf anwrthwynebol.—SPENCE in Schaff's Com.

[3] Y mae wedi ei haeru fod annghyssondeb rhwng yr Actau yma a hanes yr

adgyfodiad a rydd Luc yn ei Efengyl. Y mae wedi ei honi fod yr adgyfodiad a'r esgyniad, yn ol yr efengyl, wedi cymmeryd lle yr un diwrnod. Meddylia Meyer fod y gwahaniaeth hwn yn tybio cyfnod o amser rhwng cyfansoddiad yr efengyl a'r Actau, yn ystod yr hwn y dadblygwyd y traddodiad o ddeugain niwrnod. Ond nid yw yr annghyssondeb ond yn unig yn meddyliau yr ysgrifenwyr hyn. Nid yw Luc yn ei Efengyl yn rhoddi terfyniadau amser; ac y mae yn dra annhebyg y gallasai yr oll a gofnoda fel wedi dygwydd ar ol yr adgyfodiad, gael eu cwmpasu i derfynau un diwrnod.—Gloag.

### BYWYD Y DEUGAIN NIWRNOD.

Dywed Luc yn yr adnodau blaenorol iddo ysgrifenu ei Draethawd Cyntaf "am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu, hyd y dydd y derbyniwyd ef i fyny, wedi iddo trwy yr Ysbryd Glân roddi gorchymynion i'r apostolion a etholasai." Ond yn lle dechreu ei Ail Draethawd ar ol "y dydd y derbyniwyd ef i fyny," y mae yn rhoddi crynhodeb byr o hanes ein Harglwydd rhwng ei adgyfodiad a'i eisteddiad ar ddeheulaw Duw. Yr oedd dweyd rhywbeth am y cyfnod hwn yn anghenrheidiol fel rhagarweiniad i'r Ail Draethawd, yn gystal ag fel diweddiad i'r Traethawd Cyntaf. Mae y testyn yn dalfyriad o hanes y Gwaredwr am y chwech wythnos y bu ar y ddaear ar ol boreu y trydydd dydd. Mae ei holl hanes ef yn talu am ei fyfyrio; mae yn llawn o athrawiaethau ac yn llawn o wersi; a diau os talwn sylw priodol i'w hanes yn y cyfnod sydd yn y testyn y byddwn yn ddoethach ac yn well.

I. Ymddangosiadau yr Arglwydd Iesu.

1. Nifer ei ymddangosiadau.

1. Ymddangosodd yn gyntaf i Mair Magdalen. (Marc xvi. 9. Ioan xx. 11—18.)

2. Ymddangosodd i Mair mam Iago, Salome, Joanna, a gwragedd ereill. (Mat. xxviii. 9, 10.) Gwnaeth ein Harglwydd ei ddau ymddangosiad cyntaf i wragedd. Ni chaiff neb ddangos ffyddlondeb at y Ceidwad heb ad-daliad. Y rhai a fuont yn wylo olaf y diwrnod claddu, a gawsant lawenhau gyntaf y diwrnod adgyfodi.

3. Ymddangosodd i Pedr. (Luc xxiv. 34. 1 Cor. xv. 5.) Pedr oedd y dyn cyntaf a welodd ein Harglwydd wedi ei adgyfodiad. Diau fod y cyfarfyddiad yn un neillduol iawn. Yn ol dim a wyddom, ni ddywedodd yr Iesu na Phedr air byth o'r hanes.

4. Ymddangosodd i ddau o honynt, a hwy yn myned tuag Emmaus. (Marc xvi. 12, 13. Luc xxiv. 13—35.)

5. Ymddangosodd i'r apostolion, a'r rhai oedd gyda hwynt, yn absennoldeb Thomas. (Marc xvi. 14—18. Luc xxiv. 36—49. Ioan xx. 19—23. 1 Cor. xv. 5.)

Cymmerodd y pump ymddangosiad uchod le y diwrnod yr adgyfododd.

6. Ymddangosodd i'r apostolion yn mhen yr wythnos drachefn, a Thomas gyda hwynt. (Ioan xx. 24—29.) Tebyg fod y dysgyblion yn cyfarfod bob dydd, ond ni ddaeth yr Iesu hyd ail ddydd yr Arglwydd.

7. Ymddangosodd i saith o'i ddysgyblion ar làn Môr Tiberias. (Ioan xxi. 1—24.)

8. Ymddangosodd ar fynydd yn Galilea i'r apostolion a phum' can' brodyr ar yr un waith. (Mat. xxviii. 16—20. 1 Cor. xv. 6.)

9. Ymddangosodd i Iago. (1 Cor. xv. 7.) Nid oes yr un o'r Efengylau, na Llyfr yr Actau, yn crybwyll am yr ymddangosiad hwn.

10. Ymddangosodd i'r holl apostolion ar adeg ei esgyniad. (Act. i. 3—9.)

Ymddangosodd hefyd i'r Apostol Paul yn agos i Damascus, ond nid yw yr amgylchiad hwn yn nghylch y deugain niwrnod.

Yr oedd yr ymddangosiadau hyn yn bwysig, gan mai tystiolaethu i adgyfodiad yr Iesu oedd baich eu cenadwri i'r byd i fod. Gwnaeth yr ymddangosiadau hyn y fath argraff ar yr apostolion, fel na phetrusodd yr un o honynt ddwyn tystiolaeth i ffaith yr adgyfodiad, gan nad beth fyddai y canlyniadau.

2. Y bobl i ba rai yr ymddangosodd. "I'r rhai hefyd yr ymddangosodd," sef i'r apostolion. Yn ei bregeth yn nhŷ Cornelius dywed Pedr, "Hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg; nid i'r bobl oll, eithr i'r tystion etholedig o'r blaen gan Dduw, sef i ni, y rhai a fwytasom ac a yfasom gydag ef wedi ei adgyfodi o feirw." (Act. x. 40, 41.) Yn gysson â'r geiriau yna y mae yr holl hanes sydd genym yn yr Efengylau. Ymddangosodd i'r gwragedd, i'r apostolion a'r rhai oedd gyda hwynt, ac i'r pum' can' brodyr. Yr oedd y cyfan yn ddysgyblion. Dichon fod gan yr Arglwydd Iesu fwy o amcanion wrth ymddangos yn unig i'w ddysgyblion nag ydym yn feddwl.

Mae sylw Paley yn werth ei goffâu. Dywed ef na buasai ysgrifenwyr y Testament Newydd byth yn cofnodi y ffaith mai i'w ddysgyblion yn unig yr ymddangosodd Crist ar ol adgyfodi, pe mai eu hamcan fuasai ffurfio cyfundrefn i

dwyllo y byd. "*The ring of honesty,*" ebe Dr. Parker, "*is in that third verse.*"

Pe buasai yr Arglwydd Iesu yn ymddangos i'r bobl oll, mae yn ddiau mai cynhwrf fuasai hyny yn achlysuro, a pheri i rai ddweyd mai efe oedd, ac ereill i wadu hyny. Yr oedd gweinidogaeth ogoneddus dydd y Pentecost yn llawer mwy bendithiol i'r byd y pryd hwnw, nag y gallasai ymddangosiad personol yr Arglwydd Iesu fod yn yr amgylchiadau yr oedd pethau ynddynt. Hefyd yr oedd tystiolaeth eglur, gysson, y tystion etholedig yn fwy o werth i'r byd ar ol hyny, nag a fuasai canlyniad dadleuon a thaeru y bobl oll; ac yr oedd marw Iesu o ormod gwerth, a'i adgyfodiad yn rhy bwysig, i'w hymddiried i ddynion oedd wedi ymwerthu i'w ddifetha ef a'i achos. Rhaid oedd gadael iddynt farw yn eu pechodau, yn hytrach na phorthi eu mympwy ar draul colledu oesau y ddaear.

Yr oedd Iesu wedi dyoddef digon cyn marw, ac wrth farw, heb osod ei hun yn agored i gael ei wrthod a'i anmharchu drachefn gan ddynion â digon o ddrwg ynddynt i'r peth a fynent. Gyda'r gair "Gorphenwyd," darfyddodd cyfleusdra y ddaear am byth i anmharchu Iesu Grist yn bersonol. Bu Iesu yn ufydd hyd angeu, ïe, angeu y groes; ni ofynwyd byth drachefn am un ufydd-dod yn cynnwys dyoddefiadau personol oddiar ei law. Yn foesol, yr oedd y bedd yn uwch na'r groes.

A phe buasai rhywrai o herwydd gweled Iesu adgyfodedig yn credu ynddo, ni buasai dim rhinwedd mewn ffydd felly. Ymddengys fod ffydd yr efengyl yn rhywbeth sydd yn gofyn graddau o degwch meddwl cyn y gellir ei harfer. Mae digon o seiliau i gredu, ond y mae ansawdd y prawfion y fath ag y rhaid i ddyn fod yn foddlawn credu. Nid oes prawf uniongyrchol i'r synwyrau corphorol, heb fod prawf hefyd ar ansawdd meddwl dyn, fel os bydd yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, fod ganddo gyfleusdra i wneyd hyny. Gall Cristion pob oes ddweyd, "Wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg." "Gwyn eu byd y rhai ni welsant, ac a gredasant."

Yr oedd Iesu Grist hefyd yn dymuno anrhydeddu ei ddysgyblion trwy ymddangos iddynt hwy, ac nid i'r byd. "Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf;" nid oedd ymddygiad y byd ato yn teilyngu cael ei weled mwy.

Gallwn weled oddiwrth yr amgylchiad hwn, fod gan

Iesu Grist feddwl uchel o fod dyn yn ddysgybl proffesedig iddo. Mae yn ddigon tebyg fod yn Jerusalem a manau ereill lawer yn teimlo rhyw barch tuag ato, ond ni chafodd neb y fraint o'i weled, ond y rhai oedd yn ddysgyblion iddo. Os bydd gan Iesu rywbeth mwy na'i gilydd, y dysgyblion a'i caiff; a gallwn benderfynu mai y ffordd oren i foddhau y Gwaredwr yw bod yn ddysgyblion proffesedig iddo, a'i arddel yn ddigywilydd ger bron dynion. Dyna y ffordd i fwynhau ei gymdeithas a'i nawdd. Os yw y ganwyll wedi ei goleuo, doder hi mewn canwyllbren.

3. Ansawdd ei ymddangosiadau. "I'r rhai hefyd yr ymddangosodd efe yn fyw wedi iddo ddyoddef, trwy lawer o arwyddion sicr."

Ymddangosiadau wedi iddo ddyoddef oeddynt. Mae y gair "dyoddef," pan yn cael ei arfer am yr Arglwydd Iesu yn y Testament Newydd, yn gyfystyr yn aml a phe buasai y gair "marw" wedi ei ddefnyddio. "Eithr y pethau a ragfynegodd Duw trwy enau ei holl brophwydi, y dyoddefai Crist, a gyflawnodd efe fel hyn." (Act. iii. 18.) "Gan egluro a dodi ger eu bronau, mai rhaid oedd i Grist ddyoddef, a chyfodi oddiwrth y meirw." (Act. xvii. 3.) "O herwydd paham Iesu hefyd, fel y santeiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddyoddefodd y tu allan i'r porth." (Heb. xiii. 12.) Mae yn debyg fod y dull yma o lefaru wedi tarddu oddiar y dull poenus y bu yr Arglwydd Iesu farw. Arosai ei ddyoddefaint mawr yn fyw o flaen meddwl y dysgyblion, fel yr oedd y gair "dyoddef" yn ei gyssylltiad âg ef wedi dyfod i olygu yn arbenig y dyoddef wrth farw. Yr oedd Iesu wedi dyoddef llawer yn ystod ei fywyd gofidus a chynnefin â dolur, ond yr oedd pob dyoddef wedi myned o'r golwg yn ymyl y dyoddef ar y groes.

Ymddangosodd yn *fyw* ar ol iddo ddyoddef. Nid Iesu marw ydoedd, wedi ei ladrata gan ei ddysgyblion o hyd nos, eithr ymddangosodd yn fyw. Yr oedd yn fyw hefyd mewn ystyr uwchraddol. Yr oedd yn Arglwydd byw ar angeu. Mae yn amlwg oddiwrth Luc xxiv. 39, a Ioan xx. 27, ei fod yn meddu gwir gorph—y corph oedd wedi ei gladdu gan Joseph, ond yr oedd yn awr yn gorph wedi ei "newid." Credwn ei fod wedi ei ysbrydoli er yr adeg yr adgyfododd, er hwyrach nad i'r un graddau ag y gwnaed hyny ar ei esgyniad i ddeheulaw Duw. Yr oedd felly uwchlaw i farwolaeth arglwyddiaethu arno mwyach. Po

buasai Iesu yn ymddangos i'r Iuddewon, ni fuasai dim perygl iddynt ei ladd drachefn. Yr oedd wedi ei ddyrchafu i anfarwoldeb, fel y bydd ei bobl yn yr adgyfodiad y dydd diweddaf. Ymddengys mai fel hyn y mae cyfrif am waith ein Harglwydd yn ymddangos ar wedd arall i'r ddau ddysgybl, yn diflanu o'u golwg ar doriad y bara, ac yn dyfod i mewn a'r drysau yn gauad, &c. Nid oes genym hanes ei fod yn byw yn un man am y chwech wythnos hyn; ymddangosai yn sydyn, a diflanai mor sydyn a hyny; ac yr oedd rhywbeth bron yn mhob ymddangosiad yn dangos ei fod yn "gorph ysbrydol." Yr oedd pawb o flaen Iesu wedi cyfodi yr ochr farwol i'r bedd, ond cyfododd ef yr ochr anfarwol. Wedi i Lazarus gyfodi, yr oedd angeu rhyngddo âg anfarwoldeb. Pan ymddangosai y Gwaredwr i'r dysgyblion yn y tymhor hwn, yr oedd deiliaid dau fyd wyneb yn wyneb—ymddyddanent â'u gilydd, ond yr oedd yr Iorddonen yn rhedeg rhyngddynt.

Ymddangosodd yn fyw trwy lawer o *arwyddion sicr*. Yr oedd yn rhoddi pob prawf mai efe ei hun ydoedd. Yr oeddynt yn ei adnabod â'u llygaid, yn ei deimlo â'u dwylaw, ac yn gwrandaw ar ei leferydd. Er profi iddynt mai nid ysbryd ydoedd, yr oedd yn bwyta gyda hwynt, ac yn dangos iddynt ol yr hoelion. Buasai yn anmhossibl iddynt gael mwy o brawfion nag a gawsent mai efe ei hun ydoedd. Os nad efe ydoedd, pwy arall a allasai fod? Yr oedd o'r pwys mwyaf i'r tystion etholedig gael arwyddion sicr, oblegyd yr oedd athrawiaethau pwysicaf Cristionogaeth yn dibynu ar adgyfodiad Iesu Grist, megys effeithioldeb ei aberth, rhinwedd ei eiriolaeth, adgyfodiad y meirw, &c.

4. Yr ysbaid dros ba un yr oedd ei ymddangosiadau yn cyrhaedd. "Gan fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod." Yr oedd hyn yn agos i chwech wythnos o amser. Yn yr amser yma nid oes genym hanes ei fod wedi ymddangos ond deg o weithiau, a phump o'r deg hyny y diwrnod yr adgyfododd. Yr oedd ei ymweliadau fel ymweliadau angylion yn ychydig ac yn anaml, mewn cymhariaeth. Mae yn dra thebyg ei fod wedi ymddangos ragor o weithiau nag sydd genym ni o hanes. Crybwylla Paul am un amgylchiad nad yw yn yr efengylau. Ond tueddir ni i feddwl mai nid rhyw lawer o'i ymddangosiadau sydd ar ol. Mae ei ddywediad wrth Mair Magdalen yn fath o allwedd i'w hanes yn y cyfnod hwn. "Na chyffwrdd â mi; canys

ni ddyrchefais i eto at fy Nhad." Fel pe dywedasai, "Mae y cofleidio o hyn allan i fod yn ysbrydol; wedi i mi fyned at fy Nhad, cei â'th ysbryd gofleidio faint a fynot." Y mae fel yn dysgu ei ddysgyblion ar gyfer agweddiad mwy ysbrydol ar ei deyrnas; mae yn eu cymmodi â'r ddysgeidiaeth, "Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith." Gwell iddynt gael presennoldeb ei Ysbryd pryd y mynont, na'i bresennoldeb corphorol fel yr oedd yn awr, ryw unwaith neu lai yn yr wythnos. Arosodd am ddeugain niwrnod i ddangos nad oedd wedi digio wrth y ddaear, a dim ond deugain niwrnod, er mwyn i'r dysgyblion gael hamdden i gymhwyso eu hunain mewn gweddi erbyn gwaith mawr y Pentecost.

II. Dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu yn ystod y tymhor hwn.

"A dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Ddnw." Nid llawer o ddywediadau Iesu Grist perthynol i'r tymhor dan sylw sydd genym. Ychydig a ddywedodd wrth Mair Magdalen, ac wrth y gwragedd ereill. Ni wyddom beth a ddywedodd wrth Pedr y tro cyntaf y gwelodd ef. Cafodd y ddau ddysgybl bregeth iawn ganddo ar y ffordd wrth fyned i Emmaus, oblegyd efe a ddechreuodd ar Moses a'r holl brophwydi, ac a esboniodd iddynt y pethau am dano ei hun, nes oedd calon y ddau frawd yn llosgi ynddynt. Odfa bwysig oedd yr odfa ar y ffordd—pregethwr mawr, testyn mawr, a ffrwyth mawr; ychydig oedd y gwrandawyr, ond yr oeddynt yn rhai iawn. Cafodd y cyfeillion gyfarfod da iawn hefyd yn absennoldeb Thomas yn hwyr y Sabbath Cristionogol cyntaf. Yr Iesu a'i "dangnefedd" a goronodd y cyfarfod: mae ychydig eiriau gan y Gwaredwr yn ddigon i anfarwoli odfa. Cafwyd adeg dda hefyd y Sabbath drachefn a Thomas gyda hwynt. Ni chredai Thomas nes cael yr odfa hon, heb roddi ei fys yn ol yr hoelion, &c., ond erbyn iddo gael yr un peth ag a gawsai y dysgyblion ereill, "Fy Arglwydd a'm Duw" meddai. Nis gall annghrediniaeth fyw yn awyr odfa a'r Iesu ynddi. Dywedwyd llawer o bethau dyddorol a gwerthfawr drachefn wrth y saith ar làn Môr Galilea; ac oddiar ryw fynydd yn y wlad hòno y rhoddwyd i'r apostolion, ac hwyrach i'r pum' can' brodyr, y commisiwn mawr i bregethu yr efengyl i bob creadur.

Wedi y cwbl, mae yn dra thebyg fod Iesu Grist wedi

dweyd llawer mwy o'r "pethau a berthynent i deyrnas Dduw" nag sydd genym ni yn yr hanes yn yr Efengylau, ac fod sylwedd y pethau hyny yn nysgeidiaeth yr apostolion yn yr Actau a'r Epistolau. Dichon fod yr apostolion wedi eu dysgu pa fodd i sefydlu diaconiaid a henuriaid yn mhob eglwys, pan fyddai amgylchiadau yn galw; beth bynag y maent yn myned yn mlaen gyda'r goruchwylion hyny fel pe na buasent syniadau cwbl newydd iddynt.

1. Nid oedd angeu wedi oeri dim ar gariad Iesu at ei bobl. "Ymddangosodd iddynt wedi iddo ddyoddef." "Tangnefedd" oedd ei air cyntaf wrth y dysgyblion, newydd iddo fod ei hunan yn yr ystorm fawr yn ei bwrcasu.

2. Nid oedd dyoddefiadau y Ceidwad wedi effeithio dim i wanhau ei ddyddordeb yn ei achos. Siaradai am y "pethau a berthynent i deyrnas Dduw" fel cynt. Mae dynion yn aml yn hysbyddu eu hunain mewn bylchau cyfyng, na byddant yn werth dim ar ol hyny; ond mae y Gwaredwr mor gryf yn feddyliol a moesol ar ol y groes ag ydoedd cyn hyny. "Ni phalla ac ni ddigalona efe."

3. Pethau ymarferol crefydd yw y pethau pwysig. Gallasai Iesu ddweyd llawer am farw ac am y byd ysbrydol, ond y "pethau am deyrnas Dduw" oedd ganddo. Gofalwn ni am y deyrnas wrth fyw, fe ofala y deyrnas am danom ninnau wrth farw.

4. Mor ardderchog yw dysgu ymddyddan am bethau cyn marw, gwerth ymddyddan am danynt ar ol marw. Gymmaint o bethau sydd yn myned â'n bryd ar y ddaear, na byddant yn werth ein sylw yn y nefoedd. Gan fod yn ein cyrhaedd bethau a allant fyw yn y ddau fyd—ffrwythau sydd yn tyfu y ddwy ochr i'r afon, bydded i ni roddi gwerth arnynt, ac ymhyfrydu ynddynt.

# DARLITH III.

ACT. I. 4—8.

4. Ac wedi ymgynnull gyda hwynt,[1] efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem, eithr dysgwyl am addewid y Tad, yr hwn, *eb efe*, a glywsoch genyf fi.

5. Oblegyd Ioan yn ddiau a fedyddiodd â dwfr; ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân,[2] cyn nemawr o ddyddiau.

6. Gan hyny wedi eu dyfod hwy yn nghyd, hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, ai y pryd hwn y rhoddi drachefn y freniniaeth i Israel?[3]

7. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau,[4] y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun.[5]

8. Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân[6] wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear.[7]

## NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] A chan ymgynnull gyda hwynt.—C. D. Neu, Gan fwyta gyda hwynt.—Y. D. Ac wedi eu cynnull hwynt yn nghyd.—J. W. Cymmerodd y cyfarfod hwn le ar ddydd yr esgyniad, a'r lle cyfarfod oedd naill ai mynydd yr Olewydd neu Jerusalem, o'r hwn le y darllenwn "i'r Iesu eu dwyn hwy allan hyd yn Bethania." (Luc xxiv. 50.)—GLOAG.

[2] Neu, Yn yr Ysbryd Glân.—Y. D. Ioan yn wir a drochai mewn dwfr, ond chwi a drochir yn yr Ysbryd Glân.—J. W., a A. B. U. Yn awr dywedwyd wrthynt fod eu hysbrydoedd i gael eu bedyddio, hyny yw, eu suddo i nerth yr Ysbryd Dwyfol, mor gyflawn ag yr oedd eu cyrph wedi cael eu suddo yn nyfroedd yr Iorddonen.—PLUMPTRE in Ellicott's Com.

[3] Arglwydd, a wyt ti yn awr yn adferu y freniniaeth i Israel.—C. D. Mae y cyfnewidiad o'r ysbryd a gynnyrchodd y gofyniad hwn i'r ysbryd yn yr hwn y pregethodd Pedr edifeirwch a maddeuant i bawb a alwai yr Arglwydd, (Act. ii. 38, 39.) yn un o'r prawfion penaf o wyrth y Pentecost.—LUMBY.

[4] Nid yw i chwi i wybod amseroedd na phrydiau.—C. D. Er y rhybudd hwn, y mae llawer o weision ardderchocaf yr eglwys yn y gwahanol oesau, o oes yr apostolion hyd ein dyddiau ni, wedi ceisio penderfynu yr amseroedd hyn.—SPENCE.

[5] A osododd y Tad o fewn ei awdurdod ei hun.—C. D. Neu, A bennododd y Tad trwy ei awdurdod ei hun.—Y. D. A gadwodd y Tad iddo ei hun.—J. W.

[6] Eithr chwi a dderbyniwch nerth pan ddelo yr Ysbryd Glân arnoch, a chwi a fyddwch fy nhystion i yn Jerusalem, &c.—C. D., a A. B. U. Ond chwi a dderbyniwch nerth, drwy i'r Ysbryd Glân ddyfod arnoch.—J. W.

[7] Cymharer yr iaith yma â Mat. xxviii. 19. Marc xvi. 15. Mae yn anmhossibl fod y dysgyblion heb ddeall oddi wrthi fod maes eu llafur i fod gymmaint a'r byd.—HACKETT. Ar ol hyn, er hyny, y deallasant fod y Cenedloedd, fel y cyfryw, i gael cyfranogi o freintiau yr efengyl: gwel Act. x. 34. xi. 17.

## BEDYDDIO A'R YSBRYD GLAN.

Wedi dweyd yn yr adnodau blaenorol i'r Arglwydd Iesu "ymddangos yn fyw wedi iddo ddyoddef," rhoddi "gorchymynion i'r apostolion a etholasai," a "dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw," mae Luc yn myned yn mlaen yn yr adnodau ger ein bron i fanylu ychydig ar y modd yr oedd rhai o'r pethau hyn wedi dygwydd.

Ymofyniad sydd yn cyfodi yn naturiol uwch ben yr

adnodau hyn yw: Pa un ai at un cynnulliad o eiddo yr Arglwydd a'i ddysgyblion y cyfeirir, ynte at ddau gynnulliad gwahanol. Tybia rhai fod adn. 4, 5. yn golygu cynnulliad ar un adeg, ac adn. 6—8. yn golygu cynnulliad ar adeg wahanol. Tueddir ni i gredu mai yr un cynnulliad sydd yn yr holl adnodau, a bod "gan hyny" adn. 6. yn cyfeirio yn ol at adn. 4.

Ar y dybiaeth mai un cynnulliad sydd yma, cyfyd yr ymofyniad, Ar ba adeg, ac yn mha le yr oedd y cynnulliad hwnw? Buasid yn casglu oddiwrth adn. 9. mewn cyssylltiad âg adn. 12. mai ar fynydd yr Olewydd yr oedd, ar adeg esgyniad y Gwaredwr i'r nefoedd. Ond y mae gwrthwynebiad yn cyfodi i'r golygiad hwn oddiwrth eiriau Luc yn y bennod olaf o'i Efengyl. (adn. 49, 50.) Os at yr un adeg y cyfeirir yn Luc xxiv. 49. ag yn y testyn, mae yn ymddangos oddiwrth Luc xxiv. 50. mai ar ol yr ymddyddan a gofnodir yma yr aeth yr Iesu i fynydd yr Olewydd. Tueddir ni i gredu mai yn Jerusalem y cymmerodd ymddyddan y testyn le, cyn i'r Iesu gymmeryd y dysgyblion "allan hyd yn Bethania." Nid oes dim yn y syniad hwn yn annghysson â'r hyn a ddywedir yn adn. 9. ac y mae hefyd yn cyd-daro â'r hanes a rydd Luc yn ei Efengyl.

I. Gorchymyn yr Iesu i'r dysgyblion. (adn. 4, 5.)

1. Yr oeddynt i aros yn ninas Jerusalem. "Efe a orchymynodd iddynt, nad ymadawent o Jerusalem." Nid oedd cartref yr un o'r apostolion yn Jerusalem, ac heb gyfarwyddyd neillduol, nid annaturiol fuasai iddynt adael y lle. Nid oedd Iesu wedi cael dim ond anmharch yn Jerusalem, a'i groeshoelio yno yn y diwedd. Wedi iddo adgyfodi, lluniwyd celwydd i ddweyd mai y dysgyblion oedd wedi ei ladrata, tra yr oedd y milwyr yn cysgu. Ond rhybuddia Iesu hwy i beidio ymadael oddi yno. Mor bwysig i Gristionogaeth oedd y rhybudd hwn! Beth pe buasai y dysgyblion wedi gadael y lle, ac i ddydd y Pentecost fyned heibio, gan adael y maes yn rhydd i'r Iuddewon i roddi yr esboniad a fynasent ar amgylchiadau y Pasc.

2. Yr oeddynt i ddysgwyl am yr addewid o'r Ysbryd Glân. "Eithr dysgwyl am addewid y Tad, yr hwn, *eb efe*, a glywsoch genyf fi."

(1,) Gelwir hi yn addewid y Tad. Y rheswm am hyny ydyw, fod y Tad wedi rhoddi yr addewid trwy y prophwyd Joel. (Joel ii. 28.) Gwel hefyd Esai. xliv. 3.

(2,) Dywed Iesu Grist iddo lefaru am yr addewid hon o'r blaen. Gwnaeth hyny yn fwyaf neilldnol yn y geiriau sydd wedi eu cofnodi gan Ioan. (Ioan xiv. 16, 17. 26. xv. 26. xvi. 7.) Mae rhai yn gwadu dilysrwydd Efengyl Ioan, ond y mae Iesu Grist ei hun yn cyfeirio yma at eiriau o'i eiddo ei hun, y rhai a gofnodir i ni yn unig gan Ioan.

(3,) Darlunia ein Harglwydd yr addewid o'r Ysbryd Glân trwy y ffigiwr o fedyddio â'r, neu yn yr Ysbryd Glân. "Oblegyd Ioan yn ddiau a fedyddiodd â dwfr, ond chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân, cyn nemawr o ddyddiau." Mae yn ammheus a ydyw "bedydd yr Ysbryd Glân" yn eiriad priodol; nid ydyw yn ymadrodd ysgrythyrol, ac felly dylid ei arfer yn ochelgar.

Yr unig un sydd wedi son am fedyddio â'r Ysbryd Glân cyn hyn ydyw Ioan Fedyddiwr. (Mat. iii. 11. Luc iii. 16. Ioan i. 33.) Dengys yr adnod olaf a nodwyd nad Ioan a roddodd fodolaeth i'r ymadrodd, ond Duw ei hun. Dengys y testyn mai rhywbeth yn y dyfodol oedd bedyddio â'r Ysbryd Glân. Yr oedd dylanwadau yr Ysbryd Glân yn y byd erioed; yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi cyfranu yr Ysbryd Glân yn rhanol cyn hyn, (Ioan xx. 22.) ond nid oedd dim a gymmerasai le hyd yma yn cael ei ystyried yn fedyddio â'r Ysbryd Glân. Mae yn amlwg fod amgylchiadau dydd y Pentecost yn cael eu golygu yn gyflawniad o'r addewid, ac yn cynnwys bedyddio â'r Ysbryd Glân. Yr unig le y sonir am fedyddio â'r Ysbryd Glân ar ol hyn ydyw Act. xi. 15, 16. Cyfeirir yno at roddiad yr Ysbryd yn nhŷ Cornelius: yr oedd yr amgylchiad hwnw wedi peri i Pedr gofio geiriau y Gwaredwr yn ein testyn. Yr unig ddau amgylchiad y dywedir fod yr Ysbryd wedi ei dywallt ydynt, dydd y Pentecost a thŷ Cornelius; cael ei roddi trwy gyfryngau y mae, o ran ei ddylanwadau gwyrthiol, yn mhob amgylchiad arall. Mae y dylanwadau yn helaethach ar ddydd y Pentecost ac yn nhŷ Cornelius, a dyna paham y gelwir hwy yn fedyddio yn yr Ysbryd Glân. Nid oes dim yn milwrio yn erbyn y syniad o drochi yn y dywediad fod yr Ysbryd wedi ei dywallt. Dylid cofio mai ymadrodd ffigyrol yw "tywallt yr Ysbryd Glân." Diau mai y syniad o gyflawnder sydd yn y gair "tywallt" yn y cyssylltiad hwn, ond ni ddywedir yn un man mai y tywallt oedd y bedyddio. Tywalltwyd yr Ysbryd fel y llanwyd y tŷ, ac y trochwyd y bobl oedd ynddo. (Act. ii. 2.) Tywallt y

dwfr a wneir i'r fedyddfan, ac yna claddu y bobl ynddo. Mae yn wir y sonir yn y brophwydoliaeth am dywallt yr Ysbryd ar bersonau; ac felly y gwnaed, oblegyd darlunir ef fel yn dyfod o'r nefoedd i'r ystafell lle yr oedd y bobl—tywalltwyd yr Ysbryd ar y bobl oedd yn yr ystafell, nes eu bedyddio, neu eu trochi ynddo. Yr un modd yn hollol y gellid tywallt dwfr ar bersonau nes eu claddu yn y dwfr.*

II. Gofyniad y dysgyblion i'r Arglwydd Iesu. "Arglwydd, ai y pryd hwn y rhoddi drachefn y freniniaeth i Israel?"

Dyma y peth cyntaf o weithredoedd yr apostolion y mae Luc yn ei gofnodi yn ei Ail Draethawd. Bu y dysgwyliad am deyrnas ddaearol farw gyda marwolaeth yr Iesu, (Luc xxiv. 21.) ond dengys yr adnod hon fod yr hen syniad, i ryw raddau o leiaf, wedi adgyfodi gydag adgyfodiad y Ceidwad. Cymmerir yn ganiatâol fod rhoddi y freniniaeth drachefn i fod, ond carent wybod a oedd hyny i fod yn awr. Dichon fod y dywediad, "Chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân cyn nemawr o ddyddiau," wedi awgrymu y gallasai fod y deyrnas i gael ei rhoddi i Israel ar yr un pryd.

III. Atebiad Iesu Grist. "Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun."

Nid yw ein Harglwydd yn gwneyd sylw uniongyrchol o'u camsyniad am natur ei deyrnas. Gadawa i amser ac amgylchiadau esbonio hyny iddynt. Y peth a wna ydyw dangos anmhriodoldeb y duedd oedd ynddynt i wybod yr

---

* "Crist ei hun oedd i weinyddu bedydd yr Ysbryd Glân. 'Efe a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glân.' (Mat. iii. 6. Ioan i. 33.) Mae bedydd yr Ysbryd Glân wedi darfod gyda'r oes apostolaidd; nid oes genym sail i gredu fod neb wedi cael eu bedyddio yn yr Ysbryd Glân, ond y rhai y dywedir yn bendant yn y Testament Newydd eu bod, y rhai ar ol hyny a lefarent â thafodau. (Act. ii. 2–4. x. 44–46. xi. 15–17.) Yr oedd bedydd yr Ysbryd Glân yn hollol wahanol i ddoniau cadwedigol a santeiddiol yr Ysbryd, y rhai a fwynheir gan bob credadyn. Mae bedydd yr Ysbryd Glân i'w ystyried fel un o'r gwyrthiau a'r rhyfeddodau ar *ddechreuad* Cristionogaeth, er ei *sefydlu* yn y byd, y rhai a ddarfyddasant ar ol ei sefydliad; tra mae ei ddoniau cadwedigol i gydoesi â'r oruchwyliaeth Gristionogol ei hun."—Dr. Jones yn "Y Weithred o Fedyddio," tudal. 11, 12.

"Arferir 'tywallt' a 'syrthio' i ddynodi ei ddyfodiad o'r uchelder; 'gwisgo' i ddynodi ei fod yn amddiffyniad cylchynol i'r apostolion; 'llenwi' i ddynodi ei gyflawnder mewnol; a 'bedyddio' i ddynodi eu bod megys wedi eu llyncu i fyny yn yr elfen Ddwyfol."—Cynddelw, Esboniad ar Act. i. 5.

Mae sylwadau rhagorol ar "Fedyddio yn yr Ysbryd Glân" yn y *Bedyddiwr* am y flwyddyn 1863, tudal. 20–3., gan y Parch. John Evans, Abercanaid. Gweler hefyd Geiriadur *Matheles* o dan "Bedydd yr Ysbryd Glân."

amser yr oedd amgylchiadau y dyfodol i gymmeryd lle. Yr oedd Iesu Grist newydd awgrymu yr adeg y tywelltid yr Ysbryd Glân, ac yr oedd hyny wedi deffroi eu cywreinrwydd i wybod yr adeg y cymmerai pethau ereill le. Cynnil hefyd oedd ein Harglwydd am amser tywalltiad yr Ysbryd—"cyn nemawr o ddyddiau." Ni ddywedodd pa ddiwrnod; gallasai yn hawdd ddweyd mai ar ddydd y Pentecost, yn mhen y deng niwrnod; ond mwy priodol oedd eu gadael i wylio a dysgwyl bob dydd nes y deuai.

Mae y gair "amseroedd" yn golygu cyfnodau hwy, a'r gair "prydiau" yn golygu cyfnodau byrach. Cynnwysa y ddau air yr adegau ar ba rai y mae holl amgylchiadau y dyfodol, bychain a mawrion, i gymmeryd lle.

Ni pherthynai hyd y nod i'r apostolion wybod yr "amseroedd na'r prydiau." Mae hyn yn gysson â dysgeidiaeth ein Harglwydd mewn manau ereill. (Mat. xxiv. 36. Marc xiii. 32.)

Os nad oedd yr apostolion i wybod yr amseroedd a'r prydiau, yr oedd yn wahanol gyda golwg ar Dduw. "Y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun." Darllena y Cyfieithiad Diwygiedig, "A osododd y Tad o fewn ei awdurdod ei hun;" ac ar ymyl y ddalen, "A bennododd y Tad trwy ei awdurdod ei hun." Yn ol y cyntaf dysgir fod amseriad y dygwyddiadau o dan reolaeth neu awdurdod y Tad. Yn ol yr olaf dysgir fod amseriad y dygwyddiadau wedi ei bennodi trwy awdurdod y Tad.

IV. Y gwirionedd a draetha ein Harglwydd yn nglun â'i atebiad i'r dysgyblion. "Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear."

1. Yr oeddynt i dderbyn nerth. "Eithr chwi a dderbyniwch nerth, pan ddelo yr Ysbryd Glân arnoch." Nid gwybodaeth o'r dyfodol oeddynt i dderbyn, ond nerth i wneyd eu gwaith.

2. Y defnydd oeddynt i wneyd o'r nerth. "A chwi a fyddwch dystion i mi." Tystion i'w eiriau a'i weithredoedd, i'w gymmeriad a'i angeu, i'w adgyfodiad a'i esgyniad. Yr oedd eisieu nerth i ddal y dystiolaeth hon i fyny; nerth corph a nerth meddwl, nerth geiriau a nerth gwyrthiau, nerth i fyw a nerth i farw. Yr oedd eisieu nerth i wynebu y byd yn ei anwybodaeth ac yn ei ddysgeidiaeth, yn ei

dlodi ac yn ei wychder, yn ei greulondeb ac yn ei hudoliaethau. Nid oedd dim ond nerth yr Ysbryd Glân a wnaethai y tro.

Ni bu erioed, ac ni bydd byth, y fath gyfrifoldeb ar ddeuddeg o ddynion. Pe buasai y rhai hyn wedi troi yn siomedig, beth a ddaethai o holl waith Mab Duw? Eithr "tystion etholedig" y nefoedd oeddynt. Daliasant eu tir yn deilwng o'r ymddiriedaeth. Yr oedd yr unig Judas oedd yn eu plith wedi myned i'w le ei hun cyn dechreu dwyn tystiolaeth i adgyfodiad yr Arglwydd Iesu.

3. Maes eu llafur. "Yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear." Dyma ragdrefn fawr yr oes apostolaidd. Dechreuwyd yn Jerusalem ddydd y Pentecost. Gweithiwyd holl Judea o Jerusalem y blynyddoedd cyntaf ar ol dydd y Pentecost. Drachefn aeth yr efengyl i Samaria. Trwy dŷ Cornelius a thrwy Antiochia aeth at y Cenedloedd, gan wynebu ar "eithaf y ddaear." Hanes yr apostolion yn cario allan ragdrefn yr adnod hon yw Llyfr yr Actau. Dyma awgrym i'r apostolion mai nid i Israel yn unig yr oedd y "deyrnas," eithr hefyd i Samaria, ac i eithaf y ddaear.

1. Mor werthfawr yw meddu arweinydd yn deall ei waith. "Efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem." "Aroswch chwi yn ninas Jerusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder." Gallu pwysig yn aml yw y gallu i "aros."

2. Mae yn ofynol cael cymhwysder, hyd y nod at waith da, cyn ymaflyd ynddo. "Dysgwyl am addewid y Tad." Amryfusedd mawr fuasai i'r dysgyblion wynebu y miloedd cyn derbyn addewid y Tad.

3. Mae yr Arglwydd Iesu yn cadw mewn cof yr oll y mae wedi ei ddysgu i ddynion. "Yr hwn a glywsoch genyf fi." Yr oedd yr hyn a ddywedasai wedi aros yn ei feddwl trwy Gethsemane, a Chalfaria, a'r bedd. Er i ni annghofio geiriau yr Iesu, ni annghofir hwy gan yr Iesu ei hunan. Byddai yn dda i ninnau ystyried y bydd pethau yr ochr hon i'r bedd yn cael eu cofio genym yr ochr arall.

4. Mor gyndyn ac annyben ydyw dynion i ollwng eu gafael o hen syniadau. "Ai y pryd hwn y rhoddi drachefn y freniniaeth i Israel?"

5. Mor awyddus ydym i wybod yr hyn na pherthyn i ni, tra y boddlonwn mewn anwybodaeth o'r hyn a ddylem wy-

bod. "Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau."

6. Y fath ddiogelwch ydyw fod dygwyddiadau y byd o dan lywodraeth Duw. "Y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun."

7. Mor ogoneddus y mae Duw yn rhoddi adnoddau a gwaith ar gyfer eu gilydd. "Eithr chwi a dderbyniwch nerth.........ac a fyddwch dystion i mi." "Digon i ti fy ngras i."

---

# DARLITH IV.

**ACT. I. 9.**

**9. Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynt-hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fyny;[1] a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt.[2]**

**NODIADAU A DARLLENIADAU.**

[1] Fel yr oeddynt yn edrych, efe a gymmerwyd i fyny.—C. D. Pan yr ydym yn son am esgyniad Crist, rhaid ei ddeall am ei natur ddynol yn unig, oblegyd fel Duw y mae yn bresennol yn mhob man. Nid oedd ei esgyniad yn gynnwysedig mewn unrhyw symmudiad lleol ar ei natur Ddwyfol, ond yn nyrchafiad ei ddynoliaeth. Efe a aeth i'r nefoedd fel Cyfryngwr rhwng Duw a dyn, ac fel y cyfryw, efe a ddyrchafwyd goruwch pob tywysogaeth ac awdurdod.—GLOAG.

[2] Nis gallwn fyned tu hwnt i'r cwmmwl; eithr yr oedd y cwmmwl hwnw yn arwydd o ogoniant y Presennoldeb Tragywyddol, fel y Shechinah a lanwai y deml er's talm, (1 Bren. viii. 10, 11. Esa. vi. 1—4.) a digon i ni yw gwybod mai lle mae Duw, yno hefyd y mae Crist; gan ddal gafael, er o dan delerau a deddfau newyddion, yn y natur ddynol, yr hon a'i gwnaeth yn gyffelyb i'w frodyr.—PLUMPTRE.

ESGYNIAD Y GWAREDWR.

Mae Luc a'r efengylwyr ereill, pan yn ysgrifenu yr Efengylau, yn dechreu trwy roddi hanes dyfodiad yr Arglwydd Iesu o'r nefoedd i'r ddaear; ond dechreuir Llyfr yr Actau trwy roddi hanes ei fynediad o'r ddaear i'r nefoedd. Gyda golwg ar ei fywyd a'i waith ar y ddaear dywedodd yr Iesu, "Mi a ddaethum allan oddiwrth y Tad, ac a ddaethum i'r byd;" a chyda golwg ar ei fywyd a'i waith yn y nefoedd dywedodd, "Trachefn yr wyf yn gadael y byd ac yn myned at y Tad." (Ioan xvi. 28.) Mewn ystyr mae pob creadur deallol yn dyfod allan oddiwrth y Tad; ond y mae dyn yn dyrysu ar ei daith, ac yn lle myned drachefn at y Tad, y mae yn troi i'w ffordd ei hun. Ond daeth Iesu i'r byd, ac aeth trwyddo heb golli y ffordd,—aeth drachefn at y Tad.

Yr oedd y naill gyfnod o fywyd Iesu yn rhagarweiniol i'r cyfnod arall. Yr oedd cyfnod yr arfaethu cyn dyfod i'r byd yn sylfaen i'r cyfnod o ddyoddef yn y byd; yr oedd

cyfnod y dyoddef yn y byd yn sylfaen i'r cyfnod o ogoneddiad yn y nefoedd; ac mae yr holl gyfnodau yn rhagarweiniol i'r oes o ogoniant tragywyddol, wedi y rhoddir y deyrnas i Dduw a'r Tad, pryd y bydd Duw oll yn oll.

Dyma y tro diweddaf i'r Arglwydd Iesu a'i ddysgyblion i gyfarfod gyda'u gilydd ar y ddaear. Yr oeddynt wedi cael llawer cyfarfod o'r blaen, a phethau eu cyfarfodydd hwy yw defnyddiau cyfarfodydd goreu y ddaear byth ar ol hyny. Dyma yr Athraw a'r dysgyblion pwysicaf a fu ar y ddaear erioed; nid oeddynt yn llawer mewn rhif, nac yn rhwysgfawr mewn ymddangosiad, ond yr oeddynt yn siarad pethau i fyw byth. Yr oeddynt yn cerdded mor drwm, fel na ddilenir ol eu traed holl ddyddiau y ddaear.

I. Y lle oddiar yr hwn yr esgynodd yr Arglwydd Iesu i'w ogoniant.

Nid oes genym ond dwy adnod yn cyffwrdd â'r mater hwn, sef Luc xxiv. 50. ac Act. i. 12. Ni buasem yn gwybod dim am le esgyniad y Gwaredwr oni buasai Luc. Ymddengys oddiwrth yr adnodau hyn i'r esgyniad gymmeryd lle oddiar fynydd yr Olewydd, yn agos i bentref Bethania. Yr oedd y mynydd daith diwrnod Sabbath, rhywbeth llai na milltir, o Jerusalem, y tu Dwyreiniol i'r ddinas; ar yr ochr bellaf o'r dref i'r mynydd, o fewn llai na dwy filltir i Jerusalem, yr oedd Bethania. Yr oedd Bethania yn lle nodedig yn hanes Iesu Grist; yno yr oedd Mair, a Martha, a Lazarus yn byw. Nid oes genym hanes fod ein Harglwydd wedi cael dim erioed ond caredigrwydd yn Bethania, tra na chafodd ddim erioed ond gelyniaeth yn Jerusalem. Byd hynod yw ein byd ni: nid oes cymmaint o newid awyr foesol wrth groesi darn o fynydd yn yr un byd arall. Tra y darperid swper i'n Harglwydd yn Bethania, darperid croes iddo yn Jerusalem. Treuliasai yr Iesu gryn lawer o amser yn Bethania, a naturiol iddo oedd esgyn o olwg y fangre gyssegredig i'r nefoedd. Yr oedd ein Harglwydd lawer gwaith wedi dyfod â llawer o nefoedd i Fethania; gwaith bychan oedd myned oddi yno i'r gogoniant. Yr oedd awyr ysbrydol Bethania bron mor bur ag awyr y nefoedd ei hunan. Bethania oedd cartref yr Iesu yn ardal Jerusalem. Peth mawr i ninnau fyddai byw gartref, fel y carem gychwyn o ganol hen olygfeydd ac adgofion y cartref daearol i drigfanau y cartref tragywyddol. Yr ydym oll yn creu rhyw fath o ysbrydion

wrth fyw, y rhai, os cawn ychydig hamdden tua y diwedd, a'n hamgylchant wrth farw. Gofalwn pa un ai angylion ai ellyllon ydym yn greu! Yr oedd Iesu wedi byw yn Bethania fel yr oedd yn naturiol i'w deimlad i fyned o Fethania i'r nefoedd; nid oedd yr un gair eisieu ei ddileu, na'r un edrychiad eisieu ei annghofio. Yr oedd ei holl fywyd yn attyniad i'r gogoniant.

II. Dull esgyniad y Gwaredwr.

Mae y darluniad a rydd Luc yn ei Efengyl o'r amgylchiad yn hynod brydferth. "Ac efe a'u dug hwynt allan hyd yn Bethania; ac a gododd ei ddwylaw, ac a'u bendithiodd hwynt. Ac fe a ddarfu, tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, ymadael o hono ef oddi wrthynt, ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef." (Luc xxiv. 50, 51.) Ymddengys iddo gychwyn gartref tra yn y weithred o ddyrchafu ei ddwylaw i'w bendithio. Aeth Iesu oddiar y ddaear fel y gallai y ddaear ei garu byth. Rhoddodd ein Harglwydd ei fendith i'r dysgyblion yn ngwyneb eu gwendid hwy, ac yn ngwyneb drygioni y byd. Mae digon o rinwedd yn mendith ymadawol Mab Duw i gyfoethogi ei eglwys hyd ddiwedd amser: arnom ni y mae y bai os ydyw yn dlawd arnom. Aeth y Gwaredwr o'r byd gan fendithio, a bendithio y mae byth.

Yr oedd pregeth yn nwylaw y Ceidwad. Dyma yr unig ddwylaw glân a welwyd erioed mewn byd aflan. "Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd? a phwy a saif yn ei le santaidd ef? Y glân ei ddwylaw, a'r pur ei galon." (Salm xxiv. 3, 4.) Dyma fe yn Iesu Grist. Wedi byw oes yn myd y crochanau, nid oedd eisieu iddo olchi ei ddwylaw cyn "esgyn i fynydd yr Arglwydd." Yr oedd hanes hynod i'r dwylaw hyn. Buont yn gweithio gwaith saer am flynyddau yn Nazareth, ac ni ddaeth gwaith anonest erioed o honynt. Yr oedd yn rhaid i waith y saer fod yn ei le os oedd gwaith y groes i fod yn llwyddiannus. Yr oedd pum' torth a dau bysgodyn yn ddigon i borthi miloedd, wedi eu cael trwy ddwylaw Iesu Grist. Cyffyrddiad ei ddwylaw ef â'r elor a barai i'r angladd sefyll, cyn i'r marw gyfodi a myned adref yn iach. Wedi gyrfa o gymhwynasau, hoeliwyd y dwylaw glân ar bren y groes. Trueni oedd i'r byd groeshoelio yr unig ddwylaw glân a fu ynddo erioed, eithr felly fu. Ond nis gall hanes dwylaw dibechod derfynu o dan hoelion. Rhyfeddod fawr llywodraeth Duw oedd eu gweled yno o gwbl, ond ni oddefir iddynt fod yno byth.

Boreu y trydydd dydd, mae y dwylaw glân wedi dyfod yn rhydd, a'u gwaith cyntaf oedd plygu y napcyn a fuasai am ei ben ef; ac yn mhen yr wythnos drachefn y mae yr olwg arnynt yn peri i Thomas waeddi "Fy Arglwydd a'm Duw."

"Ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef." O'r nef yr oedd wedi dyfod, ac yr oedd yn iawn i'r nef ei gael yn ol. Aberth mawr i'r nef oedd rhoddi ei fenthyg, a gras mawr mewn angylion oedd canu uwch ben Arglwydd y gogoniant yn y preseb. (Luc ii. 8—14.) Adeg ryfedd oedd adeg yr ymgnawdoliad; ni bu y nefoedd erioed mor wag, na'r ddaear erioed mor lawn. Tra yr oedd Iesu yma, yr oedd rhyw rai o'r nefoedd yma beunydd, ond wedi iddo ef ddychwelyd, mae y nefoedd yn fwy cartrefol. Lle gwag oedd y nefoedd heb Iesu; mae cymmeriadau cryfion yn llanw mawr lle bynag y byddant. Nid oedd neb ond Iesu a allasai lenwi a chadarnhau y nefoedd. Efe oedd yr unig gymmeriad digon cryf i'w roddi yn "nghanol yr orseddfaine." "Efe a ddygwyd i *fyny* i'r nef." Dyfod i lawr oedd hanes Iesu wedi bod, ond nid yw hanes rhinwedd byth i derfynu ar lawr. Na ddigaloned y credadyn er bod yn nghanol yr ystormydd, mae pennod arall i fod yn ei hanes; rhaid i'w yrfa derfynu fel eiddo ei Waredwr mewn myned "i fyny." Dyfod i lawr a wnaeth y Ceidwad, eithr cael ei gymmeryd i fyny. Yr oedd cymmaint o ogoniant yn ei waith ef yn dyfod i lawr, fel y mynai y nefoedd ei gymmeryd i fyny.

"A chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt." Rhyfedd mor syml y rhoddir hanes mor nodedig. Mae cyferbyniaeth brydferth rhwng esgyniad y Gwaredwr ac esgyniad Elias, gwel 2 Bren. ii. 9—12. Mae Elias yn cael ei wahanu oddiwrth ei gyfaill Eliseus gan gerbyd tanllyd a meirch tanllyd; ond mae Iesu yn gadael ei gyfeillion ef tra yn y weithred o'u bendithio. Cipiwyd Elias yn y cerbyd tanllyd mewn corwynt i'r nefoedd, ond mae Iesu yn cael ei gymmeryd yn ngherbyd tawel y cwmmwl goleu. Ymddengys i Elias fyned yn gyflym o olwg Eliseus, yr hwn oedd mewn braw, gan ddywedyd, "Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion;" ac ymafodd yn ei ddillad gan eu rhwygo yn ddeuddarn; ond mae dysgyblion yr Iesu yn edrych yn ddyfal tua'r nef, ac efe yn myned i fyny, tra y mae acenion ei fendith yn disgyn yn rasol ar eu heneidiau.

Edrychir yn gyffredin ar Salm xxiv. 7—10. fel yn cyn-

nwys darlnniad ffigyrol o esgyniad Mab Duw. Mae yn debyg fod cyfeiriad y geiriau yn wreiddiol at ddygiad yr arch i'r deml yn Jerusalem. Yr oedd dygiad yr arch i dŷ yr Arglwydd yn amgylchiad mawreddog: gwel 1 Chron. xv. 12—28. Os meddyliwn am y Salm uchod yn cael ei chanu ar yr amgylchiad, y mae yn hynod o brydferth. Dichon fod yno ddau gôr yn canu y geiriau, gan holi ac ateb. Ond gan nad beth oedd gogoniant mynediad yr arch i'r cyssegr yn Jerusalem, nid oedd ond darlun gwan o fynediad Iesu i'r gwir gyssegr yn y nefoedd.

"Ac wedi iddynt ei addoli ef, hwy a ddychwelasant i Jerusalem gyda llawenydd mawr." Ymadawiad gogoneddus oedd hwn,—yr Iesu yn bendithio a'r dysgyblion yn addoli. Mae "bendithio" ac "addoli" yn wastad gyda'u gilydd. Gwaith yn taro pob amgylchiad yw addoli—llawenydd a thristwch, llwyddiant ac aflwyddiant, bywyd ac angeu. Yr oedd "addoli" yn awr yn adlewyrchu yn ogoneddus ar y Ceidwad. Dyma y bobl oedd yn ei adwaen oreu, a hyny wedi iddo orphen ei waith, yn ei addoli wrth ei weled yn myned. Yr oedd y dysgyblion hefyd wedi dyfod lawer yn mlaen yn ddiweddar. Ychydig amser yn ol, pan soniai Iesu am eu gadael, "tristwch a lanwai eu calon," ond yn awr addolent yn mhresennoldeb ei ymadawiad. Fel y daw plant Duw i well goleuni, deuant i addoli uwch ben llawer amgylchiad a dybient oedd oll yn eu herbyn. Da y gallasai Ioan ddweyd, "Efe yn caru yr eiddo y rhai oedd yn y byd, a'u carodd hwynt hyd y diwedd."

---

# DARLITH V.

ACT. I. 10, 11.

10. Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tua'r nef, ac efe yn myned i fyny,[1] wele, dau ŵr[2] a safodd ger llaw iddynt mewn gwisg wen;

11. Y rhai hefyd a ddywedasant, Chwi wŷr o Galilea,[3] paham y sefwch yn edrych tua'r nef; yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef.[4]

NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] Tra yr oedd mynediad Elias i'r nef yn debyg i ehediad cyflym aderyn, yr hwn nis gall neb ei ddilyn, y mae esgyniad Crist yn debyg i bont rhwng daear a nefoedd, wedi ei dodi i lawr i'w huno.—BAUMGARTEN.

[2] Awgryma Ewald mai Moses ac Elias oedd y ddau hyn, fel yn y gweddnewidiad, ond pe felly, buasai Luc yn sicr o gyfeirio at hyny. Dau angel oeddynt, y rhai, mae yn debyg, a feddent ymddiriedaeth bennodol mewn cyssylltiad â gwaith y Messiah ar y ddaear. (Ioan xx. 12. Luc xxiv. 4.)—SPENCE.

[3] Galileaid oeddynt oll yn awr. Galileaid oedd yr holl apostolion ond Judas Iscariot (*Ish-Kerioth*, dyn o Kerioth), yr hwn a berthynai mae yn debyg i dref Kerioth yn Judea. Yr oedd pump o honynt o bentref Bethsaida.—LINDSAY.

[4] Yr hwn a dderbyniwyd i fyny oddi wrthych i'r nef.—C. D.

## AIL DDYFODIAD YR ARGLWYDD IESU.

Yr oedd yn gwbl naturiol i'r apostolion i edrych yn ddyfal tua'r nef. Buasai eu cywreinrwydd yn eu harwain i wneyd hyny yn naturiol, yn ngwyneb amgylchiad mor ryfedd ag esgyniad un i'r nefoedd: pwy na fuasai yn edrych, a fuasai yn y cyfleusdra? Yr oedd eu serch at yr Arglwydd Iesu yn gymhelliad iddynt i'w ddilyn cyhyd ag y gallasent. Yr oeddynt wedi dilyn llawer arno er's tair blynedd, yr oedd cyfeillgarwch calon wedi ei ffurfio rhyngddynt, yr oedd ymadael yn orchwyl hynod o anhawdd; ond gan mai ymadael oedd raid, yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tua'r nef i gael yr olwg ddiweddaf ar eu Harglwydd. Fel yr oeddynt yn edrych, "dau ŵr a safodd gerllaw iddynt mewn gwisg wen." Tybia rhai mai Moses ac Elias oedd y gwyr hyn; ond tebycach mai dau angel oeddynt. Barna rhai fod yn ngeiriau y ddau ŵr hyn fath o gerydd ysgafn i'r dysgyblion am edrych gormod tua'r nef, yn lle myned at eu gwaith. "Chwi wŷr o Galilea, paham y sefwch yn edrych tua'r nef?" Dichon fod edrychiad yr apostolion yn arddangos gradd o siomedigaeth a dyryswch; ond y mae yr angylion yn awgrymu yn eu gofyniad, yn nglun â'u cenadwri, fod pob peth yn ei le—mai i'r nef yr oedd yr Arglwydd Iesu i fyned yn awr, ond y buasai iddo mewn amser priodol i dalu ymweliad a'r ddaear drachefn, "Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef." Mor fuan ag y gorphenodd Iesu ei ymweliad cyntaf â'r byd, y mae ei ail ymweliad yn cael ei osod yn wrthddrych ffydd a gobaith ei bobl. Edrych yn mlaen at yr Arglwydd Crist ydyw gwaith holl oesau y ddaear; un cyfnod at ei ddyfodiad cyntaf, a'r cyfnod arall at ei ail ddyfodiad. Mae y cyfnod pwysicaf o hanes yr hil ddynol yn gorphwys rhwng mynediad Iesu i'r nef, a'i ddyfodiad oddi yno. Gellir edrych ar hanes dyn fel yn gynnwysedig o wahanol gyfnodau, megys o Adda hyd y dylif, o'r dylif hyd alwad Abram, o alwad Abram hyd

roddiad y ddeddf, o roddiad y ddeddf hyd ddyfodiad Crist, ac o ddyfodiad Crist hyd ei ail ddyfodiad. Y cyfnod diweddaf yw y pwysicaf,—dyma oes cynhauaf y ddaear, hon sydd i osod gwerth a phwysigrwydd yn hanes ein byd ni. Yr ydym ni yn byw yn y ddolen bwysicaf yn nghadwyn amser; cofiwn, gan hyny, fod ein cyfrifoldeb yn fwy, a'n dyledswyddau yn drymach.

Byddai yn gymhorth i ni ddeall llawer rhan o'r Beibl, pe cofiem fod cyfeiriadau ynddo at amryw ddyfodiadau o eiddo yr Arglwydd Iesu, heblaw ei ddau ddyfodiad personol.

1. Sonir am ei ddyfodiad i ddinystrio Jerusalem. Dyna a olygir mewn lliaws o fanau yn yr efengylau wrth "ddyfodiad Mab y dyn," ac mae yn debyg mai at yr un amgylchiad y cyfeiria rhai o'r Epistolau hefyd, pan yn defnyddio ymadroddion tebyg.

2. Gelwir gwaith yr Arglwydd Iesu yn sefydlu ei deyrnas mewn grym yn "ddyfodiad" Mab y dyn. "Y mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma, a'r ni phrofant angeu, hyd oni welont Fab y dyn yn dyfod yn ei freniniaeth." (Mat. xvi. 28.)

3. Mae gwaith yr Arglwydd Iesu yn ymweled yn ei Ragluniaeth â'i bobl, yn cael ei alw yn "ddyfod." "Cofia gan hyny o ba le y syrthiaist, ac edifarha, a gwna y gweithredoedd cyntaf: ac onide, yr wyf fi yn dyfod atat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganwyllbren di allan o'i le, oni edifarhei di." (Dad. ii. 5.)

Yn y testyn, a lliaws o fanau ereill, golygir ei ail ymweliad personol â'r ddaear.

I. Sicrwydd ail ddyfodiad Crist.

Mae y testyn yn siarad yn bendant ar y pwnc. "Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef." Mae yma ddau ŵr yn dweyd, ac "yn ngenau dau neu dri o dystion y bydd safadwy pob gair." Maent yn ddau ŵr mewn "gwisg wen" hefyd; ac nid yw teulu y gwisgoedd gwynion sydd yn dyfod o'r nefoedd, byth yn dweyd dim ond y gwir. Rhaid i'r nefoedd gael cymmeriad glân i'w wisgo mewn gwisg wen; ac os gwelir ninnau wedi ein gwisgo yno, byddwn wedi ein puro a'n santeiddio yn gyntaf. Siaradai Iesu Grist ei hun yn eglur ar hyn. "Canys Mab y dyn a ddaw yn ngogoniant ei Dad gyda'i angylion; ac yna y rhydd efe i bawb yn ol ei weith-

red." (Mat. xvi. 27.) "Ar ol hyn y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymmylau y nef." (Mat. xxvi. 64.) Dywed Paul hefyd, "Oblegyd yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, a llef yr archangel, ac âg udgorn Duw." (1 Thes. iv. 16.) "Pan ymddangoso y Pen bugail," ebe Pedr, "chwi a gewch dderbyn anniflanedig goron y gogoniant." (1 Pedr v. 4.) Dywed Ioan hefyd, "Eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegyd ni a gawn ei weled ef megys ag y mae." (1 Ioan iii. 2.)

II. Amser ei ail ddyfodiad.

Diau fod y pwnc yma yn mhlith "yr amseroedd a'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun." Un prawf o hyny yw, yr amrywiaeth barnau diddiwedd sydd wedi bod, ac yn bod ar y mater. Barna rhai mai cyfeiriad at ddyfodiad Crist i ddinystrio Jerusalem sydd yn y lleoedd a gymhwysa ereill at ei ddyfodiad personol, ac mai camgymmeriad ydyw meddwl fod yr Arglwydd Iesu i ymddangos eto. Mae yn eglur, feddyliem, fod hyn yn gyfeiliornus; ni chlywsom fod y meirw wedi cyfodi ar ddinystr Caersalem, ond mae hyny i gymmeryd lle yn nyfodiad yr Arglwydd. "A'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf: yna ninnau y rhai byw, y rhai a adawyd, a gipir i fyny gyda hwynt yn y cymmylau, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr." (1 Thes. iv. 16, 17.)

Dysgwylia llawer i'r Arglwydd Iesu ymddangos i deyrnasu yn bersonol yn mhlith ei bobl ar y ddaear, am fil o flynyddoedd, cyn dydd y farn. Seiliant eu cred yn benaf, hwyrach, ar eiriau Pedr, "Ac yr anfono efe Iesu Grist, yr hwn a bregethwyd o'r blaen i chwi: yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth, y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl santaidd brophwydi erioed." (Act. iii. 20, 21.) Bu y syniad hwn yn boblogaidd yn y canrifoedd cyntaf o'r cyfrif Cristionogol; dyoddefai y Cristionogion mewn dysgwyliad am i'w Brenin wneyd ei ymddangosiad i amddiffyn ei achos ar y ddaear. Wedi ennill gorsedd Rhufain at Gristionogaeth, aeth y syniad i lawr, ni theimlid cymmaint o anghen drachefn am waredigaeth; ond yn amser y diwygiad Protestanaidd, amddiffynid yr hen syniadau gan lawer o ddynion enwog, ac y maent wedi parhau i gael eu coleddu gan lawer hyd heddyw. Dyna oedd syniadau Dr. Gill gan' mlynedd yn ol, a

dyna ydyw syniadau rhai dynion da a galluog yn yr oes hon.

Ond y syniad mwyaf cyffredin ydyw, fod Iesu yn cyflawn deyrnasu ar ei eglwys er pan esgynodd i ddeheulaw ei Dad, wedi derbyn pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear; ac y bydd iddo, mewn amser, trwy ei air a'i Ysbryd, ennill holl deyrnasoedd y byd yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist ef; yna y bydd i oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd ddyfod i ben,—y bydd i'r Arglwydd Iesu ymddangos yr ail waith —y bydd i'r meirw oll gael eu cyfodi, ac i'r farn eistedd,— yna y bydd i'r Iesu gyflwyno y deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad, pryd y bydd Duw wedi ei gyflawni oll yn oll. Yn gysson â hyna yr ymddengys dysgeidiaeth Paul yn 1 Cor. xv. 19—28. Pa bryd y bydd y cyfnod yna, nis gwyddom. Ymddengys nad oes neb eto wedi cael pen y ffordd i ddeall yr hyn a ddywed y Beibl am amseriad y dyfodol; ac hwyrach na cheir, hyd nes y bydd ffeithiau yn ei esbonio. Gallem feddwl fod cyfnod maith eto cyn y daw Iesu ar gymmylau y nef. Buwyd am bedair mil o flynyddoedd yn parotôi ar gyfer sefydlu Cristionogaeth yn y byd, tra nad yw Cristionogaeth eto wedi cael ond llai na dwy fil i weithio; ac os edrychwn ar y gwaith sydd eto i'w wneyd, a'r tymhor maith sydd gan Iesu i deyrnasu o fôr hyd fôr, gallem feddwl fod oesau ar oesau i fyned heibio cyn boreu mawr caniad yr udgorn; ond er mor dywyll yw y peth yn ymddangos i ni, mae y cwbl yn oleu i Dduw. Mae yr amseroedd a'r prydiau yn ei feddiant ef. Y mae wedi gosod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe. (Act. xvii. 31.)

Mae llawer o fanau yn y Testament Newydd lle y mae dyfodiad yr Arglwydd yn cael ei osod allan fel peth agos. Yn y Llythyr Cyntaf at y Thessaloniaid, mae Paul fel pe byddai yn ei ddarlunio felly, ac ymddengys i'r Thessaloniaid ei ddeall felly; ond yn ei Ail Lythyr, mae yr apostol yn eu cywiro ar y pwnc: gwel 2 Thes. ii. 1—3. Gyda golwg ar y lleoedd sydd yn gosod allan ddyfodiad yr Arglwydd fel yn agos, gallwn sylwi, yn

1. Fod rhai manau yn yr Efengylau a'r Epistolau yn cyfeirio at ei ddyfodiad i ddinystrio Jerusalem, yr hwn oedd mewn gwirionedd yn agos.

2. Fod yr ysgrifenwyr ysbrydoledig fel yn gosod marwolaeth a'r adgyfodiad fel yn ymyl eu gilydd, am fod angeu

i bob un yn bersonol yr un peth ag a fydd dydd y farn i'r hiliogaeth—adeg penderfynu y cyflwr am byth. Felly, gan fod angeu yn agos, a hwnw yr un peth mewn llawer ystyr i'r dyn a dydd y farn, gosodir y dydd olaf fel yn ymyl hefyd. Cawn engraifft yn 1 Cor. i. 8. o'r cyfnod rhwng angeu a'r farn yn cael edrych drosto, "Yr hwn hefyd a'ch cadarnha chwi hyd y diwedd, yn ddiargyhoedd, yn nydd ein Harglwydd Iesu Grist."

3. Mae rhywbeth yn hir neu yn fyr o ran amser, yn ol y drefn y byddwn yn edrych arno. Wrth edrych ar ddyfodiad yr Arglwydd, a'i gymharu âg oes fer dyn, y mae yn mhell iawn; ond wrth edrych arno, a'i gymharu âg oes y byd, neu yn enwedig â'r tragywyddoldeb sydd i ddilyn, y mae yn ymyl. I ni y mae mil o flynyddoedd yn oesau, i Dduw nid yw mil o flynyddoedd ond megys un dydd. Os ydym ni yn awr yn edrych ar ddyfodiad yr Arglwydd draw yn y pellafoedd, pan yr edrychwn yn ol oddiar ymylon yr oes dragywyddol, byddwn yn gweled priodoldeb yr ymadrodd, "Wele yr wyf yn dyfod ar frys."

III. Dull ei ail ddyfodiad.

"Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef." Mae y geiriau hyn yn dysgu fod rhyw debygolrwydd i fod rhwng dyfodiad yr Arglwydd o'r nef a'i fynediad i'r nef. Nid ydym i ddeall wrthynt y bydd ei ddyfodiad oddi yno yr un fath yn mhob peth a'i fynediad yno, ond y bydd rhyw nodau o debygolrwydd ynddynt.

1. Yr un Iesu a ddaw o'r nef ag a aeth i'r nef. "Yr Iesu hwn......a ddaw." Er fod oesau ar oesau i dreiglo ymaith rhwng y mynediad a'r dyfodiad, er fod un genedlaeth i dd'od, a chenedlaeth arall i fyned ymaith cyn y gwelir arwydd Mab y dyn, eto "yr Iesu hwn......a ddaw," pan fydd yr amser yn mhen. Buasai yn dda gan lawer gael gweled y Ceidwad pan yma ar y ddaear, a sylwi ar ei berson; ond nid yw yn rhy ddiweddar eto, oblegyd "yr Iesu hwn......a ddaw." Nis gwyddom yn iawn mewn pa beth y bydd hunaniaeth y corph a roddir yn y bedd, a'r corph a gyfodir yn gynnwysedig, na pha debygolrwydd fydd yn y naill i'r llall; ond mae hunaniaeth y Brawd hynaf mewn goleu mwy clir,—"Yr Iesu hwn......a ddaw."

Ac nid yn unig fe fydd yr Iesu yr un o ran ei berson, ond bydd yr un o ran ei nodweddau hefyd. Mae llawer dyn

wedi myned i wlad bell, ac yn dychwelyd mewn un ystyr, a byth yn dychwelyd mewn ystyr arall. Yr un *anifail* sydd yn dychwelyd ag a aeth, ond mae y *dyn* wedi newid. Mae amgylchiadau aflwyddiannus yn tynu un i lawr, ac amgylchiadau manteisiol yn dyrchafu y llall i fyny; ond am Fab Duw, "yr Iesu hwn......a ddaw," wedi treulio oesoedd yn nghanol parch ac addoliad angylion a cherubiaid, eto yr un a fydd efe; os aeth efe i'r nefoedd gan fendithio ei ddysgyblion, efe a ddaw yr un modd, "i'r rhai sydd yn ei ddysgwyl ef er iachawdwriaeth."

2. Fel yr oedd ei fynediad i'r nef yn weledig, felly y bydd ei ddyfodiad oddi yno yn weledig hefyd. "A ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef." Yr oedd yr apostolion yn edrych arno yn dyrchafu, a chwmmwl a'i cymmerodd ef allan o'u golwg hwynt. Bydd ei ail ddyfodiad yn weledig, "Wele, y mae efe yn dyfod gyda'r cymmylau; a phob llygaid a'i gwel ef, ïe, y rhai a'i gwanasant ef." (Dad. i. 7.) Nid oedd neb ond y dysgyblion yn ei weled yn myned i'r nef, ond gwel pawb ef yn dyfod o'r nef. Siaredir yn fynych iawn am ail ddyfodiad yr Arglwydd, mewn geiriau sydd yn tybio ei fod yn weledig. "Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni." "Eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegyd ni a gawn ei weled ef megys ag y mae." (1 Ioan iii. 2.)

3. Siaredir am fynediad y Gwaredwr i'r nef, ac am ei ddyfodiad oddi yno mewn cyssylltiad â chwmmwl. "Cwmmwl" a'i cymmerodd ef o'u golwg hwy y pryd hwnw, ac y mae efe i ddyfod eto gyda'r "cymmylau." Y mae Duw wedi "gwneuthur y cymmylau yn gerbydau iddo" lawer gwaith. Mewn cwmmwl yr arweiniodd efe Israel o'r Aipht; mewn cwmmwl y disgynodd ar Seinai; llef o'r cwmmwl a glybuwyd ar fynydd y gweddnewidiad; mewn cwmmwl yr esgynodd Iesu adref, ac ar y cymmylau y daw efe yr ail waith. Rhyfedd fel y mae Duw wedi cyssylltu pethau ysbrydol â phob golygfa a allwn gael yn y byd. Os mynyddoedd fydd yn tynu ein sylw, gallwn gofio am fynydd yr Olewydd a mynyddoedd ereill y Beibl; os gwastadedd ffrwythlawn fydd yn gwefreiddio ein hysbryd, gallwn gofio am wastadedd Sodom a losgwyd o herwydd annuwioldeb y trigolion; os mewn anialwch diffaith y byddwn yn ymlwybro, gallwn gofio am anialwch y deugain mlynedd; os gyda glàn afon y byddwn yn rhodio, gallwn

gofio am afon Cedron a'r Iorddonen; os mewn gardd y byddwn yn cael ein swyno gan ei blodau amryliw, gallwn gofio am ardd Eden a gardd Gethsemane; neu os tynir ein sylw gan ryw gwmmwl, gallwn gofio am gymmylau y Beibl, o'r cwmmwl y rhoddodd Duw fwa y cyfammod ynddo, hyd y cwmmwl ar yr hwn y daw Iesu yr ail waith.

Mae yn ddigon tebyg fod angylion yn dilyn yr Arglwydd Iesu ar ei esgyniad. Buont yn gweini iddo lawer gwaith yn y byd, ac mae yn dra thebyg iddynt weini yn llawen ar ei fynediad i dŷ ei Dad. Pa fodd bynag, bydd yn dyfod yr ail waith gyda'r holl angylion santaidd, yn ei ogoniant ei hun, ac yn ngogoniant ei Dad. Bydd ei ogoniant ei hun fel Cyfryngwr yn y golwg y diwrnod hwnw, ac amgylchir ef gan holl awdurdod a mawredd gogoniant ei Dad. Ni bydd un gogoniant yn y cyfanfyd na fydd yn pelydru yn Iesu yn ei ail ymddangosiad. Bydd creadigaeth, rhagluniaeth, a gras yn rhoddi coron ar ei ben, a choron gras fydd yr uwchaf a'r odidocaf: "Pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu."

Yn awr, ddarllenydd, pa beth ydyw ein rhagolygon ni yn ngwyneb y gwirionedd a fu o dan ein sylw? Yr ydym wedi gweled y byddwn ni a Iesu yn cyfarfod ein gilydd ryw ddiwrnod, a byddai yn ddoeth i ni feddwl a ydym yn barod i ymddangos ger ei fron. Er na wyddom pa bryd y bydd "y dydd hwnw," eto byddwn ni yn bur fuan mewn amgylchiad fydd yn penderfynu ein tynged yn y "dydd hwnw." Dyma eiriau yr Arglwydd Iesu, "Pwy bynag gan hyny a'm cyffeso i yn ngwydd dynion, minnau a'i cyffesaf yntau yn ngwydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd: a phwy bynag a'm gwado i yn ngwydd dynion, minnau a'i gwadaf yntau yn ngwydd fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." (Mat. x. 32, 33.) Os ydym yn wrthodwyr o Fab Duw, mae yn ei ail ddyfodiad bob peth sydd ofnadwy i ni; ond o'r ochr arall, os ydym yn dderbynwyr o hono, mae yn ei ymddangosiad yr ail waith "iachawdwriaeth" i ni. Nid oedd un gwirionedd y byddai yr apostolion yn gwneyd mwy o ddefnydd o hono i gysuro y saint nag ail ymddangosiad Iesu Grist; ac yn wir, yr oedd y Gwaredwr ei hun wedi gwneyd yr un defnydd o hono o'u blaenau, "Mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi ataf fy hun." (Ioan xiv. 3.) "Gan ddysgwyl," ebe Paul, "am y gobaith gwynfydedig, ac ymddangosiad gogoniant y Duw

mawr, a'n Hiachawdwr Iesu Grist." (Titus ii. 13.) "Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant." (Col. iii. 4.) Mor werthfawr ydyw gallu gwneyd pethau sicr yn destyn ein gobaith. Mor ddedwydd ydyw gallu gwneyd peth a fu unwaith yn ddychryn i ni yn destyn llawenydd a gorfoledd. Ymgyrhaeddwn at brofiad Ioan yn ei ymddyddan diweddaf â'i Arglwydd: "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys," ebe y naill, "Yn wir, tyred Arglwydd Iesu," ebe y llall.

---

# DARLITH VI.

ACT. I. 12—14.

12. Yna y troisant i Jerusalem, o'r mynydd a elwir Olewydd, yr hwn sydd yn agos i Jerusalem, *sef* taith *diwrnod* Sabbath.[1]

13. Ac wedi eu dyfod i mewn, hwy a aethant i fyny i oruwchystafell,[2] lle yr oedd Pedr, ac Iago, ac Ioan, ac Andreas, Phylip, a Thomas, Bartholomew, a Matthew, Iago *mab* Alpheus, a Simon Zelotes, a Judas *brawd*[3] Iago, yn aros.

14. Y rhai hyn oll oedd yn parhau[4] yn gytun mewn gweddi ac ymbil, gyda'r gwragedd,[5] a Mair mam yr Iesu, a chyda'i frodyr[6] ef.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] Tybia Plumptre mai ar y Sabbath Iuddewig, wyth diwrnod cyn y Pentecost, yr esgynodd ein Harglwydd, ac mai hyny a awgrymodd i Luc y geiriau olaf yn adn. 12.

[2] Hwy a aethant i fyny i'r oruwchystafell, lle yr oeddynt yn aros: Pedr, ac Ioan, ac Iago, ac Andreas, Phylip, a Thomas, Bartholomew, a Matthew, Iago *fab* Alpheus, a Simon y Selog, a Judas *mab* Iago.—C. D.

[3] Neu, brawd: gwel Judas 1.—Y. D. Nid yw natur y berthynas yn y fath achos yn cael ei benderfynu gan y gystrawiaeth, eithr gadewir hyny i wybodaeth y darllenydd.—HACKETT.

[4] Y rhai hyn oll yn gytun oedd yn parhau yn ddyfal mewn gweddi, gyda'r gwragedd.—C. D.

[5] Neu, gyda rhai gwragedd.—Y. D.

[6] Y mae yn deilwng o sylw, ar y naill law, fod brodyr yr Iesu yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth yr un apostol ar ddeg; ac ar y llaw arall, eu bod yn cael eu lleoli yn amlwg mewn cysylltiad pennodol â mam yr Iesu; mewn canlyniad gellir casglu, yn gyntaf, mai brodyr i'r Iesu yn ystyr uniongyrchol y gair a olygir, ac nid cefndyr iddo; ac yn ail, nad oedd yr un o honynt yn apostol.—LECHLER.

## Y CYFARFOD GWEDDI CYNTAF WEDI YR ESGYNIAD.

Geilw y testyn ein sylw at *y cyfarfod gweddi cyntaf ar ol esgyniad yr Arglwydd Iesu i'r nefoedd.* Yr oedd yn adeg bwysig ar y dysgyblion yn awr; hyd yn hyn yr oedd gofal yr Arglwydd Iesu wedi eu cysgodi; "Tra fum gyda hwynt yn y byd, mi a'u cedwais yn dy enw." Yn awr mae efe yn myned at y Tad, "ond y rhai hyn sydd yn y byd,"—y

byd sydd yn llawn peryglon a phrofedigaethau i'r rhai nad ydynt o'r byd. Mae y dysgyblion yn dechreu eu gyrfa yn yr iawn fan—mewn gweddi; er maint yw ystormydd y daith, cânt mewn gweddi nerth i'w theithio; a pheidiwn a synu, os gwelwn wrth fyned yn mlaen, gewri mewn ffydd a gweithgarwch, rhai yn medru sefyll o flaen pendefigion, a chanu mewn carcharau, a maddeu yn nghanol y gawod geryg, nes marw yn debycach i'w Harglwydd nag y bu neb arall farw; nid yw y cwbl yn rhyfedd pan gofiom pa fodd y cychwynasant eu gyrfa—gyda Duw mewn gweddi; dyna yr agoriad i'w holl orchestion.

I. Y daith i'r cyfarfod gweddi. (adn. 12.)

"Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch," medd y Salmydd, "felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl." (Salm cxxv. 2.) Yr oedd y ddinas wedi ei hadeiladu ar fryniau, y rhai a amgylchynid gan fryniau ryw gymmaint yn uwch. Un o'r mynyddoedd o amgylch Jerusalem oedd mynydd yr Olewydd. Safai yr ochr Ddwyreiniol i'r ddinas, a dyffryn Jehosaphat yn gorwedd rhyngddynt, yn ngwaelod yr hwn y rhedai afon Cedron. Yr oedd Gethsemane yn gorwedd wrth odrau y mynydd, ar yr ochr oedd yn gwynebu Jerusalem; yr oedd y ffordd yn myned dros afon Cedron, ac yn ymranu wrth Gethsemane, un yn troi ar y ddeheu yr ochr Ddeheuol i'r mynydd, a'r llall yn myned yn fwy drosto, eithr yr oedd y ddwy yn cyfarfod drachefn yn Bethania, yr ochr arall i fynydd yr Olewydd. Mae yn lled debyg fod y dysgyblion yn dyfod yn awr ar hyd y ffordd feraf, dros y mynydd, i Jerusalem. Dywedir yma fod mynydd yr Olewydd "daith diwrnod Sabbath" o Jerusalem. Rhywbeth yn llai na'n milltir ni oedd taith diwrnod Sabbath—2,000 o'u llatheni hwy, a phob llathen yn cael ei hystyried yn chwe' lled llaw. Nid oedd hyd "taith diwrnod Sabbath" wedi ei sefydlu gan Dduw, ei orchymyn ef oedd, "Aroswch bawb gartref; nac aed un o'i le y seithfed dydd." (Ecsod. xvi. 29.) Casglodd yr Iuddewon oddiwrth rywbeth oedd yn nghyfraith y llofrudd y gallasent symmud y pellder o 2,000 o latheni. Yr oedd gan y dysgyblion, yn ol pob tebyg, ragor na thaith diwrnod Sabbath i ddychwelyd i Jerusalem, oblegyd ymddengys i'r Iesu esgyn o yn agos i Bethania, yr hwn oedd yr ochr arall i'r mynydd, heb fod yn mhell o ddwy filltir o Jerusalem.

Peth manteisiol ar rai ystyriaethau, ydyw meddu ychyd-

ig ffordd i fyned i addoli. Mae dyn yn cael hamdden i ymbarotôi wrth fyned i'r addoliad, a thrachefn i adfyfyrio wrth ddychwelyd. Mae lle i ofni mai cael eu cyfyngu yn ormodol i'r addoldy y mae ein defosiynau pan y mae y tai yn agos, a'r ymddyddanion yn aml yn myned yn rhy estronol i adeiladaeth grefyddol.

Dywedir yn Luc fod y dysgyblion yn dychwelyd gyda "llawenydd mawr." Deallent bellach fod esgyniad y Gwaredwr yn brawf ei fod yn Arglwydd ac yn Grist, er nad oeddynt eto yn cyflawn ddeall ei deyrnasiad. Yr oedd wedi addaw anfon addewid y Tad arnynt, teimlent y buasai hòno yn ddigon iddynt; dywedasai yr angylion hefyd y buasai yr un Iesu yn dyfod yr ail waith. Yn ngwyneb y pethau hyn, er fod tristwch wedi llanw eu calon unwaith, pan oedd Iesu yn son am eu gadael, dychwelent yn bresennol "gyda llawenydd mawr." Yr oedd y teimlad hwn yn un manteisiol i fyned i'r cyfarfod gweddi. Gwir fod crefydd yn gysur mewn trallod, ac yn falm at ein clwyfau, eto nid oes un sefyllfa fwy manteisiol i addoli na sefyllfa o lawenydd ysbrydol, pryd y bydd y meddwl yn ymdywallt mewn diolchgarwch, a'r galon yn gallu mwynhau Duw a'i bethau. Angeu i'n cysur a'n cynnydd crefyddol ydyw llawenydd pechadurus, ond bywyd ydyw llawenydd yn yr Ysbryd Glân. Pan y mae y meddwl yn y profiad hwn, mwynha ragor o hyfrydwch mewn cwrdd gweddi a chyfeillach, lle y mae yn dyfod i gyffyrddiad dedwydd â Duw ac â'i bobl, nag a wna mewn unrhyw foddion difyrwch a fedd y ddaear.

Yr oedd y dysgyblion yn dyfod oddiwrth Iesu Grist i'r cyfarfod gweddi. Pe gallem ninnau fyned at y Ceidwad cyn dyfod i'n cyfarfodydd gweddio, byddem yn fwy sicr o gael y Ceidwad yn bresennol ar ol myned iddynt.

Yr oedd y dysgyblion ar y ffordd i'r cyfarfod gweddi yn myned heibio Gethsemane, a thros afon Cedron; byddai yn sicr o roddi enneiniad ar ein gweddiau ninnau pe yr elem yn fynychach trwy ffydd heibio i lanerchau fel hyn ar ein ffordd i foddion gras.

II. Y lle yr oedd y cyfarfod gweddi yn cael ei gynnal. (adn. 12.)

Mae y "dyfod i mewn" yn golygu dyfod i mewn i'r ddinas. Tybiodd rhai oddiwrth ymadrodd sydd yn Efengyl Luc mai rhyw ystafell yn y deml a olygir yma. Dywedir

yno eu bod "yn wastadol yn y deml, yn moli ac yn bendithio Duw." Y meddwl yw eu bod yno yn fynych, yno ar yr adegau pennodedig i fod yno. Gellid dweyd am lawer yn ein dyddiau ni, heb i neb ein camddeall, "eu bod yn wastadol yn yr addoldy," deallai pawb mai yno ar adeg y moddion a feddylid. Yn hytrach, rhyw ystafell mewn tŷ a olygir, o bossibl yr un y buasai yr Iesu a'i ddysgyblion yn bwyta y Pasc ynddi; os felly yr oedd y lle yn llawn o adgofion tarawiadol iddynt. Yr oedd yn perthyn i'r tai yn y Dwyrain ystafelloedd ëang yn rhanau uwchaf y tai, weithiau y nesaf at nen y tŷ, pryd arall ar nen y tŷ, yn cael eu cysgodi oddiwrth y gwres gan ryw ddarpariaeth briodol. Ymddengys mai mewn ystafell felly yr oedd Paul yn tori bara yn Troas, pryd y syrthiodd y gwr ieuanc trwy y ffenestr o'r drydedd loft, yn yr hon yr oedd llawer o lampau. (Act. xx. 9.) Diau i'r Cristionogion boreuol gynnal miloedd o gyfarfodydd mewn ystafelloedd tebyg i hon. Buont am dymhor o dan erlidigaeth fel na allent adeiladu capelydd, pe buasai arnynt eisieu, ac felly yr oeddynt yn cario yr achos mawr yn mlaen fel y gallent ffoi o un ddinas i ddinas arall, a chaent yn mhob man rhyw gongl yn mha le y caent wenau helaethaf a phuraf y nefoedd. Nis gall fod dim o le mewn tŷ ëang a chyfleus i addoli, lle y gellir cael hyny; ond cofier mai cymmundeb o eneidiau crediniol yn byw trwy ffydd Mab Duw yw y cwbl o Gristionogaeth a gydnabyddir gan y Beibl. Os byddant hwy yn teimlo fod arnynt eisieu adeilad at eu gwasanaeth, mae cyflawn ryddid iddynt i'w gael, ond yr hyn y mae y nefoedd yn ofyn yw eneidiau wedi eu cyfiawnhau, wedi eu golchi, ac wedi eu santeiddio yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni. Mae crefydd bur wedi byw yn fras lawer gwaith, pryd nad oedd ganddi etifeddiaeth, nac oedd led troed, yn y byd yma; ac y mae lawer gwaith wedi marw yn y temlau mwyaf gorwych, a'r adeiladau mwyaf addurnedig.

III. Y rhai oedd yn y cyfarfod gweddi. (adn. 13, 14.)

Mae yn sicr, feddyliem, fod yno ragor na'r rhai a enwir yn y testyn, oblegyd cawn yn yr adnod nesaf fod nifer yr enwau yn yr un man, rai o'r dyddiau dilynol, "yn nghylch ugain a chant."

1. Yr oedd yr holl apostolion yma. (adn. 13.) Mae yn dda genym weled y frawdoliaeth apostolaidd yn fyw ac yn

iach ar ol y tywydd mawr yr oeddynt wedi bod ynddo. Oddeutu chwech wythnos yn ol yr ydym yn cael eu Meistr yn dweyd, "Chwi oll a rwystrir heno o'm plegyd i, canys ysgrifenedig yw, Tarawaf y bugail, a defaid y praidd a wasgerir." (Mat. xxvi. 31.) Fe'u gwasgarwyd, a buont oll mewn dyryswch dybryd hyd y trydydd dydd. Aeth Pedr i fwy o helbul na'r gweddill; yr oedd Thomas hefyd yn hynod o annghrediniol, ond daeth pethau i well goleu nos y trydydd dydd, pryd y dywedodd yr Iesu, "Tangnefedd i chwi," ac i well goleu drachefn yn mhen yr wythnos, pan ddywedodd Thomas, "Fy Arglwydd a'm Duw." Rhyw dymhor rhyfedd er hyny oedd tymhor y deugain niwrnod; nid oedd pethau yn ddealladwy a chlir i'r dysgyblion; ond yn awr dyma yr Iesu wedi myned at ei Dad fel y dywedasai, a'r angylion wedi boddloni meddyliau y dysgyblion fod pob peth yn iawn, ac wele hwy yn yr oruwchystafell yn dechreu cyfnod newydd: mae yn dda genym eu gweled wedi rhwyfo trwodd. Mae yma un bwlch er hyny: yr ydym wedi colli Judas yr hwn a elwid yr Iscariot! Mae rhywbeth yn alarus mewn gweled y deuddeg wedi myned yn un ar ddeg. Aeth Pedr yn mhell, ond daeth yn ol er hyny; bu Thomas yn hwy o wythnos nag y dylasai heb fwynhau ei Arglwydd adgyfodedig, ond y mae yntau yn nghwrdd gweddi yr oruwchystafell; nid oes yma neb wedi colli yn llwyr ond Judas. Gwyliwn yn ein crwydriadau oddiwrth Dduw a'i achos, rhag myned fel Judas yn rhy bell i ddyfod yn ol. Trwy drugaredd mae modd dychwelyd o lawer tir pell, ond mae modd myned am byth o'r golwg!

Mae yr un ar ddeg yn ddarlun tarawiadol o'r amrywiaeth sydd yn eglwys Dduw yn mhob oes. Rhyw dri o'r un ar ddeg sydd wedi dyfod i safle uchel ar faes y Testament Newydd, Pedr, Iago, ac Ioan. Tynwch eu henwau hwy ymaith, dyeithriaid, mewn cymhariaeth, yw y gweddill. Mae yma ereill y dywedir ychydig o bethau dymunol yn eu cylch, megys Andreas a Phylip, Bartholomew a Matthew, tra y mae ereill na ddywedir bron air yn eu cylch, ond yn unig eu bod yn mhlith y deuddeg. Yr oedd eisieu y cyfan; ni wnaethai y tro i'r oll fod yn Pedr nac yn Ioan, ond gyda eu gilydd llanwasant eu lle yn ardderchog. Mae amrywiaeth yn eglwys Dduw eto; mae eisieu pawb i mewn sydd yn wir ddysgyblion i'r Gwaredwr.

2. Y gwragedd. Mae yn ymddangos fod nifer o wrag-

edd yn mhlith y dysgyblion mwyaf ffyddlawn a feddai yr Arglwydd Iesu. Dichon mai Marc sydd yn dweyd helaethaf wrthym pwy oeddynt. (Marc xv. 40, 41.) Y maent yn cael eu dwyn i'r hanes yn fynych iawn yn nyddiau olaf Iesu Grist. Cawn hwy yn sefyll wrth y groes; wedi hyny yn sefyll o hirbell pan rwygwyd llen y deml, a'u natur fel wedi diffygio wrth deimlo dros eu Harglwydd; y maent wedi casglu nerth drachefn i fyned i'r angladd i weled "pa le y dodasant ef," ac y maent yn gyntaf wrth y bedd foreu y trydydd dydd, pryd y maent y rhai blaenaf i gyfarfod â'u Harglwydd yn fyw. Mae yn dda genym eu gweled hwythau yn nghyfarfod gweddi yr oruwchystafell. Buasai llawer cyfarfod gweddi a llawer cyfeillach yn eithaf eiddil oni buasai fod chwiorydd i'r gwragedd hyn mewn ymlyniad calon wrth y Gwaredwr.

3. Mair mam yr Iesu. Mae yn dda genym ei gweled hithau yn nghwrdd gweddi yr oruwchystafell, a dyma yr olwg ddiweddaf ydym yn gael arni. Mae pob golwg a gawn ar Mair yn peri i ni feddwl ei bod yn ddynes arddercbog. Mae hyny o grybwyllion sydd am dani yn rhoddi lle i gredu ei bod yn feddiannol ar feddwl hynaws, pwyllog, a duwiolfrydig. Os edrychwn arni yn siarad â'r angel, ac âg Elizabeth ei chares, yr ydym yn gweled y nodau hyn yn ymddangos. Yr adegau y mae yn ymddangos mewn cyssylltiad â'r Arglwydd Iesu, sef ar ei enedigaeth, adeg ei enwaediad, ei gyflwyniad, ei ffoedigaeth i'r Aipht, ei fynediad i Jerusalem yn ddeuddeg oed, y briodas yn Cana, pan yn holi am dano gyda'i frodyr, a phan yn sefyll wrth ei groes,—mae y cyfan yn peri i ni edrych arni fel un o ragorolion y ddaear. Ni buasai yn gysson i'r nefoedd neillduo neb ond un felly yn fam i Iachawdwr y byd.

4. Ei frodyr ef. Pwy oedd y rhai hyn nis gallwn yn awr wneyd ymchwiliad, ac yn wir dichon fod yn anmhossibl, gyda'r wybodaeth sydd genym, i ddyfod i unrhyw benderfyniad sicr yn eu cylch. Y mae tri syniad o barthed iddynt.

(1,) Mai plant Joseph o wraig flaenorol oeddynt.

(2,) Mai plant chwaer Mair oeddynt, ac felly cefndyr i'r Arglwydd Iesu. Fod perthynasau fel yna yn cael eu galw yn frodyr gan yr Iuddewon sydd sicr.

(3,) Mai plant Joseph a Mair oeddynt. Mae rhyw an-

hawsderau yn perthyn i bob un o'r syniadau, a hyny yn cyfodi yn ddiau oddiar ein gwybodaeth ranol ni o'r amgylchiadau.

IV. Ansawdd y cyfarfod gweddi.

1. Yr oedd pawb yn gweddio ynddo. "A'r rhai hyn *oll* oeddynt yn parhau yn gytun mewn gweddi." Nodwedd gogoneddus mewn cyfarfod gweddi ydyw bod pawb yn gweddio. Mae lle i ofni fod llawer sydd yn arfer gweddio yn annghofio eu bod yn proffesu bod yn gweddio yn mhob cyfarfod gweddio cyhoeddus y byddant ynddo. Nid pob un i weddio yn ei ffordd ei hun a feddylir, ond bod ein dymuniadau a'n diolchiadau yn esgyn gyda y weddi gyhoeddus at orsedd gras.

2. Yr oedd dyfalbarhad yn eu gweddiau. "Y rhai hyn oll oeddynt yn *parhau* mewn gweddi." Dengys yr ymadrodd hwn eu taerineb ger bron Duw. Yr oedd gweddio yn eu cyfarfod gweddi ar ei hyd, ac wedi i un cyfarfod fyned trosodd, yr oeddynt yn meddwl am y nesaf. O! mor rymus ydyw cael cynnulleidfa o saint yn parhau mewn gweddi. Fe orchfyga bob rhwystr, ac fe gyrhaedda bob amcan ag y mae Duw o'i blaid.

3. Yr oedd undeb teimlad yn teyrnasu yn mhlith y gweddiwyr. Parhaent yn gytun mewn gweddi. Yr oeddynt o un galon ac un enaid yn y gwaith, a chofiwn nad oedd y dysgyblion yr adeg hòno, mwy na rhyw adeg arall, heb fod llawer o amrywiaeth yn eu plith, ond nid oedd hyny yn un rhwystr iddynt fod yn un yn eu hysbryd ger bron gorsedd gras. Yr oedd yno amrywiaeth talentau, o Pedr, Iago, ac Ioan, hyd y gwanaf a'r lleiaf yn y lle, ond yr oeddynt oll yn cydgyfarfod yn y cwrdd gweddi. Yr oedd amrywiaeth yn eu tymherau naturiol; mae yn debyg iawn fod Mair ostyngedig a Martha drafferthus yno, ond yr oedd y ddwy yn gytun mewn gweddi. Yr oeddynt wedi bod o wahanol gymmeriadau cyn dyfod at Fab Duw. Yr oedd y bechadures fawr, a Mair mam yr Iesu yno, ond yr oeddynt mor agos a'u gilydd at yr Arglwydd. Yr oedd Pedr y gwadwr, a Ioan y dysgybl anwyl, yn cyd-dywallt eu henaid yn yr oruwchystafell. Mae pob cynnulleidfa o bobl eto yn wahanol eu tymherau naturiol, ac yn wahanol eu hanes yn myned trwy y byd, ond os byddant yn wir ddysgyblion i'r Iesu, gallant gydgyfarfod yn gytun mewn gweddi. Bydd yn y nefoedd bob amrywiaeth o blant dyn-

ion wedi eu cyfiawnhau trwy yr un drefn, a'u santeiddio trwy yr un Ysbryd, eto yn cyfansoddi amrywiaeth tragywyddol o fawl i Dduw a'r Oen.

Ni ddywedir am beth yr oeddynt yn gweddio. Gweddient mewn ymostyngiad i ewyllys Duw, a golwg ar ei ogoniant. O! am gyfarfodydd gweddio fel hwn, byddai Pentecost yn sicr o ddilyn!

---

# DARLITH VII.

ACT. I. 15—26.

15. ¶ Ac yn y dyddiau hyny Pedr a gyfododd i fyny yn nghanol y dysgyblion,[1] ac a ddywedodd, (a nifer yr enwau[2] yn yr un man oedd yn nghylch ugain a chant,)

16. *Ha* wŷr[3] frodyr, yr oedd yn rhaid cyflawni yr Ysgrythyr yma[4] a ragddywedodd yr Ysbryd Glân trwy enau Dafydd am Judas, yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddaliasant yr Iesu:

17. Canys efe a gyfrifwyd gyda ni,[5] ac a gawsai ran[6] o'r weinidogaeth hon.

18. A hwn a bwrcasodd faes â gwobr anwiredd; ac wedi ymgrogi,[7] a dorodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan.

19. A bu hysbys hyn i holl breswylwyr Jerusalem, hyd oni elwir y maes hwnw yn eu tafod priodol hwy,[8] Aceldama, hyny yw, Maes y gwaed.

20. Canys ysgrifenwyd yn llyfr y Salmau, Bydded ei drigfan ef yn ddiffaethwch, ac na bydded a drigo ynddi; a chymmered arall ei[9] esgobaeth ef[10]

21. Am hyny y mae yn rhaid,[11] o'r gwŷr a fu yn cydymdaith â ni yr holl amser yr aeth yr Arglwydd Iesu i mewn ac allan yn ein plith[12] ni,

22. Gan ddechreu o fedydd Ioan hyd y dydd y cymmerwyd[13] ef i fyny oddi wrthym ni, bod un o'r rhai hyn gyda ni yn dyst o'i adgyfodiad ef.

23. A hwy a osodasant ddau ger bron, Joseph, yr hwn a enwid Barsabas, ac a gyfenwid Justus, a Matthias.

24. A chan weddio, hwy a ddywedasant, Tydi, Arglwydd, yr hwn a wyddost galonau pawb, dangos pa un o'r ddau hyn a etholaist,

25. I dderbyn rhan o'r weinidogaeth hon,[14] a'r apostoliaeth, o'r hon y cyfeiliornodd Judas, i fyned i'w le ei hun.

26. A hwy a fwriasant eu coelbrenau[15] hwynt: ac ar Matthias y syrthiodd y coelbren; ac efe a gyfrifwyd gyda'r un apostol ar ddeg.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

1 Pedr a gyfododd i fyny yn nghanol y brodyr, ac a ddywedodd, (ac yr oedd tyrfa o bersonau *wedi ymgynnull* yn nghyd, yn nghylch ugain a chant.)—C. D.

2 Gr., enwau.—Y. D.

3 Frodyr, yr oedd yn rhaid cyflawni, &c.—C. D.

4 Yn cael ei arwain gan yr Ysbryd Glân, y mae Pedr yn canfod yn ngeiriau y ddwy Salm y cyfwng arbenig o ddifrifol hwn yn hanes Crist yn cael ei rag-gys-

godi yn amlwg; a gwel ynddynt hefyd archiad i fyned yn mlaen i ethol un arall i wneyd i fyny nifer y deuddeg.—SPENCE.

[5] Canys efe a gyfrifwyd yn ein plith ni, ac a dderbyniodd ei ran yn y weinidogaeth hon.—C. D.

[6] Neu, ei goelbren.—Y. D.

[7] A chan syrthio i lawr ar ei wyneb, efe a dorodd yn ei ganol.—C. D. a J. W.

[8] Aramaeg, yr Hebraeg dirywiedig, a leferid yn Mhalestina yn nyddiau ein Harglwydd.—LINDSAY.

[9] A chymmered arall ei swydd ef.—C. D. Neu, arolygiaeth.—Y. D.

[10] Mae yr hyn a briodola Dafydd yma i'w elyn marwol, yn cyfarfod ei gyflawniad yn mradychwr Mab Dafydd.—GLOAG.

[11] Rhaid iddynt hwy, yr apostolion, gyflwyno eu hunain i'r bobl yn eu cyfanrwydd arwyddocâol, fel wedi eu hanfon at ddeuddeg llwyth Israel; a rhaid i'r bwlch oedd wedi ei wneyd gan y bradychwr, gael ei lenwi gan un wedi ei gymhwyso fel yr oeddynt hwythau. i ddwyn tystiolaeth o'r hyn oedd wedi ei ddweyd neu ei wneyd gan ein Harglwydd yn ystod ei weinidogaeth, ac uwchlaw y cyfan, o'i adgyfodiad oddiwrth y meirw.—PLUMPTRE.

[12] Yr aeth yr Arglwydd Iesu i mewn, ac yr aeth allan drosom ni.—Y. D.

[13] Derbyniwyd ef i fyny.—C. D. Buasai y dyn a ddaethai i fyny â'r telerau hyn, yn debyg o fod yn gymhwys i lenwi y swydd, yn fewnol ac yn allanol.

[14] I gymmeryd y lle yn y weinidogaeth a'r apostoliaeth hon, o'r hwn y syrthiodd Judas ymaith, fel y gallai fyned i'w le ei hun.—C. D.

[15] Ysgrifenid pob un o'r enwau ar gareg neu bren, yna rhoddid hwy mewn math o gist fechan, a'r enw a ddeuai allan gyntaf wrth ysgwyd y gist, a fyddai wedi ei ddewis. (Num. xvii. 1—3. Jos. xvi. 2. 1 Chron. xxiv. 5. xxv. 9.)

## ETHOL APOSTOL YN LLE JUDAS.

Cawn yn yr adnodau hyn hanes cyfarfod sydd ar ei ben ei hun yn hanes eglwys Iesu Grist—cyfarfod i ddewis apostol. Bu llawer o gyfarfodydd i ethol gweinidogion a diaconiaid, ond ni bu ond un erioed i ethol apostol. Cynaliwyd ef rywbryd rhwng esgyniad yr Arglwydd Iesu a dydd y Pentecost; mae yn debyg mai y lle y cynaliwyd ef oedd yr oruwchystafell, lle y cawn y dysgyblion yn yr adnodau o'r blaen yn gytun mewn gweddi. Nifer y rhai oedd yn y cyfarfod oedd yn nghylch ugain a chant. Dichon mai rhyw nifer felly o ddysgyblion oedd gan yr Arglwydd Iesu ar y pryd yn Jerusalem a'i hamgylchoedd. Yr oedd ganddo ragor yn Galilea, oblegyd gwelwyd ef yno gan ragor na phum' cant brodyr ar yr un waith.

I. Annerchiad Pedr i'r dysgyblion.

1. Yr hyn a ddywed am Judas. (adn. 16, 17. 20.)

(1,) Y peth a fu Judas. (adn. 17.) Yr oedd wedi bod yn cael ei restru gyda'r deuddeg, ac yn cael ei ystyried yn apostol fel hwythau. Yr oedd wedi bod yn drysorydd i'r frawdoliaeth, ac yn ddyn o ymddiried yn eu plith. Mae yn debyg nas gwyddom ond rhai o'r rhesymau oedd gan yr Arglwydd Iesu wrth ddewis Judas yn apostol, ac yntau ar yr un pryd yn gwybod calonau pawb. Bu diwedd Judas yn foddion i ddangos nad oedd dim o le wedi bod yn hanes Iesu Grist. Nid oes dim rhyw lawer o ddrwg yn cael ei

wneyd yn eglwys Dduw eto, neu byddai yn ddigon hysbys; mae digon o elynion i grefydd wedi bod yn yr eglwys yn mhob oes o'r byd.

(2,) Yr hyn a wnaeth Judas. (adn. 16.) Mae Pedr yn son am bechod Judas yn fwy tyner nag y buasem yn dysgwyl i frawd brwd fel efe. Dichon fod adgof o'r hyn yr oedd efe ei hunan wedi wneyd yr un noswaith yn lleddfu ei ddarluniad o bechod Judas. Eto mae ei eiriau yn briodol ac yn gryfion, maent yn ddarluniad cywir o hanes noswaith y bradychu.

(3,) Y brophwydoliaeth a gyflawnwyd ynddo. (adn. 16. 20.) Yr Ysgrythyr y cyfeirir ati yn adn. 16. yw yr un a ddyfynir yn adn. 20. Mae yma ddyfyniad o ddau fan yn Llyfr y Salmau lxix. 25. a cix. 8.; un yn cael ei chymhwyso at Judas, a'r llall at eu dyledswydd hwythau mewn canlyniad. Nid yw Judas yn cael ei enwi yn y naill le na'r llall; darlunir cymmeriadau ac egwyddorion, a chan i Judas lenwi y cymmeriad a osodir allan, cymhwysir yr Ysgrythyrau hyn ato.

Yn adn. 18, 19. cawn nodiad hanesyddol gan Luc am Judas. Math o adnodau rhwng cromfachau yw y rhai hyn. Gellid darllen yr adnodau ereill a chael eithaf synwyr wedi eu gadael allan. Y maent er hyny yn cynnwys hysbysiaeth ddyddorol i ddarllenwyr yr Actau, er na buasai ar wrandawyr Pedr eu heisieu, gan eu bod yn eu gwybod. Ni feddylir mai Judas a brynodd y maes ei hun, eithr mai efe fu yr achos o'i bryniad, oblegyd yr archoffeiriad a'i prynodd â'r deg ar hugain arian a daflodd Judas yn ol. Mae ein cyfieithiad ni yn gyfeiliornus yn y geiriau, "ac wedi ymgrogi;" dylai fod fel y cyfieitha J. W., "A chan syrthio ar ei wyneb, efe a dorodd yn ei ganol." Mae yn debyg mai meddwl am eiriau Matthew yr oedd ein cyfieithwyr, dywedir yno "ac efe a aeth ac a ymgrogodd." Ond nid oes un annghyssondeb rhwng y ddau hanesydd. Mae yn ymddangos oddiwrth y ddau, i Judas grogi ei hun, ac i'r rhaff dori, neu i'r hyn a'i daliai roddi ffordd, ac iddo yntau yn y codwm i dori yn ei ganol. Yn ol Matthew galwyd y maes hwnw yn Aceldama, gair Syro-Caldeaidd am faes y gwaed, o herwydd fod gwerth gwaed wedi ei roddi am dano. Buasid yn meddwl yma iddo gael ei alw felly o herwydd i waed Judas gael ei dywallt ynddo, er y goddef yr adnodau hyn yr ystyr arall hefyd. Dichon fod y ddau

reswm dros ei alw yn Aceldama; os felly, rhyw gydgyfarfyddiad difrifol oedd gweled Judas yn marw ac yn cael ei gladdu yn y maes a brynwyd â'r arian a gawsai efe am ei Arglwydd.

2. Y cynllun a gynnygia Pedr yn ngwyneb gwrthgiliad Judas. (adn. 21, 22.)

(1,) Neillduo rhyw frawd i'r apostoliaeth yn ei le. (adn. 22.) Mae rhai wedi meddwl fod y cynnygiad hwn yn anamserol, ac nad oedd neb ond Iesu Grist ei hun i ymyraeth mewn dewis apostol, a thybiant i'r Arglwydd Iesu lenwi y bwlch yn ngalwedigaeth Saul o Tarsus. Pa fodd bynag, mae llawer i'w ddweyd dros feddwl fod cynnygiad Pedr yn iawn. Yr oeddynt yn awr, i ryw raddau o leiaf, o dan ddylanwadau yr Ysbryd Glân; yr oedd Iesu Grist wedi anadlu arnynt, gan ddywedyd, "Derbyniwch yr Ysbryd Glân." Yr oeddynt hefyd yn cario y gwaith yn mlaen yn yr ysbryd mwyaf defosiynol a phwyllog; gwnaed ef yn ystod y dyddiau yr oeddynt oll yn "gytun mewn gweddi ac ymbil." Yr oedd yr ysbryd hwn yn un manteisiol iawn i beidio cyfeiliorni ynddo. Mewn prinder teimladau addolgar y mae y rhan fwyaf o gyfeiliornadau yn cyfodi. Nid ydym yn clywed gair i'r apostolion alw eu gwaith yn ol wedi tywalltiad mwy helaeth o'r Ysbryd ar y Pentecost, yr hyn, ni a dybiwn, a wnaethent pe buasent wedi camgymmeryd. Nid ydyw yn debyg ychwaith y buasai Luc yn cofnodi yr amgylchiad yn mhen blynyddoedd, heb roddi rhyw awgrym ei fod allan o le, pe buasai hyny yn bod. Buasai Paul hefyd wrth amddiffyn ei apostoliaeth yn ei Epistolau yn debyg iawn o gofnodi y ffaith ei fod wedi ei alw gan Grist yn lle Judas pe hyny fuasai y ffaith. Yn hytrach nid yw ef byth yn son am dano ei hun fel un o'r deuddeg, ond bob amser fel apostol y Cenedloedd. Mae y ffigyrau a ddefnyddir yn Dad. xxi. 10—14. i osod allan y Jerusalem santaidd, wedi eu cymmeryd oddiwrth y trefniad Iuddewig. Enwau deuddeg llwyth Israel oedd ar byrth y ddinas, ac enwau deuddeg apostol yr Oen oedd ar y deuddeg sylfaen. Mae y Cenedloedd allan o'r ffigyrau, ac y mae Apostol y Cenedloedd allan yr un fath.*

---

* "Mae rhai yn ystyried fod yr apostolion wedi gweithredu yn fyrbwyll yn hyn; eu bod wedi gwneyd peth oedd yn groes i ewyllys Duw; fod yn mwriad yr Arglwydd i lanw lle Judas trwy alw Saul o Tarsus. Dyma olygiad Stier, &c. Ond ymddengys i ni fod y dyb yn hollol ddisail. Nid oes yma yr awgrym lleiaf

(2,) Y cymhwysder oedd i fod yn y brawd oedd i'w ddewis. (adn. 20, 21.) Yr oedd yn rhaid iddo fod wedi dilyn yr Arglwydd Iesu a'i ddysgyblion yn fanwl, a hyny ar hyd ei weinidogaeth, o fedydd Ioau hyd esgyniad y Gwaredwr.

(3,) Y gwaith oedd i'r apostol a wneid i'w gyflawni. "Bod un o'r rhai hyn gyda ni yn dyst o'i adgyfodiad ef." (adn. 22.) Dyma oedd tystiolaeth fawr yr apostolion. Gyda hon yr oedd pob peth i sefyll neu syrthio. Yr oedd yn bwysig cael un yn meddu cymhwysder i ddwyn y dystiolaeth hon, oblegyd yr oedd i ddwyn erlidigaeth, a charcharau, ac angeu ar y tystion. Nid oedd neb a fuasai yn parhau yn eu tystiolaeth ond rhai oedd yn llwyr argyhoeddedig o'i gwirionedd.

Terfyna annerchiad Pedr wedi dangos nad oedd ymddygiad Judas yn beth newydd i ysbrydoliaeth, ac fod modd gwneyd y bwlch i fyny trwy ethol un arall i gyflawni nifer y tystion.

II. Gweithrediadau y dysgyblion mewn canlyniad.

Cymmerwyd cynnygiad Pedr i fyny yn unfrydol gan y dysgyblion. Pe na buasai y cynnygiad yn iawn, damwain na fuasai rhai o honynt yn meddwl hyny. Nid yn fynych y mae yr un cyfeiliornad wedi ei gofleidio yn unfrydol ar y

---

o anghymmeradwyaeth Duw i'r peth. Nid yw y ddadl oddiwrth ddystawrwydd y Testament Newydd am ddefnyddioldeb Matthias ar ol ei ddewisiad yn meddu dim grym; oblegyd y mae yr un mor ddystaw am y rhan fwyaf o'r apostolion—mor ddystaw fel na chrybwyllir eu henwau gymmaint ag unwaith. Ac am yr wrthddadl oddiwrth alwad dilynol Paul, nid oes ynddi hithau ddim grym; oblegyd yn 1. Er fod yr enw 'deuddeg llwyth' yn cael ei gadw trwy yr oesoedd mewn cyssylltiad âg Israel, eto yr oedd mwy na deuddeg llwyth mewn gwirionedd. Yr oedd llwyth Joseph wedi ymranu i ddau lwyth. Felly hefyd, er mai deuddeg apostol a neillduwyd ar y cyntaf, gallasai chwanegiad gael ei wneuthur at y nifer hwn, fel gyda'r amgylchiad arall. Ond yn 2. Nid edrychai Paul arno ei hun yn un o'r deuddeg. Mae yn hytrach yn gwahaniaethu ei hun oddi wrthynt. Wedi son am 'yr holl apostolion,' fel rhai yr ymddangosai Crist wedi ei adgyfodi iddynt, dywed, 'Ac yn ddiweddaf oll y gwelwyd ef genyf finnau hefyd, megys gan un annhymmyg.' (1 Cor. xv. 8.) Edrycha ar yr apostolion fel teulu cyfan; ac yntau, mewn adeg anamserol, ac fel y gwaelaf o honynt, wedi ei chwanegu atynt. Nid oedd efe yn perthyn iddynt hwy y deuddeg; nid edrychai arno ei hun fel un wedi ei ddwyn i mewn i gwblhau y nifer: apostolion yr enwaediad oeddynt hwy, ond apostol y Cenedloedd oedd efe. Gan fod gan yr Apostol Paul, fel y gellid meddwl, gymmaint o law yn nghyfansoddiad Llyfr yr Actau, nis gellir meddwl y rhoddid cymmaint o le ynddo i alwad Matthias, oni buasai ei fod yn ystyried ei fod mewn gwirionedd wedi ei osod yn esgobaeth Judas, a'i fod yn apostol mor wirioneddol ag yr oedd yr un ar ddeg."—TESTAMENT YR YSGOL SABBATHOL. Gwel hefyd draethawd dysgedig Dr. Lightfoot yn niwedd ei esboniad ar y bennod gyntaf o'r Galatiaid ar "Enw a Swydd Apostol;" a sylwadau Dr. David Brown yn niwedd ei esboniad ar Act. xiv. Nid yw etholiad Matthias yn un sail i'r peth a elwir yn Olyniaeth Apostolaidd.

dechreu, ond yma mae cynnygiad Pedr yn cael ei gario allan heb i neb wrthwynebu.

1. Y maent yn gosod dau ger bron. (adn. 23.) Y maent yn derbyn y darluniad a roddasai Pedr o'r cymhwysderau gofynol, ac y maent yn cydweled fod yno ddau yn meddu ar y cymhwysderau hyny, yn fwy na neb arall yn eu plith. Diau mai gwaith yr holl ddysgyblion oedd gosod y ddau hyn ger bron. Ystyrient hefyd fod y gallu ynddynt hwy eu hunain, o dan gyfarwyddyd eu Harglwydd, i gario y gwaith yn mlaen.

2. Maent yn myned at yr Arglwydd mewn gweddi i geisio cyfarwyddyd. (adn. 24, 25.) Dengys hyn fod y dysgyblion mewn agwedd iach iawn yn eu gwaith. Yr unig beth oedd arnynt eisieu oedd cael gafael yn y dyn ag oedd Duw wedi ei ddewis. Nid oedd dim ystyriaethau personol yn cael ymyraeth â'u gwaith, na, etholedig yr Arglwydd oedd i fod eu hetholedig hwythau.

Wrth yr Arglwydd yma, yr ydym i ddeall yr Arglwydd Iesu, fel y rhan fynychaf yn y Testament Newydd pan yn cael ei arfer fel hyn. Cydnabyddir fod gan Iesu Grist fantais i ddewis arnynt hwy. "Yr hwn a wyddost galonau pawb." Mor hawdd ydyw iddo ef nodi allan offerynau cymhwys at ei waith. Edrychir ar yr Arglwydd hefyd fel wedi penderfynu ar wrthddrych ei ddewisiad, y cwbl oedd arnynt eisieu oedd gwybod pwy oedd hwnw, "dangos pa un o'r ddau hyn a etholaist." Mae yn adn. 25. engraifft o beth a geir yn fynych yn y Beibl, dau air yn golygu yr un peth, "I dderbyn rhan o'r weinidogaeth hon a'r apostoliaeth." Y "weinidogaeth apostolaidd" yw yr ystyr.

Dywedir yma air difrifol am y bradychwr, "O'r hon y cyfeiliornodd Judas i fyned i'w le ei hun." Mae rhyw le i bawb, ac er y gall dyn fod yn hir o'i le, eto ni bydd pethau wedi gorphwyso nes y byddo pob un yn ei le ei hun. Fel y mae y wreichionen yn ehedeg i fyny, ac fel y mae yr afon yn rhedeg i'r môr, felly y mae pob dyn yn ymweithio i'w le ei hun.

3. Mae y dysgyblion yn arfer moddion i gael gwybod pwy oedd etholedig yr Arglwydd. Nid yw yn hawdd gwybod yn fanwl pa fodd yr oedd y dysgyblion yn gwneyd yr hyn a elwir yma yn fwrw coelbren, ond mae yn eglur mai rhyw ffordd o wneyd yr hyn a elwir yn *dynu lots* ydoedd, ac ymddiriedai y dysgyblion y buasai i law yr

Arglwydd lywodraethu eu gwaith, fel ag i ddangos iddynt yr hwn a etholasai. Yr oedd y dysgyblion fel hyn yn gosod y gwaith o nodi ei etholedig i'r Arglwydd; yr oeddynt am i'r deuddegfed apostol gael ei anfon gan yr hwn a'u hanfonodd hwythau. "Ac ar Matthias y syrthiodd y coelbren, ac efe a gyfrifwyd gyda'r un apostol ar ddeg." Os collwyd Judas, dyma ei le wedi ei wneyd i fyny, a'r bwlch wedi ei lanw.

Crybwyllion ac awgrymiadau:—

1. Dengys yr hanes a fu o dan ein sylw fod gwir frawd a fyddo wedi ei oddiweddyd gan ryw fai yn cael adferiad buan i fynwes ei frodyr. Dyma Pedr yn cyfodi yn nghanol y dysgyblion i gynnyg ei gynllun o barthed i'r deuddegfed apostol, a dyma yr holl ddysgyblion yn ei dderbyn. Mae yn deilwng o sylw hefyd fod Pedr yn teimlo fod ei feddwl ei hun wedi ei wellhau cyn y gallasai fyned yn mlaen fel hyn. Rhyfedd, fel y sylwa un, fel y daw meddwl fyddo yn iawn yn y gwaelod i fyny o bob gwrthgiliad. Os aeth Pedr i lawr, yr oedd yn ei enaid elfenau na allasent fyw heb ddyfod i fyny drachefn. Yr oedd yn hawdd iawn i'r brodyr dderbyn Pedr. Yr oedd Ioan yn dyst ei weled yn myned allan gan wylo yn chwerw-dost. Pan y mae edifeirwch dyn mor eglur a'i bechod, gorchwyl hawdd i bob Cristion ydyw maddeu iddo. Yr oedd Pedr wedi dangos pob ffyddlondeb hefyd byth ar ol ei gwymp; nid rhyw ddychwelyd a sefyll o hirbell a wnaeth, eithr dangosai fod ei galon gyda'r dysgyblion, nes yr oeddynt oll yn teimlo mai brawd o'r iawn ryw ydoedd. Yr oeddynt hefyd wedi cael digon o brawfion fod yr Iesu wedi ei dderbyn.

2. Mae yn yr hanes gymhwysder i'n dwyn i holi ein hunain. Nid ydyw bod yn y sefyllfa uwchaf o ran swydd yn eglwys Dduw yn profi beth ydym. Gwelwyd Judas yn apostol ac yn ddiafol ar yr un pryd. Gwell cadw drws yn nhŷ Dduw, a bod yno yn iawn, na bod yn y cylch ëangaf yn dwyllodrus. Nid oedd dim llawer er pan welwyd Mair wylaidd yn tori ei blwch ennaint o nard gwlyb gwerthfawr i enneinio traed yr hwn oedd hoff gan ei henaid, gan eu sychu â gwallt ei phen. Yn ymyl yr oedd Judas, yr apostol y pryd hwnw, yn grwgnach gyda llais hyderus, nes peri blinder i'r wraig; curai ei chalon gywir yn gynt wrth glywed trysorydd y gymdeithas apostolaidd yn ei beio. Ond erbyn dyfod i hanesion y bennod hon gwelwn Mair yn

yr oruwchystafell gyda'r dysgyblion yn gytun mewn gweddi, a Judas wedi myned i'w le ei hun! Y mae llawer Cristion yn llechu yn ddigon disylw gan y byd, ond sydd anwyl gan Iesu, ac a welir yn hardd ei wedd ac yn uchel ei gân, pan y bydd llawer y tybid eu bod yn golofnau wedi myned i'w lle eu hun!

---

# DARLITH VIII.

ACT. II. 1—13.

1. Ac wedi dyfod[1] dydd y Pentecost, yr oeddynt hwy oll yn gytun[2] yn yr un lle.[3]

2. Ac yn ddisymwth y daeth sŵn o'r nef, megys gwynt[4] nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd.

3. Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig[5] megys o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt.

4. A hwy oll a lanwyd â'r Ysbryd Glân, ac a ddechreuasant lefaru â thafodau ereill, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd.

5. Ac yr oedd yn trigo yn Jerusalem, Iuddewon, gwyr bucheddol, o bob cenedl dan y nef.[6]

6. Ac wedi myned y gair o hyn,[7] daeth y lliaws yn nghyd, ac a drallodwyd, o herwydd bod pob un yn eu clywed hwy yn llefaru yn ei iaith ei hun.

7. Synodd hefyd ar bawb, a rhyfeddu a wnaethant, gan ddywedyd wrth eu gilydd, Wele, onid Galileaid[8] yw y rhai hyn oll sydd yn llefaru?

8. A pha fodd yr ydym ni yn eu clywed hwynt bob un yn ein hiaith ein hun, yn yr hon y'n ganed ni?

9. Parthiaid, a Mediaid, ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, a Judea, a Chappadocia, Pontus, ac Asia,

10. Phrygia, a Phamphylia, yr Aipht, a pharthau Libya, yr hon sydd ger llaw Cyrene, a dyeithriaid o Rufeinwyr,[9] Iuddewon, a phroselytiaid.

11. Cretiaid, ac Arabiaid, yr ydym ni yn eu clywed hwynt yn llefaru yn ein hiaith ni fawrion weithredoedd Duw.[10]

12. A synasant oll, ac a ammheuasant, gan ddywedyd y naill wrth y llall, Beth a all hyn fod?

13. Ac ereill, gan watwar, a ddywedasant, Llawn o win melus[11] ydynt.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] Yn cael ei gyflawni.—Y. D.

[2] A phan oedd dydd y Pentecost yn awr wedi dyfod, yr oeddynt oll yn nghyd mewn un lle.—C. D.

[3] Yr oruwchystafell, mae yn debyg, a nodir yn pen. i. 13.

[4] Mae y gwynt yn arwyddlun adnabyddus o'r Ysbryd. (Esec. xxxvii. 9. Ioan iii. 8. xx. 22.) Eithr nid rhuthr o wynt gweithredol oedd hwn; nid ydoedd ond sŵn *megys* hyny.—D. BROWN.

[5] Yn ymwahanu oddiwrth eu gilydd.—C. D. Neu, yn ymwahanu yn eu plith. Neu, yn dosbarthu eu hunain.—Y. D. O ran lliw ymddangosai y tafodau hyn fel tân, ac o ran llun fel tafodau.—CYNDDELW. Tybia Plumptre eu bod fel cawod

o fflamau gwahanedig, ac un o honynt yn aros ar ben pob un o'r dysgyblion. Nid ydym i olygu fod yma dân llythyrenol, mwy na gwynt llythyrenol.

[6] Yr oedd tri dosbarth o Hebreaid gwasgaredig:—1. Y rhai a gymmerwyd yn gaethion gan Shalmaneser, (C.C. 721.) y rhan liosocaf o ba rai oeddynt yn Parthia, Media, ac Elamitis. 2. Gan Nebuchodonosor, (C.C. 606.) y rhai oeddynt yn benaf yn Mesopotamia. 3. A chan Ptolemy Lagus, (C.C. 329.) yr hwn a gymmerodd drigolion Jerusalem ymaith i'r Aipht. Yn ychwanegol at y rhai hyn, yr oedd nifer mawr o Iuddewon wedi sefydlu mewn amrywiol wledydd, yn neillduol yn maelorfäu mawrion trafnidiaeth.—COOK.

[7] A phan glybuwyd y sŵn hwn.—C. D. Diau i'r "sŵn megys gwynt nerthol yn rhuthro" gael ei glywed dros yr holl ardal, a thebygol, fel yr awgryma Alford yn briodol, dros holl Jerusalem. Mabwysiedir yr ystyr hwn i'r geiriau gan Meyer, Lange, Alford, Hackett, a Gloag.—SPENCE.

[8] Nid yw "Galileaid" yn y lle hwn yn dynodi dirmyg, nac yn arwyddo dysgyblion yr Iesu; ond arwydda frodorion o'r parth hwnw o'r wlad, mewn cyferbyniad i frodorion o bob parth oedd yn eu gwrandaw yn llefaru.—CYNDDELW.

[9] Ymdeithwyr o Rhufain.—C. D.

[10] Yn y darluniad uchod o ddygwyddiadau dydd y Pentecost, y mae y meddwl a amcana Luc gyfleu yn hynod glir yn mhob ystyr, ond yn unig na allwn gasglu oddi wrtho yn sicr a oedd y dysgyblion, yn gystal a llefaru ieithoedd newyddion, hefyd yn deall yr hyn a lefarent. Ymddengys y peth mwyaf rhesymol i gasglu fod yr Ysbryd Glân gyda y naill allu yn cyfranu y llall hefyd; gallasai fod felly yn amgylchiad y dysgyblion ddydd y Pentecost, hyd y nod pe na buasai felly ar adegau ereill, ac o dan amgylchiadau ereill. Yr unig Ysgrythyr sydd yn taro ar yr ymofyniad yw 1 Cor. xii. 10—xiv. 30.—LUMBY.

[11] Newydd.—C. D. Gwin a wneid mewn ffordd arbenig, yr hwn ydoedd yn neillduol o feddwol.

## DYFODIAD YR YSBRYD GLAN.

Rhyfedd mor ddystaw a fu y dysgyblion ar ol adgyfodiad yr Arglwydd hyd y cyfnod a gofnodir yn y bennod hon. Yn ystod y deugain niwrnod y bu yr Iesu gyda hwynt, nid ydynt yn gwneyd unrhyw gynhwrf, nac mewn un modd yn cyhuddo yr awdurdodau na'r bobl am yr hyn oeddynt wedi gyflawni. Wedi i'r Iesu esgyn drachefn, y maent yr un mor dawel gyda'u gilydd mewn gweddi ac ymbil yn yr oruwchystafell. Ond yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn ei le. Nis gallasai y dysgyblion wneyd yn well yn ystod y deugain niwrnod na gwrandaw ar eu Harglwydd yn "dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw." A chyda golwg ar y cyfnod ar ol hyny, yr oedd yr Iesu wedi dweyd, "Ac wele, yr ydwyf yn anfon addewid fy Nhad arnoch: eithr aroswch chwi yn ninas Jerusalem, hyd oni wisger chwi â nerth o'r uchelder." (Luc xxiv. 49.) Gan fod y dysgyblion yn dilyn cyfarwyddyd eu Hathraw, nid oedd perygl i bethau fyned yn mhell o'u lle. Ni buasai yn ddoeth iddynt ddechreu ar eu gwaith mawr heb fod mewn mantais i'w ddechreu yn iawn. Mae o bwys i bob anturiaeth pa fodd y dechreuir hi; a chan fod gan ddysgyblion y Gwaredwr gwyn mor bwysig yn erbyn y rhai a laddasant "Dywysog y bywyd," a chenadwri mor bwysig at y byd yn gyffredinol, yr oedd o bwys iddynt fyned at eu gwaith

mewn gwroldeb, penderfyniad, a nerth. Iawn y gwnaethant gan hyny i aros yn ddystaw nes cael arwydd o'r nef fod yr amser wedi dyfod. Mae symmudiadau pwysig yn gyffredin yn meddu hynodrwydd yn amgylchiadau eu cychwyniad, yr hyn sydd yn gosod grym a phwysau ynddynt, i fyw mewn ystormydd a pheryglon. Yr oedd y pethau mawrion yn yr Aipht, y pethau rhyfedd yn nhir Ham, a'r pethau ofnadwy wrth y Môr Coch, yn gosod pwysigrwydd parhaus yn hanes cenedl Israel. Yr oedd yn anghenrheidiol i eglwys Iesu Grist hefyd gael ei sefydlu yn nghanol pethau digon grymus i'w gosod ar safle gadarn yn y byd, pethau a fuasent yn rhoddi grym ynddi rhag cael ei gwasgu i farwolaeth gan lid a malais ei gelynion. Cafwyd pethau felly ar ddydd y Pentecost, a chyfodwyd pen eglwys Dduw mewn un diwrnod, fel na ellir byth ei gael i lawr. Cychwynwyd Cristionogaeth mewn amgylchiadau sydd wedi ei gwneyd yn anmhossibl i byrth uffern ei gorchfygu. Yr oedd Iesu Grist wedi rhoddi lle i'r dysgyblion i ddysgwyl pethau mawrion ar gychwyniad ei deyrnas; "Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Ysbryd Glân wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, ac yn Samaria, ac hyd eithaf y ddaear." (Act. i. 8.) "Fy Ysbryd i pan ddel, efe a argyhoedda y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn." Yr oedd yn ofynol, wrth edrych yn ol ac wrth edrych yn mlaen, wrth edrych ar y byd ac ar yr eglwys, i ddydd y Pentecost fod yn adeg ar ei ben ei hun yn hanes eglwys Dduw.

Cynnwysa y testyn sylfaen gweithrediadau y diwrnod bythgofiadwy hwnw: cawn yma yr amgylchiadau a wnaethant i'r diwrnod fod y peth a fu. Nid oedd y bregeth, y dwysbigo, a'r ychwanegu at yr eglwys ond ffrwyth y pethau a gofnodir yn yr adnodau hyn.

I. Yr amser ar ba un y cymmerodd y pethau a gofnodir le.

"Ac wedi dyfod dydd y Pentecost." "Ystyr y gair ydyw degfed a deugain, o herwydd fod yr wyl hon yn disgyn ar y degfed dydd a deugain ar ol Sabbath y Pasc. Gelwir hi 'Gwyl y cynhauaf,' (Ecsod. xxiii. 16.) 'Gwyl yr wythnosau,' (Ecsod. xxiv. 22.) a 'Dydd eich blaenffrwythau.' (Num. xxviii. 26.) Medid ysgub y blaenffrwyth drannoeth ar ol Sabbath y Pasc, a gelwid y saith wythnos oddi yno i'r Pentecost yn 'ddefodol wythnosau y cynhauaf.'

Ar yr wyl hon y bwytaent 'fara y blaenffrwyth.' (Lef. xxiii. 15—21. Deut. xvi. 9, 10. Jer. v. 24.) Dyben yr wyl hon oedd cofio yn ddiolchgar am ddaioni yr Arglwydd yn y cynhauaf; a thybir yn gyffredin, er na fynegir hyny yn neddf Moses, ei bod yn goffadwriaeth o roddiad y ddeddf ar Seinai."—CYNDDELW.

Yr oedd Jerusalem yn llawn iawn yr adeg yma. Gofynid i holl wŷr Israel fod yno yn addoli ar wyl y Pebyll, y Pasc, a'r Pentecost: gwel adn. 5. 9—11. Diau fod rhyw nifer o'r rhai hyn wedi dychwelyd i Jerusalem i fyw, ac yr oedd ereill yno dros yr wyl. Edrychir ar y gwledydd a enwir mewn trefn, oddi eithr y ddau le diweddaf a nodir. Dechreuir yn y Dwyrain gyda'r Parthiaid, a theithir tua'r Gogledd-Orllewin hyd nes y deuir i Phrygia a Phamphylia. Yna croesir Môr y Canoldir i'r Aipht a Lybia, ac yn y diwedd cofir am y Cretiaid a'r Arabiaid. Diau rhwng y cyfan fod y ddinas yn lled lawn. Dywedir fod ynddi pan warchaewyd arni gan Titus tua thair miliwn o bobl wedi dyfod yno i'r Pasc. Yr oedd i amgylchiadau y Pentecost ddygwydd ar y fath adeg yn fanteisiol iawn i ledaeniad yr efengyl, a diau i lawer fyned â gair y bywyd gyda hwy gartref. Gan fod yr Arglwydd Iesu wedi ei groeshoelio yn Jerusalem ar yr wyl, yr oedd yn iawn iddo gael ei ogoneddu ar yr wyl hefyd. Rhyfedd y cyfnewidiad oedd wedi cymmeryd lle mewn saith wythnos o amser. Yn yr wyl o'r blaen yr oedd Pedr wedi gwadu yr Iesu, a'r gweddill o'r dysgyblion wedi ffoi; yn hon mae Pedr yn cyfodi ei leferydd gan sefyll gyda'r un ar ddeg. Yn yr wyl o'r blaen mae y pennaethiaid yn gwatwar, gan ddywedyd, "Ereill a waredodd efe; gwareded ef ei hun, os hwn yw Crist etholedig Duw;" yn hon mae Pedr yn ei bregethu, gan ddywedyd, "Am hyny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi." Yn yr wyl o'r blaen mae y bobl yn gwaeddi, "Ymaith âg ef, croeshoelia ef;" yn hon mae yr un bobl yn gwaeddi, "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?" Mae yn rhaid i Iesu gael ei ddyrchafu yn mhob man y bydd wedi ei anmharchu. Rhaid iddo gael ei ogoneddu yn ngolwg pawb fydd wedi ei ddirmygu. Os bu yn y byd yn ŵr gofidus, cynnefin â dolur, rhaid iddo ddyfod eto i'r un byd yn ei ogoniant ei hun, ac yn ngogoniant ei Dad, gyda'i angylion santaidd. Nid oedd y cyf-

newidiad a gymmerodd le yn marn yr Iuddewon rhwng y Pasc a'r Pentecost ond darlun gwan o'r cyfnewidiad a gymmer le yn marn y byd rhwng y mynediad i'r nef a'r dyfodiad oddi yno. Bydd y miloedd sydd yn mhob oes yn eu hiaith yn gwaeddi, "Croeshoelia ef," yn y diwrnod hwnw wedi dyfod i ofyn, "Beth a wnawn ni?"

Yr oedd llawer gwirionedd prydferth a phwysig yn dyfod i'r golwg yn ngwaith teyrnas Dduw yn dyfod mewn grym ar yr wyl hon. Ar y Pasc byddai yr Iuddewon yn cyflwyno ysgub y blaenffrwyth i'r Arglwydd, ac ar y Pentecost byddent yn cyflwyno blaenffrwyth eu bara iddo, wedi cael y cynhanaf i mewn. Ar y Pasc yr oedd ysgub cyhwfan cynhauaf y ddaear yn cael ei dyrchafu ar Galfaria, ar y Pentecost mae yr ysgub hòno wedi dyfod yn fara y bywyd i'r bobl. Os byddai yr Iuddewon yn enneinio blaenffrwyth bara cynhauaf Canaan, dyma yr Ysbryd tragywyddol yn enneinio blaenffrwyth cynhauaf y ddaear. Os oedd Israel yn cofio am roddiad y ddeddf ar Seinai, dyma Dduw yn gogoneddu yr hwn a gyflawnodd y gyfraith a'r prophwydi ar Galfaria. Y mae gogoniant Pentecost y gyfraith yn cael ei guddio am byth gan Bentecost mawr yr efengyl.

II. Yr amgylchiadau goruwchnaturiol a gymmerasant le ar y Pentecost.

1. Y sŵn a glywsant. (adn. 2.) Ni ddywedir fod yma wynt, ond sŵn fel pe buasai gwynt nerthol yn rhuthro, a'r sŵn hwnw wedi llenwi y tŷ lle yr oeddynt yn eistedd. Daeth y sŵn yn ddisymwth. Diau eu bod yn dysgwyl yn barhaus am dywalltiad yr Ysbryd, ac yr oedd yn gwbl naturiol iddynt fod yn dysgwyl mwy y diwrnod hwnw na'r un adeg; ond digon tebyg nad oeddynt yn meddwl dim am yr arwyddion a'i rhagflaenodd, ond yr oedd dyfodiad y sŵn o'r nef yn peri iddynt gasglu ei neges yn fuan.

2. Yr olygfa a welsant. (adn. 3.) Nid hawdd bod yn sier pa fath agwedd oedd ar y tafodau hyn. Dichon mai y peth tebycaf ydyw fod rhyw gawod o fflamau wedi ymddangos iddynt, ac i un fflam aros ar bob un o honynt; neu i'r tafodau yma ymddangos ar y cyntaf yn gyssylltiedig â'u gilydd, ac wedi dadgyssylltu, i un aros ar bob un o'r dysgyblion. Mae Duw wedi arfer gwneyd ei hun yn amlwg i ddyn trwy dân. Dichon fod y tafodau tân yn arwyddlun o ddylanwadau puredigol yr Ysbryd Glân; a'r ffurf o dafodau yn arwyddlun o'r gallu oeddynt ar dderbyn

i siarad gwahanol ieithoedd. Mae gwyrthiau y Beibl yn gyffredin yn arwyddluniol, a'r rhan fwyaf o honynt hefyd yn fendithion ynddynt eu hunain.

3. Yr Ysbryd a dderbyniasant. (adn. 4.) Mae yr "oll" yma yn cynnwys o leiaf yr ugain a chant y crybwyllir am danynt yn y bennod o'r blaen. Mae yn bossibl hefyd fod rhai o'r pum' can' brodyr a welwyd yn Galilea wedi dyfod i'r wyl, ac ymuno â'r dysgyblion ereill, ac felly fod yma yn awr fwy nag ugain a chant. Mae yn ddiau fod y "llenwi" hwn â'r Ysbryd Glân yn beth mwy cyflawn nag oedd wedi bod yn y byd erioed o'r blaen. Dywedir fod Elizabeth a Zacharias, rhieni Ioan Fedyddiwr, wedi eu llenwi â'r Ysbryd Glân, ond nid oedd y llenwi hwnw ond rhanol mewn cymhariaeth i'r llenwi ar ddydd y Pentecost. Mae llawer o ymadroddion yn cael eu harfer yn y Beibl cyn i'w hystyr gael eu llenwi. Y maent mewn un ystyr yn briodol ar eu harferiad cyntaf, ond yn cael eu cyflawni yn fwy perffaith yn ngoruchwyliaethau Duw ar ol hyny. Mae amryw engreifftiau o hyny yn narluniad y Gwaredwr o ddinystr Jerusalem; mae yno ymadroddion na chyfarfyddant â'u llon'd hyd ddiwedd y byd a dydd y farn. Diau fod yr ymadrodd yn cynnwys eu bod wedi eu gosod yn gwbl o dan ddylanwad ac arweiniad yr Ysbryd Glân.

4. Effaith uniongyrchol y llenwi â'r Ysbryd Glân ar y dysgyblion. (adn. 4.) Yr ystyr sydd yn gorwedd gyssonaf â'r holl hanes ydyw, fod y naill o'r dysgyblion yn gallu llefaru un iaith, a'r llall iaith arall, ac felly cydrhyngddynt yr oeddynt yn gallu llefaru iaith pob un o'u gwrandawyr; neu, yr hyn sydd yn fwy tebygol, fod pob un o'r dysgyblion yn alluog i lefaru pob iaith. Mae rhai wedi meddwl mai ar glustiau y gwrandawyr yr oedd y wyrth yn cael ei gwneyd. Ond ymddengys i ni fod hyny yn gwbl annhebyg. Y dysgyblion oedd wedi eu llenwi â'r Ysbryd, a buasid yn dysgwyl mai arnynt hwy y buasai yr effeithiau. Hefyd ymddengys eu bod wedi dechreu llefaru â thafodau cyn i'r holl ieithoedd yma ddyfod yno, oblegyd y gair am hyny, yn un peth, a'u tynodd yno. . Ni buasai neb yn meddwl am ddweyd mai wedi meddwi yr oedd y dysgyblion oni buasai eu bod yn siarad rhywbeth dyeithr i'r cablwyr hyny. Ymddengys fod llefaru â thafodau yn ganlyniad cyffredin derbyn dylanwadau gwyrthiol yr Ysbryd. Dyna engraifft yn hanes tŷ Cornelius. (Act. x. 46.) Mae rhai yn meddwl

mai yr hyn a feddylir wrth siarad â thafodau yn nhŷ Cornelius, os nad yn y testyn hefyd ydyw, siarad gyda goleuni, a nerth, a phrofiad newydd, am bethau Duw, nes y byddai pawb yn eu gwrando, gan deimlo fod bywyd Dwyfol yn eu pethau. Nis gallwn dderbyn y syniad yna, ond gallwn uno hwna â'r llall; oblegyd nid siarad pethau eiddil a gwywedig y byddai y rhai a fyddent wedi eu llenwi â'r Ysbryd Glân. Dywedir yn y testyn mai "mawrion bethau Duw" yr oedd y dysgyblion yn eu llefaru, ac mae y dystiolaeth yn gryfach o gymmaint ag mai y dyeithriaid oedd yn eu dweyd. Siaradent hefyd mewn iaith gywir a chyda rhwyddineb hollol, nid fel llawer Cymro yn siarad Saesonaeg, a llawer llai fel Sais yn siarad Cymraeg; eithr siaradent bob iaith yn ei phriod-ddull a'i grym gwirioneddol ei hunan. Mae y ffaith fod Judea yn cael ei nodi yn y testyn yn dangos nad oedd dim o acen Galilea ar y Galileaid ar ddydd y Pentecost, pan yn llefaru "mawrion bethau Duw." Yn Babel cymmysgwyd yr ieithoedd, a thrwy yr hen oruchwyliaeth cyfyngwyd breintiau crefydd yn benaf i un iaith; ond pan ddaeth teyrnas Dduw mewn grym, dyma arwyddion fod holl ieithoedd y ddaear i gael eu cofleidio o dan ei nawdd; ac mae y dydd yn dyfod, pan fydd y peth a welwyd ar raddeg fechan ddydd y Pentecost wedi llenwi y byd, a holl ieithoedd daear yn clywed "mawrion weithredoedd Duw," yn eu hiaith eu hun, yn yr hon y ganed hwy.

III. Dylanwad uniongyrchol yr amgylchiadau hyn ar y bobl. (adn. 6—13.)

Casglwyd yno gynnulleidfa at ei gilydd. (adn. 6.) Pe ceid Cristionogion i weithio yn unfrydol yn nhrefn Duw, fe geid pobl yn nghyd. Cynnulleidfa gymmysg oedd cynnulleidfa y Pentecost fel pob un arall. (adn. 6. 13.) Yr oedd yr effaith ar y gwrandawyr yn ddau fath:—

1. Yr oedd un dosbarth yn drallodus, (adn. 6.) yn synedig, (adn. 7. 12.) ac yn ammheus. (adn. 12.) Teimlent fod yno ryw beth nas gallent ei esbonio, ac yr oedd rhyw beth yn araf sibrwd yn eu mynwes fod llaw Duw yn eu hymyl, a theimlent gan hyny fath o arswyd yn eu meddiannu.

2. Yr oedd ereill yn cymmeryd ffordd rwydd i esbonio y cyfan. (adn. 13.) Wrth glywed y dysgyblion yn llefaru rhywbeth nad oeddynt hwy yn ei ddeall, cymmerent yn

ganiatâol mai meddwon oeddynt. Engraifft, fel a geir yn aml, o ddynion yn gwneyd ffyliaid o honynt eu hunain wrth siarad yn rhy brysur.

Crybwyllion ac awgrymiadau:—

1. Daeth yr Ysbryd ar y dysgyblion pan oeddynt yn gytun mewn gweddi. Yr oedd y tywydd mawr wedi eu dysgu i gytuno. O'r blaen ymrafaelient pwy fyddai fwyaf.

2. Daeth pan yn gweithredu wrth gyfarwyddyd eu Harglwydd. "Aroswch yn ninas Jerusalem."

3. Daeth yr Ysbryd ar y dysgyblion i ddechreu, yr oeddynt drachefn yn barod i wynebu ar y byd.

4. Daeth llawer o'u gwrandawyr i dir ystyriol.

5. Gwawdiodd ereill, "Llawn o win melus ydynt."

---

# DARLITH IX.

ACT. II. 14—21.

14. ¶ Eithr Pedr, yn sefyll gyda'r un ar ddeg,[1] a gyfododd ei leferydd, ac a ddywedodd wrthynt, *O* wŷr o Iuddewon,[2] a chwi oll sydd yn trigo yn Jerusalem, bydded hysbysol hyn i chwi, a chlust-ymwrandewch â'm geiriau:

15. Canys nid yw y rhai hyn yn feddwon, fel yr ydych chwi yn tybied; oblegyd y drydedd awr[3] o'r dydd yw hi.

16. Eithr hyn yw y peth a ddywedwyd trwy[4] y prophwyd Joel;

17. A bydd yn y dyddiau diweddaf,[5] medd Duw, y tywalltaf o'm Hysbryd ar bob cnawd; a'ch meibion chwi a'ch merched a brophwydant, a'ch gwŷr ieuainc a welant weledigaethau, a'ch hynafgwyr a freuddwydiant freuddwydion:

18. Ac ar fy ngweision ac ar fy llawforwynion[6] y tywalltaf o'm Hysbryd[7] yn y dyddiau hyny; a hwy a brophwydant:

19. A mi a roddaf ryfeddodau yn y nef uchod, ac arwyddion yn y ddaear isod; gwaed, a thân, a tharth mwg.[8]

20. Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lloer yn waed, cyn i ddydd mawr ac eglur yr Arglwydd ddyfod.[9]

21. A bydd, pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd, a fydd cadwedig.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

1 Gan fod Matthias yn awr yn llenwi lle Judas.—GLOAG.

2 Chwi wŷr o Judea.—C. D. Ddynion o Judea.—A. B. U.

3 Rhanai yr Iuddewon y dydd a'r nos i ddeuddeg rhan bob un, a galwent hwy yn oriau, er fod eu hyd yn amrywio, yn ol fel y byddai y goleuddydd yn hwy neu yn fyrach. Pan fyddai y dydd a'r nos yr un hyd, y drydedd awr o'r dydd fyddai naw o'r gloch yn y boreu.—LUMBY.

4 Gan.—C. D. Neu, trwy.—Y. D., A. B. U., a J. W.

5 Gelwir hwy felly am eu bod yn cau i fyny yr hen drefniant, yn terfynu pob darpariadau rhagbarotôawl, ac yn cyfansoddi goruchwyliaeth ddiweddaf teyrnas Dduw ar y ddaear.—D. BROWN.

6 Ië, ac ar fy ngweision, ac ar fy llawforwynion.—C. D. Gr., ar fy nghaethweision, ac ar fy nghaethforwynion.—Y. D.

[7] Yr Ysbryd Glân yw yr unig allu cyfartaliadol gwirioneddol sydd yn mhlith dynion.—LECHLER.

[8] Y mae gan oruchwyliaeth y Messiah ddwy agwedd, y naill yn cael ei nodweddu gan ras a thrugaredd, a'r llall gan farn a chosb. Mae adn. 17, 18. yn sefyll ar y bendithion gogoneddus a dywelltid ar y rhai a gydnabyddant Grist; y mae adn. 19, 20. mewn geiriau eglur yn mynegi am y gosbedigaeth ofnadwy sydd yn aros y rhai yn wirfoddol a'i gwrthodant ef. Yr oedd y Pentecost a'i wyrth hynod tywalltiad arwyddocâol gras a gallu ar yr eglwys Gristionogol foreuol—yn gyflawniad *rhanol* o adn. 17, 18.,—*prophwydoliaeth y fendith*; tra yr oedd cwymp y ddinas, y trueni a'r dychryn annghymharol oedd yn cydfyned â gwarchaead Jerusalem, a thymhor olaf y rhyfel Iuddewig diweddaf â Rhufain, a'i ganlyniad llethol, yn gyfartal gyflawniad *rhanol* o adn. 19, 20.,—*prophwydoliaeth y felldith*.—SPENCE.

[9] Cyn i ddydd yr Arglwydd ddyfod, y dydd mawr a hynod hwnw.—C. D.

## AMDDIFFYNIAD AC EGLURHAD.

Yn yr adnodau blaenorol yr oeddym yn cael y lliaws mewn agwedd gynhyrfus yn ngwyneb amgylchiadau rhyfedd dydd y Pentecost. Yr oedd y rhan fwyaf yn synu, yn rhyfeddu, ac yn ammheu beth a allasai y fath bethau fod; tra yr oedd ereill yn dywedyd am y dysgyblion, mai llawn o win melus oeddynt. O dan yr amgylchiadau yma mae Pedr yn sefyll gyda'r un ar ddeg, ac yn traddodi ei bregeth. Dywedasai yr Arglwydd Iesu wrth Pedr, "A rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd." (Mat. xvi. 19.) Efe oedd i agoryd y deyrnas o flaen y byd, i bwy bynag a gredai ddyfod i mewn. Yn y bregeth hon y mae yn gwneyd hyny. Dyma y bregeth gyntaf erioed a draddodwyd wedi i deyrnas nefoedd ddyfod yn ei grym a'i chyflawnder. Ni wyddom a oedd ereill o'r apostolion yn llefaru ar unwaith â Phedr, barna rhai fod; pa fodd bynag, ymddengys mai Pedr oedd y prif lefarwr. Mae yn debyg mai efe oedd y pregethwr goreu o'r deuddeg, ac mai hyny oedd un, os nad y prif reswm paham y gosodwyd ef i lefaru ar yr amgylchiad pwysig hwn.

Mae y bregeth yn cynnwys dwy ran, un yn egluro amgylchiadau dydd y Pentecost, a'r llall yn gosod ger bron y bobl gymmeriad a hawliau yr Arglwydd Iesu Grist. Cynnwysa y testyn y rhan gyntaf o'r bregeth, a chynnwysa y rhan gyntaf hon dri pheth:—

I. Cyfarchiad Pedr i'w wrandawyr. (adn. 14.)

Yr oedd dyeithrwch Pedr i'w wrandawyr, yn nghyda newydd-deb a hynodrwydd y pwnc ar ba un y llefarai, yn gwneyd y cyfarchiad yma yn weddus a phriodol.

1. Mae yn gyfarchiad diofn. "A gyfododd ei leferydd." Teimlai Pedr hyder yn ei genadwri, credai yn ei gwirionedd a'i chyfaddasrwydd ar gyfer y byd, fel nad oedd arno ar-

swyd siarad i bawb ei glywed. Yr oedd wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder, yn ol addewid yr Iesu, a llefarai yn ddiofn. Yr oedd y gair cyntaf mor eglur a'r gair diweddaf, llefarai y cwbl fel dyn didwyll a pheuderfynol.

2. Mae ei gyfarchiad yn syml. "O wŷr o Iuddewon, a chwi oll sydd yn trigo yn Jerusalem." Nid oes yma ddim ymddangosiad o'r hyn sydd yn ymylu ar weniaith: dim ond cydnabyddiaeth syml, ddynol, o'r bobl y mae yn myned i lefaru wrthynt.

3. Mae y cyfarchiad yn gyffredinol. "O wŷr o Iuddewon, a chwi oll sydd yn trigo yn Jerusalem." Mae yr enw "Iuddewon" wedi tarddu oddiwrth Judah. Mae yn debyg iddo ddyfod i ymarferiad yn fuan ar ol ymraniad Israel a Judah yn ddwy deyrnas, er gwahaniaethu pobl Judah oddiwrth bobl Israel. Cyfarfyddir â'r gair yn fynych ar ol y caethiwed Babilonaidd, ac arferir ef mewn amseroedd diweddarach am hiliogaeth Abraham yn gyffredinol. Mae yn debyg fod Pedr yn golygu wrth "Iuddewon" y rhai oedd yn byw yn Jerusalem a'i chyffiniau; ac wrth y rhai oedd yn "trigo yn Jerusalem," y rhai oedd wedi dyfod yno i'r wyl. Fe sylwir mai "Judea" yw darlleniad y C. D. Y mae am iddynt ddeall fod a fyno ei genadwri â phell ac agos yn ddiwahaniaeth.

4. Mae yn gyfarchiad sydd yn galw am sylw. "Bydded hysbysol hyn i chwi, a chlust-ymwrandewch â'm geiriau." Mae Pedr yn rhoddi ar ddeall i'r bobl fod ganddo rywbeth i'w ddywedyd wrthynt, ac nid yw yn petruso galw eu sylw i wrandaw arno.

II. Amddiffyniad Pedr i'w frodyr. (adn. 15.)

Ystyriai Pedr ei fod o bwys, yn mlaenaf dim, iddo ef a'i frodyr feddu cymmeriad gonest yn ngolwg eu gwrandawyr. Ystyriai fod dynion direol, a moesol isel, yn annheilwng o genadwri yr efengyl; a gwyddai na wrandewid ar y genadwri gyda thegwch os byddai yn y bobl ragfarn yn erbyn y cenadon. Nid yw Pedr yn teimlo fod eisieu gwneyd un esgusawd am eu bod yn wŷr anllythyrenog, ac o amgylchiadau cyffredin, ond yr oedd o bwys amddiffyn eu cymmeriad a'u gonestrwydd. Y mae dynion o ychydig iawn o ddaioni eu hunain, yn hoffi cael dynion cywir i'w dysgu mewn pethau crefyddol. Mae y teimlad hwn yn naturiol ac yn iawn.

1. Amddiffyna Pedr ei hun a'i frodyr gyda hunanfeddiant a phwyll. "Nid yw y rhai hyn yn feddwon, fel yr ydych chwi yn tybied." Nid oes yma ddim braw, a chynhwrf, a bygwth yn dyfod i'r golwg. Er mai peth lled chwithig i deulu yr oruwchystafell oedd i neb ddweyd eu bod yn feddwon, eto mae Pedr, yr hwn oedd wedi arfer bod mor boethlyd, yn gallu troi y cyhuddiad yn ol gyda phwyll, a nerth mawreddog ac urddasol.

2. Noda Pedr reswm digonol i ddangos afresymoldeb y cyhuddiad a roddid yn eu herbyn, a boddlona ar hyny. "Oblegyd y drydedd awr o'r dydd yw hi." Yr oedd hyn tua naw o'r gloch yn y boreu. Yr oedd yr adeg hon yn awr weddi yn mhlith yr Iuddewon. Yr oedd ganddynt dair awr weddi, y drydedd, y chweched, a'r nawfed. Ystyrient yn annghyfreithlawn i fwyta, llawer mwy i yfed dim a fuasai yn meddwi, cyn y drydedd awr o'r dydd, fel mai peth hollol annghyffredin fuasai gweled neb yn feddw yr adeg hòno. Nid yw Pedr yn dysgwyl i'w wrandawyr i gymmeryd ei air ef ar y pwnc, eithr rhydd reswm dros y peth a ddywed. Ac wedi rhoddi un rheswm digonol, nid yw yn gwneyd mwy o gynhwrf yn nghylch y pwnc. Ni buasai dim haws na dangos pa un a oeddynt feddw neu beidio, gan mai dwyn perthynas â'r adeg hòno yr oedd y cyhuddiad. Pe cyhuddasid hwy o fod yn feddw wythnos yn ol, buasai yr achos yn fwy dyrys, oblegyd nid yn aml y methir a chytuno a ydyw dyn yn feddw yn awr neu beidio. Eithr yr oedd gan Pedr waith mwy pwysig na dilyn y mater yn y wedd hon, ar ol dweyd un rheswm a ddylasai fod yn ddigon ar y pwnc. Yn aml y rhai mwyaf carpiog eu cymmeriadau fydd yn gwneyd mwyaf o helynt, pan roddir rhyw gyhuddiad yn eu herbyn.

III. Esboniad Pedr ar amgylchiadau dydd y Pentecost yn ngoleuni prophwydoliaeth Joel. (adn. 16—21.)

Dengys geiriad adn. 16. nad oedd Joel ond cyfrwng trosglwyddiad y brophwydoliaeth. Ar yr un pryd nid ydym i feddwl mai cyfrwng goddefol yn unig ydoedd, fel y cafn sydd yn trosglwyddo y dwfr; y meddwl yw fod y brophwydoliaeth yn meddu tarddiad tu hwnt i'r prophwyd a'i rhoddodd i'r byd. Mae Pedr yn dyfynu o Gyfieithiad y LXX., gydag ychydig o wyriadau. Mae y frawddeg gyntaf o adn. 17. yn esboniad ar Joel, yn hytrach nag yn ddyfyniad o hono. "A bydd ar ol hyny," medd Joel. "A

bydd yn y dyddiau diweddaf," medd Pedr. Deugys Pedr pa amser oedd Joel yn ei feddwl.

Cynnwysa y brophwydoliaeth dri pheth:—

1. Tywalltiad yr Ysbryd Glân. (adn. 17, 18.)

Cynnwysa yr adnodau hyn dri pheth o berthynas i ddylanwadau yr Ysbryd Glân:—

(1,) Eu cyflawnder. "Tywalltaf o'm Hysbryd." "Tywalltaf fy Ysbryd," yn ol Joel, fel pe buasai Duw yn myned i roddi yr Ysbryd unwaith am byth i'r byd. Yma, "tywalltaf o'm Hysbryd,"—rhoddaf gyfran helaeth o'i ddylanwadau.

(2,) Eu cyffredinolrwydd. Pob cnawd,—meibion—merched—gwŷr icuainc—henafgwyr—gweision—llawforwynion. Dyma bob cenedl, pob rhyw, pob oed, pob amgylchiadau. Nid oes neb tu allan i derfynau yr addewid.

(3,) Eu heffeithiau. (adn. 17, 18.) Cyfeirir ni yn gyffredin i edrych am gyflawniad o'r pethau hyn yn y merched oedd gan Phylip yn prophwydo; yn y gweledigaethau a gafodd Ananias, a Phedr, a Chornelius; yn mreuddwyd Joseph pan y rhybuddiwyd ef i ffoi i'r Aipht, &c. Ond yr oedd rhai o'r pethau yna wedi cymmeryd lle cyn tywalltiad yr Ysbryd, ac ymddengys i ni fod y fath engreifftiau yn llawer rhy anaml ac anmhwrpasol fel cyflawniad o addewid mor bwysig. Tybiwn nad ydym i edrych am y cyflawniad mewn prophwydo, nac mewn gweledigaethau, nac mewn breuddwydion yn llythyrenol. Trwy y pethau yna y byddai yr Ysbryd yn gweithio yn nyddiau Joel, ac mae yr iaith wedi ei dethol i osod allan ddylanwadau helaeth yr Ysbryd, yn ol fel yr oedd pethau y pryd hwnw. Y gwirionedd mawr a amcenir ddysgu yw, y byddai Ysbryd yr Arglwydd yn cario dylanwad mawr yn y dyddiau diweddaf.

2. Dyfodiad dydd mawr ac eglur yr Arglwydd. (adn. 19, 20.) Mae yr adnodau hyn yn dwyn i'n cof yn naturiol eiriau yr Arglwydd Iesu pan yn rhagfynegi dinystr Caersalem. (Luc xxi. 25—27.) Mae y fath debygolrwydd rhwng y ddau ddarluniad fel nas gallwn lai na chredu eu bod yn cyfeirio at yr un amgylchiadau. Barna llawer i'r "rhyfeddodau yn y nef uchod, a'r arwyddion yn y ddaear isod," gael eu cyflawni yn y pethau a gofnodir gan Josephus, yr hanesydd Iuddewig. Dywed ef fod cleddyf tanllyd, a chomed danllyd wedi bod yn weledig am flwyddyn uwch ben y ddinas, fod goleuni wedi tywynu yn y deml yn y nos,

fel yr oedd megys canol dydd, fod porth mawr y deml wedi agor o hono ei hun, &c. Mae yn ddigon possibl fod y pethau yna mewn golwg gan yr Ysbryd Glân, eto braidd na feddyliem mai mwy cysson â'r olwg ëang a gymmer ysbrydoliaeth yn gyffredin ar bethau, ydyw edrych ar yr adnodau hyn fel rhagfynegiad ffigyrol o'r cyfnewidiad, gwladol a chrefyddol, oedd i ddyfod ar yr Iuddewon trwy ddinystr eu dinas.

3. Diogelwch y rhai a alwent ar enw yr Arglwydd. (adn. 21.) Mae yn dra thebyg fod yn y geiriau hyn, yn y lle cyntaf, gyfeiriad at y waredigaeth a gafodd y Cristionogion ar adeg dinystr Jerusalem. Yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi eu dysgu i ffoi pan welent y ffieidd-dra annghyfanneddol; a dywedir i'r holl Gristionogion gilio o'r ddinas i dref o'r enw Pella, cyn i'r dinystr gymmeryd lle.

Ond tra yn credu fod y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio yn gyntaf at ddydd y Pentecost, a dinystr Jerusalem, credwn hefyd fod iddi ystyr ëangach, yr hwn sydd yn cymmeryd i mewn eglwys Iesu Grist o ddydd y Pentecost hyd yr amser y bydd y Gwaredwr yn dyfod yr ail waith. Fel y mae y darluniad a rydd yr Arglwydd Iesu yn yr Efengylau o ddinystr Caersalem yn edrych yn mlaen hefyd at ddydd y farn ddiweddaf, felly hefyd y mae yr adnodau hyn. Gellir edrych ar y tymhor o ddydd y Pentecost hyd ddinystr Jerusalem fel darlun o hanes y byd trwy yr oruchwyliaeth Gristionogol. Y pryd hwnw, yr oedd yr Ysbryd wedi ei roddi, yr oedd yr efengyl yn cael ei phregethu, yr oedd rhai yn ei derbyn, ac ereill yn ei gwrthod. O'r diwedd dyma y farn yn dyfod, mae dysgyblion Mab Duw yn cael eu diogelu, a'r gelynion yn cael eu difetha. Rhywbeth tebyg, ar raddeg fwy, yw hanes y byd i fod. Mae yr Ysbryd yn aros yn y byd, mae ei effeithiau yn ganfyddadwy yn mhob gwir gredadyn, mae yr efengyl yn cael ei chyhoeddi, mae rhai yn ei derbyn, mae ereill yn ei dirmygu; ond mae rhyfeddodau i fod eto yn "y nef uchod, ac arwyddion yn y ddaear isod, gwaed, a thân, a tharth mwg; yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lloer yn waed, cyn i ddydd mawr ac eglur yr Arglwydd ddyfod." Ond yn nghanol y dinystr hwnw, "Pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd a fydd cadwedig." Nid pwy bynag a alwo wedi i'r dinystr ddyfod, ond pwy bynag a alwo mewn pryd. Bydd rhai yn galw y pryd hwnw, ond bydd yn rhy ddiweddar.

# DARLITH X.

ACT. II. 22—36.

22. *Ha* wŷr Israel,[1] clywch y geiriau hyn: Iesu o Nazareth, gwr profedig gan Dduw yn eich plith chwi, trwy nerthoedd[2] a rhyfeddodau ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich canol chwi, megys ag y gwyddoch chwithau:

23. Hwn, wedi ei roddi trwy derfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw,[3] a gymmerasoch chwi, a thrwy ddwylaw anwir[4] a groeshoeliasoch, ac a laddasoch:

24. Yr hwn a gyfododd Duw, gan ryddhau gofidiau angeu:[5] canys nid oedd bossibl ei attal ef ganddo.

25. Canys Dafydd sydd yn dywedyd am dano, Rhagwelais yr Arglwydd ger fy mron[6] yn wastad; canys ar fy neheulaw y mae, fel na'm hysgoger.

26. Am hyny y llawenychodd fy nghalon, ac y gorfoleddodd fy nhafod;[7] ïe, a'm cnawd hefyd a orphwys[8] mewn gobaith:

27. Am na adewi fy enaid[9] yn uffern,[10] ac na oddefi i'th Sant weled llygredigaeth.[11]

28. Gwnaethost yn hysbys i mi ffyrdd y bywyd:[12] ti a'm cyflawni o lawenydd â'th wynebpryd.[13]

29. *Ha* wŷr frodyr, y mae yn rhydd[14] i mi ddywedyd yn hyf wrthych am y patriarch Dafydd, ei farw ef a'i gladdu, ac y mae ei feddrod ef gyda ni hyd y dydd hwn.[15]

30. Am hyny, ac efe yn brophwyd, yn gwybod dyngu o Dduw iddo trwy lŵ, Mai[16] o ffrwyth ei lwynau ef o ran y cnawd, y cyfodai efe Grist i eistedd ar ei orseddfa ef:

31. Ac efe yn rhagweled, a lefarodd am adgyfodiad Crist, na adawyd ei enaid ef yn uffern, ac nas gwelodd ei gnawd ef lygredigaeth.[17]

32. Yr Iesu hwn a gyfododd Duw i fyny; o'r hyn yr ydym ni oll[18] yn dystion.

33. Am hyny,[19] wedi ei ddyrchafu ef trwy[20] ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awr hon[21] yn ei weled ac yn ei glywed.

34. Oblegyd ni ddyrchafodd Dafydd i'r nefoedd: ond y mae efe yn dywedyd ei hun, Yr Arglwydd a ddywedodd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy neheulaw,[22]

35. Hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainc i'th draed.[23]

36. Am hyny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.

NODIADAU A DARLLENIADAU.

[1] Chwi wŷr Israel, clywch y geiriau hyn: Iesu o Nazareth, gwr a arbrofwyd gan Dduw i chwi trwy weithredoedd nerthol, a rhyfeddodau, ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich canol chwi, megys ag y gwyddoch chwi eich hunain.—C. D. J. W. bron yr un peth.

[2] Gr., trwy nerthoedd.—Y. D.

[3] Nid yw Pedr yn golygu lleihau eu heuogrwydd hwy, eithr symmud anhawsder o'u ffordd i gredu y gallasai y Messiah gael ei roddi i farwolaeth. Yr oedd yn llinnell bwriad Duw i y Crist fyned trwy ddyoddefiadau i ogoniant.—LINDSAY.

[4] Trwy ddwylaw dynion diddeddf.—C. D. Neu, dynion heb y gyfraith.—Y. D.

[5] Wedi iddo ryddhau pangfeydd angeu.—C. D. Wedi datod gloesion angeu.—J. W. Y meddwl, mae yn ymddangos ydyw, fod marwolaeth yn cael ei olygu yn gyflwr poenus, gan fod y corph yn cael ei fygwth â llygredigaeth; ac mewn canlyniad fod y poenau hyn wedi eu rhyddhau pan y cyfodwyd y corph, ac y gwaredwyd ef rhag llygredigaeth.—LECHLER.

[6] Mi a welais yr Arglwydd bob amser o flaen fy wyneb.—C. D. Mae "rhagwelais" yn golygu yn syml, "Mi a welais yr Arglwydd bob amser o fy mlaen." —SPENCE.

[7] Hebraeg, "fy ngogoniant." Sylwa Wordsworth fod aralleiriad y LXX. o "fy ngogoniant" i "fy nhafod," yn cyd-daro yn rhagorol â gwaith dydd y Pentecost, pan oedd tafodau yr apostolion, mewn modd mor hynod, yn dadgan gogoniant Duw.

[8] Drig.—C. D. Neu, dabernacla.—Y. D.

[9] "Ni adewi fy enaid i Hades," i aros yno fel ysbail gyfreithlawn.—D. BROWN.

[10] Hades - sefyllfa neu drigfa yr ysbryd yn ei gyflwr gwahanedig oddiwrth y corph.

[11] Am na adewi fy enaid yn Hades, ac ni roddi chwaith dy Sant i weled llygredigaeth.—C. D.

[12] Yr oedd "ffyrdd y bywyd" iddo ef (Iesu Grist) yn golygu yr adgyfodiad a'r esgyniad.—SPENCE.

[13] Ti a'm gwnei yn llawn o lawenydd â'th wynebpryd.—C. D. Neu, yn dy bresennoldeb.—Y. D.

[14] Frodyr, gallaf ddywedyd yn rhydd wrthych.—C. D.

[15] Yr oedd beddrod Tŷ Dafydd yn wrthddrych o hynodrwydd yn y Ddinas Santaidd.—LUMBY.

[16] Trwy lŵ, mai o ffrwyth ei lwynau ef y gosodai efe *un* ar ei orseddfainc.—C. D. Neu, y caffai *un* eistedd.—Y. D.

[17] Efe yn rhagweled hyn a lefarodd am adgyfodiad y Crist, na chafodd efe ei adael yn Hades, ac na chafodd ei gnawd ef weled llygredigaeth.—C. D.

[18] Diau y cyfeiriai yma at yr "ugain a chant," ar y rhai yr oedd dawn yr Ysbryd wedi disgyn, y rhai, er syndod y tyrfaoedd, oeddynt wedi bod yn llefaru yn yr amrywiol dafodau, a'r rhai oeddynt oll wedi gweled yr Arglwydd ar ol yr adgyfodiad.—SPENCE.

[19] Wedi ei ddyrchafu gan hyny trwy ddeheulaw Duw, ac wedi derbyn gan y Tad.—C. D.

[20] Ar ddeheulaw Duw.—Y. D.

[21] "Yr awr hon" allan.—C. D.

[22] Mae ein Harglwydd yn cyfeirio at yr un lle fel prawf fod Dafydd yn cydnabod ei israddoldeb i'r Messiah. (Mat. xxii. 43—45.) Mae y geiriau yn brophwydoliaeth uniongyrchol am y Messiah. —GLOAG.

[23] Yr oedd rhoddi y troed ar wddf gelyn gorchfygedig yn y byd Dwyreiniol yn arwydd o fuddygoliaeth lwyr. (Cym. Jos. ix. 24.)—LUMBY.

## DYRCHAFIAD Y MAB I'W AWDURDOD GYFRYNGOL.

Cynnwysa y geiriau hyn yr ail ran o bregeth Pedr dydd y Pentecost, a gellir dweyd fod Pedr wedi bod yn hapus iawn, trwy fod y rhan ddiweddaf o'i bregeth yn llawn mwy nerthol a chyfoethog na'r rhan gyntaf. Cynnwysa yr adnodau hyn hanes Duw yn dyrchafu ei Fab i'w ogoniant cyfryngol. Peth dyddorol iawn ydyw hanesiaeth. Mawr y mwynhad a'r adeiladaeth a geir wrth fyfyrio hanes personau a chymdeithasau; hanes gwledydd a darganfyddiadau. Ond nid yw y pethau hyn ond gwahanol ranau y peiriant mawr, i ba un y mae y Duwdod yn ysgogydd ac yn llywodraethwr. Ni ddeallir athroniaeth, ac ni welir gogoniant y greadigaeth, a hanes y byd, hyd nes yr edrychir arnynt yn eu cyssylltiad â'u gilydd, ac yn eu cyssylltiad â Duw. Nid yw hanes pawb a phob peth, ond edrych arnynt yn iawn, ond gwahanol

ranau hanes Duw. Golwg rhy gyfyngedig sydd gan ddyn ar hanesiaeth i'w deall yn drwyadl. Mae y byd yn myned yn mlaen yn raddol i gymmeryd golwg ëangach ar bethau; yn y byd a ddaw, bydd dyn mewn safle fwy manteisiol i weled pethau fel y maent; er hyny, yr Hollwybodol fydd yr unig un, am byth, a fedr ddeall athroniaeth y cyfanfyd yn gyflawn. Efe yn unig sydd mewn safle i allu gweled hanesiaeth yn ei hyd a'i lled, yn ei dyfnder a'i huchder, ar unwaith. Nid oes ond Duw ei hun a fedr amgyffred ëangder a gogoniant cynnyrchion y priodoliaethau Dwyfol. Mae hanes Duw yn dyrchafu ei Fab i'w awdurdod gyfryngol y peth mwyaf gogoneddus y clybuwyd am dano erioed. Mae pob cam yn y symmudiadau yn llawn gogoniant a rhyfeddodau.

Yn adn. 21. dywed Pedr, "A bydd pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd a fydd cadwedig." Gofyniad naturiol yn ngwyneb y geiriau yna yw, Pwy yw yr Arglwydd hwn? Yn y testyn mae Pedr yn rhoddi crynhodeb o'r pethau sydd yn profi mai Iesu o Nazareth ydyw, ac yn y diwedd crynhoa y cyfan yn y geiriau nodedig, "Am hyny, gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, wneuthur o Dduw yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi." Credai yr Iuddewon fod "Duw wedi llefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi," am hyny mae Pedr yn gofalu rhoddi eglurder a phwys ar y ffaith mai Duw oedd yn dyrchafu Iesu o Nazareth i fod yn Arglwydd ac yn Grist.

Noda Pedr bump o bethau, y rhai a wnaeth y nefoedd wrth ddyrchafu yr Iesu i'w awdurdod gyfryngol.

I. Dwyn tystiolaeth i'w gywirdeb fel cenad oddiwrth Dduw. (adn. 22.)

Geilw Pedr ein Harglwydd yma wrth yr enw a roddid iddo yn gyffredin gan yr Iuddewon, "Iesu o Nazareth." "Gwr profedig gan Dduw,"—gwr wedi ei brofi gan Dduw i fod y peth y proffesai fod. Gwnaed hyny trwy "nerthoedd, a rhyfeddodau, ac arwyddion." Mae yma dri gair am yr hyn a elwir mewn manau ereill yn wyrthiau. Fel yr oedd y gwyrthiau uwch law gallu dyn i'w cyflawni, yr oeddynt yn nerthoedd; fel yr oeddynt yn bethau annghyffredin, yr oeddynt yn rhyfeddodau; ac fel yr oeddynt yn dwyn perthynas â chymmeriad eu gwneuthurwr, yr oeddynt yn arwyddion,—arwyddion fod Duw gydag ef. Mae

amryw bethau yn y Beibl yn cael eu priodoli, weithiau i'r Tad, ac weithiau i'r Mab, ac felly gwyrthiau Iesu Grist. Dichon mai geiriau Mab Duw ei hunan yw yr esboniad goreu a allwn gael ar hyn. "Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau? Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof fi, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau: ac onide, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hunain." (Ioan xiv. 10, 11.) Yma priodolir y gwyrthiau i'r Tad; yr agwedd hòno arnynt oedd yn ateb oreu i'r amgylchiadau. Dywedir fod y gwyrthiau wedi eu gwneyd yn mhlith yr Iuddewon, ac apelir at eu gwybodaeth bersonol o hyny.

II. Goddef i ddyn roddi yr Iesu i farwolaeth yn ol rhagdrefniadau y nefoedd. (adn. 23.)

Mor wrol ydyw Pedr, yr hwn unwaith a ofnai y llances! Gellir darllen yr adnod hon, "Hwn a gymmerasoch chwi, wedi ei draddodi yn ol terfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw, a thrwy ddwylaw rhai diddeddf a groeshoeliasoch ac a laddasoch." Yr Iuddewon oedd y rhai a gynllunient pa fodd y lladdent yr Iesu; Judas oedd yr un a'i traddododd iddynt; a'r Rhufeiniaid, rhai diddeddf, oedd y rhai a gyflawnasant y weithred yn llythyrenol. Ond dengys Pedr nad oedd hyn oll yn milwrio yn erbyn mai Iesu o Nazareth oedd y Messiah, oblegyd yr oedd y cyfan yn ol "terfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw." Yr oedd y traddodi, a'r croeshoelio, a'r lladd, ar y llwybr ar hyd yr hwn yr oedd Iesu i esgyn i'w orsedd gyfryngol, yn ol arfaeth a rhagwybodaeth Duw. Er mai Iuddewon maleisus yn cynllunio, a dysgybl anffyddlawn yn bradychu, a Rhufeiniaid creulawn yn lladd, oedd y cyfan oedd yn y golwg, eto yr oedd Duw o'r tu cefn, fel nad oedd yn y cwbl ond hanfodion dyrchafiad Iesu i'r orsedd gyfryngol. Nid oedd yr Iuddewon ronyn yn llai euog am eu bod wedi lladd y Messiah trwy ereill. Mae Pedr yn eu dal hwy yn gyfrifol am y croeshoelio a'r lladd. Nid oedd cynghor Duw ychwaith yn effeithio dim ar eu rhyddid a'u cyfrifoldeb.

III. Cyfodi yr Iesu oddiwrth y meirw. (adn. 24—32.)

Dyma y wyrth fawr oedd yn coroni yr holl wyrthiau ereill. Heb hon buasai y gwyrthiau blaenorol yn bennod anesboniadwy byth. Ni buasai modd profi fod Iesu wedi

## *Hand-books for Bible Classes & Private Students.*

EDITED BY

MARCUS DODS, D.D., AND ALEXANDER WHYTE, D.D.

---

**Palestine,** with Maps. By Rev. Arch. Henderson, M.A. Maps revised by Captain Conder, R.E., of the Palestine Exploration Fund. 2/6

**The Work of the Holy Spirit.** By Prof J. S Candlish, D.D. 1/6.

**Acts** (Part I., chaps 1—12, 1/6.; Part II., chaps. 13 to end, 1/6.) By Rev. Professor Lindsay, D.D. 1/6.

**Life of St. Paul.** By Rev. Jas. Stalker, M.A. 1/6.

**Short History of Missions.** By George Smith, LL.D. 2/6.

**St. Mark.** By Rev. Professor Lindsay, D.D. 2/6.

**The Shorter Catechisms.** By Alex. Whyte, D.D. 2/6.

**Lessons on the Life of Christ.** By Rev. W. Scrymgeour. 2/6.

**Presbyterianism.** By Rev. John Macpherson, M.A. 1/6.

**The Reformation.** By. Rev. Professor Lindsay, D.D. 2/-.

**Genesis.** By Marcus Dods, D.D. 2/-.

**Romans.** By Rev Principal Brown, D.D. 2/-.

**The Church.** By Rev. Professor Binnie, D.D. 1/6.

**Scottish Church History.** By Rev. N. L. Walker, M.A. 1/6.

**Hebrews.** By Rev. Professor A. B. Davidson. 2/6.

**Joshua.** By Rev. Principal Douglas, D.D. 1/6.

**Judges.** By Rev. Principal Douglas, D.D. 1/3.

**Confession of Faith.** By Rev John Macpherson, M.A. 2/-.

**Chronicles.** By Rev. Professor Murphy. 1/6.

**Christian Sacraments.** By Rev. Professor Candlish, D.D. 1/6.

**The Life of Christ.** By Rev. Jas. Stalker, M.A. 1/6.

**Haggai, Zechariah,** and **Malachi.** By Marcus Dods, D.D. 2/-.

**Galatians.** By Rev. Professor James MacGregor, D.D. 1/6.

### BIBLE CLASS PRIMERS.

Edited by Rev. Prof. S. D. F. Salmond. D.D.

*Outlines of Protestant Missions.* By John Robson, D.D. *The Apostle Peter.* By the Editor. *Outlines of Early Church History.* By H. W. Smith, D.D. *David.* By the late Rev. Peter Thomson, M.A. *Moses.* By Rev Jas. Iverach, M.A. *Paul.* By Paton J. Gloag, D.D. *Solomon.* By Rev. R. Winterbotham, M.A., LL.B. *Reformation.* By Rev. Prof. Witherow. *Kings of Israel.* By Rev. W. Walker, M.A. *Kings of Judah.* By Rev. Professor Given, Ph.D. *Joshua and the Conquest.* By Rev. Prof. Croskery.

*In Paper Covers, -/6 each; Free by Post. -/7. In cloth, -/8 each; Free by Post. -/9.*

EDINBURGH: T. & T. CLARK, 38, GEORGE STREET.
To be had from all Booksellers.

---

## Y GENINEN:

Cylchgrawn Chwarterol Cenedlaethol. Telerau:—Anfonir un copi o'r *Geninen* trwy y *post* am 1/1½. Am flwyddyn am 4/6 Yn ddidraul am flwyddyn am flaendâl o 4/. Cyfeirier pob archebion i Swyddfa'r *Geninen*, Carnarvon.

*William Collins, Sons, & Co., Limited.*

# COMMENTARIES.

**Library Commentary on the Old & New Testaments,** Critical, Experimental, and Practical. By Rev. Dr. Jamieson, Glasgow; Rev. A. R. Fausset, York; and Rev. Dr. D. Brown, Aberdeen. Six vols., medium 8vo, cloth lettered, £3.

*Or Separately, as under,*

| Vol. | | s. | d. | Vol. | | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I. | Genesis to Deuteronomy ...... | 12 | 0 | IV. | Jeremiah to Malachi ............ | 12 | 0 |
| II. | Joshua to Esther ............... | 12 | 0 | V. | Matthew to John .................. | 12 | 0 |
| III. | Job to Isaiah ...................... | 12 | 0 | VI. | Acts to Revelation ............... | 12 | 0 |

*Also*, Half-bound morocco or calf, 6 vols., £4 4s.

"I think it is the best commentary upon the whole Bible which has been issued within the last fifty years, and I should be very sorry to be deprived of the pleasure of consulting it."—*Rev. C. H. Spurgeon.*

"The most practical, suggestive, orthodox, and scientific which has ever been published in this country."—*Rev. Norman Macleod, D.D.*

"Accuracy of scholarship, practicalness of tendency, comprehensiveness of thought, richness of illustration and remarkable cheapness, claim for it a world-wide circulation."—*Homilist.*

LIBRARY
1988

**The Student's Commentary, with Text in full,** Critical and Explanatory, by Jamieson, Fausset, and Brown. In 4 vols, fcap. 8vo, cloth, 12/-.

*(The Notes in this Edition are condensed from the "Library Commentary.")*

*Or Separately, as under,*

| | | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Old Testament, | Genesis to Esther ............ | 3 | 0 |
| " | Job to Malachi ............... | 3 | 0 |
| New Testament, | Matthew to Romans ... ...... | 3 | 0 |
| " | Corinthians to Revelation ...... | 3 | 0 |

*Also*, Half-bound morocco, gilt edges, 4 vols., £1 1s.
Half-bound calf, red edges, 4 vols., £1 1s.

**The Portable Commentary,** Critical and Explanatory, by Jamieson, Fausset, and Brown. *Without the Text*, 2 vols., post 8vo, cloth, 12/-.

*(The Notes in this Edition are condensed from the "Library Commentary," but are at the same time fuller than those in the "Student's Commentary," more space being at the editor's command.)* *Or Separately, as under,*

| | s. | d. |
|---|---|---|
| Old Testament, Genesis to Malachi. 8vo, cloth ............... | 6 | 0 |
| New Testament, Matthew to Revelation. 8vo, cloth ...... ... | 6 | 0 |

*Also*, Half-bound morocco or calf, 2 vols., 18s.

**The Portable Commentary.** New and Cheaper Edition, printed on thin paper. Complete in One Volume, half-bound calf, red edges, 15/; Turkey morocco, gilt edges, 18/-; cloth extra, 10/6.

WILLIAM COLLINS, SONS, & Co., LIMITED,
LONDON, GLASGOW, & EDINBURGH.
*May be had from all Booksellers.*

12/1911

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCK

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRA

BS
2625
.3
D38
1886
RHAN 1
C.1
ROBA

UTL AT DOWNSVIEW

| D | RANGE | BAY | SHLF | POS | ITEM | C |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 39 | 11 | 12 | 25 | 14 | 006 | 0 |